# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-22

Iechyd a Gofal Digidol **Cymru**

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales

Iechyd a Gofal Digidol Cymru Digital Health and Care Wales

# CYNNWYS


ADRODDIAD PERFFORMIAD

RHAGAIR

FFEITHIAU ALLWEDDOL 2021 -2022

EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU

SUT RYDYM YN EI WNEUD

CRYNODEB O BERFFORMIAD

DADANSODDIAD O BERFFORMIAD

Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR AR GYFER Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

ADRODDIAD AR DÂL CYDNABYDDIAETH A STAFF

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDD CYMRU

DATGANIADAU ARIANNOL A NODIADAU 2021/22

# DARPARU TECHNOLEG DDIGIDOL AR GYFER GOFAL GWELL, CYSYLLTIEDIG

## ADRODDIAD PERFFORMIAD

## RHAGAIR

Rhagair gan y Cadeirydd, **Simon Jones** a'r Prif Swyddog Gweithredol, **Helen Thomas**





**Rydym yn falch iawn o gyflwyno'r adroddiad blynyddol cyntaf gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sy'n olrhain y cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis cyntaf o weithredu fel Awdurdod Iechyd Arbennig.**

Mae'r byd sydd ohoni yn dibynnu ar dechnoleg, ac mae'r adolygiad hwn yn dangos sut mae gan wasanaethau technegol a data ac arbenigedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ran fawr i'w chwarae wrth ddarparu gofal iechyd diogel a chynaliadwy i bobl Cymru.

Lansiwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystod cyfnod digynsail a heriol, a bu'n wirioneddol ysbrydoledig gweld ymroddiad anhygoel ei staff sydd wedi gweithio'n ddiflino i ffurfio ein sefydliad newydd, cefnogi'r ymateb i'r pandemig a chyflawni ein blaenoriaethau digidol a'n cynllun strategol.

P'un ai trwy ddatblygu systemau newydd i gefnogi profion a chyflwyno brechlynnau neu offer data i ddarparu gwybodaeth amser real, mae ein gwaith wedi helpu i achub bywydau.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ehangu'r cofnod iechyd integredig a'i roi ar waith trwy systemau newydd neu systemau wedi'u hadnewyddu. Bellach, mae gan ysbytai yng Nghymru system fferylliaeth genedlaethol newydd, fe ddechreuom gyflwyno system newydd i'w defnyddio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ac fe ddarparom Gofnod Gofal Nyrsio Cymru, sy'n chwyldroi dogfennaeth ar gyfer nyrsys.

Mae Porth Clinigol Cymru wrth wraidd y broses o gysylltu ein gwasanaethau gofal iechyd ac rydym wedi ychwanegu at ei ymarferoldeb a'i symudedd, gan ddarparu mynediad trwy ffonau clyfar a dyfeisiau llechen.

Rydym hefyd yn cefnogi gofal sylfaenol trwy gontract fframwaith newydd ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gyfrifiadura meddygon teulu.

Ar yr un pryd, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein seilwaith yn addas ar gyfer y byd newydd trwy ehangu lled band a'r symudiad llwyddiannus i ganolfan ddata newydd ynghyd â newid i wasanaethau cwmwl. Rydym wedi cyhoeddi ein Strategaeth Cwmwl gan gynnwys yr egwyddorion cwmwl y byddwn yn eu dilyn.

Mae ansawdd yn rhan ganolog o'n ffordd o feddwl. Felly, roeddem yn falch o gynnal ein safonau ansawdd ISO ac ymgorffori safonau ansawdd ar draws y sefydliad.

Er bod mabwysiadu technoleg yn cyflawni cymaint o bethau da, nid yw'n rhydd rhag risgiau seiberdroseddu, sy'n fygythiad cynyddol ledled y byd. Er mwyn ymateb i hyn, ar gais Llywodraeth Cymru, gwnaethom sefydlu Uned Seibergadernid newydd i ddiogelu ac amddiffyn data a systemau GIG Cymru.

Mae ein profiadau yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu wedi tanlinellu rôl allweddol technoleg ddigidol a data yn y system iechyd a gofal, ac mae hyn wedi cryfhau ein hymrwymiad i weithio'n agored ac ar y cyd â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid i sicrhau pwrpas cyffredin a chynlluniau cyffredin wrth i ni symud ymlaen.

O ganlyniad i'r pandemig, mae ein cydweithwyr rheng flaen wedi gorfod defnyddio technoleg ddigidol yn wahanol ac wrth wneud hynny maen nhw wedi sylweddoli bod technoleg a data bellach yn hanfodol i ddarparu gofal iechyd. Roedd yr ymateb i'r pandemig wedi datblygu a manteisio ar systemau brechu a systemau profi ac olrhain cenedlaethol a gyflwynwyd yn gyflym mewn ffordd safonol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnig cyfle unigryw i adeiladu ar gynnydd digidol a chyfrannu at ddyfodol cadarnhaol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru.

Mae rhoi pobl yn gyntaf wrth wraidd yr hyn a wnawn a dyna pam rydym yn falch o fwrw ymlaen â datblygiad newydd cyffrous – y rhaglen Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd. Y nod yw trawsnewid sut mae pobl yng Nghymru yn cael mynediad at ofal ac yn rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain. I ddechrau, mae'r rhaglen yn datblygu cymhwysiad porth (Ap), gan ganiatáu i bobl ddewis y gwasanaethau iechyd a gofal digidol y maen nhw am eu defnyddio o'u ffonau clyfar a dyfeisiau symudol eraill, gan ddisodli prosesau hen ffasiwn ar bapur a phrosesau sy'n canolbwyntio ar system. Er enghraifft, trwy eu galluogi i newid eu hapwyntiadau gofal iechyd ar-lein i amser neu ddiwrnod mwy cyfleus.

Wrth edrych tua'r dyfodol, er mwyn sicrhau bod gennym y dalent sy'n angenrheidiol i gynnal seilwaith hanfodol a datblygu gwasanaethau newydd, rydym wedi ehangu ein gweithlu a chryfhau ein galluoedd technegol. Er mwyn parhau i ddenu'r sgiliau y mae arnom eu hangen, rydym yn parhau i fod yn frwd ynglŷn â meithrin ein pobl a chreu gweithle hyblyg ac amrywiol.

Ein pobl yw ein sefydliad, maen nhw'n rhoi eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu harbenigedd a'u syniadau i ni ac rydym yn diolch o galon iddynt am eu cyfraniad yn ystod ein blwyddyn gyntaf. Diolch hefyd i'n Cadeirydd dros dro Bob Hudson am helpu i sefydlu Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac arweinyddiaeth gadarnhaol ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Diolch hefyd i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad, sydd wedi bod yn allweddol i'n helpu i gyflawni ein nodau.

**Mae eleni wedi bod yn flwyddyn wirioneddol ryfeddol, nid heb ei heriau, ond yn flwyddyn sydd wedi gosod sylfaen gadarn i alluogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru i symud ymlaen fel partner dibynadwy a chanddo ran bwysig i'w chwarae wrth drawsnewid iechyd a gofal yng Nghymru.**

YN FALCH O WEITHIO I WASANAETHAU DIGIDOL GIG CYMRU

# FFEITHIAU ALLWEDDOL 2021 -2022




## CYLCH GORCHWYL: CYMRU GYFAN

**Cyfrifoldebau Allweddol:** Galluogi trawsnewid digidol trwy ddylunio a saernïo blociau adeiladu digidol, datblygu a chefnogi systemau digidol cenedlaethol, seilwaith technegol cenedlaethol, system Seiberddiogelwch y GIG, caffael digidol cenedlaethol, casglu a dadansoddi data i ddarparu mewnwelediadau a chynhyrchion gwybodaeth ar ran GIG Cymru

## CYLLIDEB FLYNYDDOL

**£131m o gyllid**



## GWASANAETHAU BLAENLLAW AR Y PORTFFOLIO



- Cofnod Iechyd a Gofal Digidol
- Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
- System Imiwneiddio Cymru, Cofnod Pandemig Cymru a Phas Digidol Covid-19
- Yr Adnodd Data Cenedlaethol
- •Atgyfeiriadau Electronig
- System Rheoli Stoc Fferylliaeth Ysbytai Cymru
- System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS)
- System Rheoli Gwybodaeth Radioleg
- System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru (WLIMS)
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- System Adrannau Achosion Brys Cymru
- Gwasanaethau System Meddygon Teulu
- Gwasanaethau e-lyfrgell ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- Dwis Fferyllfa

## NIFER Y STAFF A GYFLOGIR YN UNIONGYRCHOL

**969 gweithwyr**




## PWY RYDYM YN GWEITHIO GYDA NHW

- Sefydliadau Academaidd gan gynnwys Prifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Cydweithwyr ar draws GIG Cymru
- Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Partneriaid diwydiant
- Hwb Gwyddorau Bywyd
- Awdurdodau Lleol
- Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol
- Uned Cefnogi Comisiynu Gogledd-ddwyrain Llundain
- GIG Digidol
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Cyrff perthnasol eraill ar draws y gwledydd datganoledig
- Coleg Brenhinol y Meddygon
- Llywodraeth Cymru
- Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI)

## PWY RYDYM YN EU CEFNOGI

Rydym yn cefnogi'r holl Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Meddygon Teulu yn GIG Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi fferyllfeydd cymunedol, deintyddion, a charchardai.

# **EIN BLWYDDYN** MEWN **RHIFAU**




**31,000** o ddefnyddwyr y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol (Porth Clinigol Cymru)

**14,000** o ddefnyddwyr **Canolfan Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru**

**30 milliwn o brofion diagnostig** wedi'u rheoli'n ddigidol

Dros **4,000** o nyrsys yn defnyddio **Cofnod Gofal Nyrsio Cymru**

Mae gennym **158 yn fwy o bobl** i helpu i ddatblygu gwasanaethau digidol newydd

Dros **35,500** o ddefnyddwyr **System Gweinyddu Cleifion Cymru**

Fe wnaethom wireddi dros **£2 miliwn** trwy osgoi costau ac arbedion rhyddhau arian parod **ar ein contractau masnachol**

**1,710** o ddefnyddwyr System Rheoli Stoc **Fferylliaeth Ysbytai Cymru**

**5,000** o ddefnyddwyr e **System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru** ti reoli profion a chanlyniadau patholeg

**205,000** calls to our **Service Desk**

**100 o wasanaethau gweithredol** yn cael eu defnyddio'n ddyddiol gan staff gofal iechyd

**180 o gontractau** gyda **93** o wahanol **gyflenwyr**

**372** o bobl wedi mynychu **rhaglenni hyfforddi a datblygu mewnol**

Cefnogwyd **57** aelod o staff i ymgymryd â **chymwysterau proffesiynol a graddau**

Dyfarnwyd **£127 milliwn mewn contractau** yn ystod y flwyddyn

Ymgymerwyd â **972 o oriau dysgu** ar ein platfform e-ddysgu technegol ers mis Medi 2021

**7 miliwn** o frechiadau COVID-19 wedi'u galluogi gan **System Imiwneiddio Cymru**

# EIN GWELEDIGAETH...

Darparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf, gan rymuso pobl i fyw bywydau iachach

# PWY YDYM NI A BETH RYDYM NI'N EI WNEUD



Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig newydd sydd â rôl bwysig wrth drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu.

Fe'n sefydlwyd o dan statud ar 1 Ebrill 2021, ac mae'r mwyafrif o'n cyllid yn dod o Lywodraeth Cymru.

Rydym yn gweithio'n agos ac mewn partneriaeth â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol, gwyddorau bywyd, diwydiant a'r byd academaidd i ddarparu'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau digidol a data i bobl Cymru.

Ein nodau yw ei gwneud yn haws i staff ddarparu gofal a galluogi gwell canlyniadau a phrofiadau i gleifion.

# EIN PWRPAS...

Trawsnewid iechyd a gofal i bawb yng Nghymru

# EIN SEFYDLIAD

Ar 31 Mawrth 2022, roeddem yn cyflogi 969 o bobl gyda 944 o staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) wedi'u rhannu ar draws chwe chyfarwyddiaeth. Fe wnaethom recriwtio 158 o bobl yn allanol a symudodd 179 o bobl i gyfleoedd newydd yn fewnol yn ystod y 12 mis diwethaf. O ganlyniad i'r pandemig parhaus, roedd mwyafrif y staff wedi dal ati i weithio o bell.

Ein cyfarwyddiaethau yn 2021/22:

- Datblygu a Chefnogi Cymwysiadau
- Clinigol
- Llywodraethu Corfforaethol a Chyfathrebu
- Ymgysylltu a Thrawsnewid
- Cyllid a Sicrwydd Busnes
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

A ninnau'n sefydliad newydd, gwnaethom dreulio amser yn ystod y flwyddyn gyntaf yn atgyfnerthu ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, gan ddatblygu cynllun strategol i wneud hyn yn bosibl, ac i gefnogi blaenoriaethau system iechyd a gofal Cymru.

Gwnaethom hefyd weithio'n gyflym ac yn ystwyth i ddatblygu a gwella cynhyrchion i gefnogi'r pandemig a nodau tymor hwy trawsnewid digidol.

Fel rhan allweddol o deulu GIG Cymru, mae ein gwaith yn cael effaith amlwg, fel y gwelir trwy'r 100 a mwy o wasanaethau gweithredol a ddefnyddir bob dydd gan filoedd o staff i ddarparu iechyd a gofal.

# EIN RÔL YW

**Cefnogi staff iechyd a gofal** gyda systemau modern o ansawdd uchela mynediad diogel at wybodaeth am eu cleifion, sydd ar gael ble bynnag maen nhw eisiau gweithio.

**Darparu datrysiadau digidol newydd** sy'n helpu staff clinigol i ofalu am gleifion, gan gynnwys gwasanaethau digidol newydd i nyrsys, unedau gofal critigol, fferylliaeth mewn ysbytai, rhagnodi a rheoli meddyginiaethau a gofal cymunedol.

**Defnyddio data** i roi mewnweledIad a gwella canlyniadau a chefnogi sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu a sut mae cleifion yn cael mynediad atyn nhw.

**Helpu pobl Cymru i reoli eu hiechyd** a sut maen nhw'n gwella o salwch trwy roi gwasanaethau iechyd yn eu pocedi nhw. Rhoi mynediad i bobl i'w cofnodion iechyd digidol a'u hapiau eu hunain o unrhyw ddyfais gan ei gwneud yn haws cysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal.

**Brwydro yn erbyn seiberdroseddu** gyda chefnogaeth uned seibergadernid bwrpasol.

**Defnyddio safonau digidol a data** i ganiatáu datblygu a darparu gwasanaethau digidol yn gyflymach.

**Diogelu asedau data gwerthfawr** trwy foderneiddio'r ffordd y caiff data eu cadw a rhoi polisi 'cwmwl yn gyntaf' ar waith.

**Darparu'r seilwaith technegol a'r llwyfan** cadarn sydd eu hangen, gan ddefnyddio'r safonau diogelwch uchaf, i alluogi darparu gwasanaethau digidol a data ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru.

# BLAENORIAETHAU STRATEGOL

### Galluogi Trawsnewid Digidol

Rydym yn galluogi trawsnewid digidol trwy adeiladu ar ein sylfeini, sef diogelu data, seilwaith ac argaeledd a llif gwybodaeth - gan agor ein saernïaeth fel bod data'n gallu cael eu rhannu'n gyflymach ac yn gyson gyda phartneriaid a chyflenwyr.

### Darparu technoleg, cynhyrchion data a gwasanaethau o ansawdd uchel

Wrth i dechnoleg ac anghenion iechyd a gofal esblygu, rydym yn datblygu ac yn darparu gwasanaethau safonedig ar gyfer darparwyr iechyd a gofal Cymru, yn ogystal â sefydlu gwasanaethau newydd yn gyflym i ymdopi â sefyllfaoedd nas rhagwelwyd, fel y pandemig Covid-19.

### Ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y cofnod iechyd a gofal digidol

Mae gwybodaeth glinigol a gofal iechyd i ddinasyddion Cymru ar gael i'w darparwyr gofal trwy'r cofnod iechyd a gofal digidol. Wrth symud ymlaen, bydd mwy o elfennau o'r cofnod ar gael yn uniongyrchol i ddinasyddion.

### Sbarduno gwerth ac arloesedd ar gyfer canlyniadau gwell a gofal Seiliedig ar Werth

Mae'r angen am ddata cywir ar gyfer mewnwelediad a dadansoddeg yn bwysicach nag erioed i wella iechyd a gofal, ac i ddefnyddio data mewn ffyrdd sy'n ddiogel a digyfaddawd. Mae hyn yn cynnwys creu system wedi'i sbarduno gan ddata sy'n cefnogi gwerth mewn gofal iechyd trwy wybodaeth amserol i helpu i wneud penderfyniadau a sicrhau canlyniadau gwell.

### Dod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol sy'n perfformio'n dda ac sy'n cefnogi ein gweithlu a'n rhanddeiliaid

Mae bod yn sefydliad yr ymddiriedir ynddo yn allweddol i gyflawni gweledigaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn llwyddiannus a chyflawni popeth a ddisgwylir gennym.

# SUT RYDYM YN EI WNEUD

## EIN DIWYLLIANT, GWERTHOEDD AC YMDDYGIAD

Rydym yn **DYSGU** oddi wrth ein cydweithwyr trwy rannu gwybodaeth a phrofiad i wella ein gwasanaeth yn barhaus

Rydym yn **GOFALU** am y bobl rydym yn eu cefnogi a'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw

Rydym yn gweithredu gyda **IGONESTRWYDD** i adeiladu ymddiriedaeth




Rydym yn **PARCHU** ac yn trin pawb yn y ffordd yr hoffem gael ein trin

Rydym yn cymryd **CYFRIFOLDEB PERSONOL** am yr hyn rydym yn ei wneud, gan fod yn onest â ni'n hunain ac eraill

Rydym yn falch o'n **CYFLAWNIADAU** ac o fod yn

**Nod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio.**

Mae ein harweinwyr yn cael eu herio i fod yn emosiynol ddeallus, croesawu newid a cheisio arloesi a gwelliant parhaus i gyflawni'r canlyniadau y mae ein partneriaid a'n defnyddwyr yn eu gwerthfawrogi a'u heisiau, gan ysbrydoli ac annog eu timau i wneud yr un peth.

Drwy gydol y flwyddyn, mae ein harweinwyr wedi parhau i gyflawni perfformiad gwych, trwy ganolbwyntio ar wydnwch personol, dyfeisgarwch ac ystwythder, fel bod eu timau'n gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Hyd yn hyn, rydym wedi datblygu a darparu nifer o raglenni rheoli pwrpasol fel Rheoli ag Effaith, Arwain Timau Hybrid a Rhaglen Sefydlu Rheolwyr.

Rydym wedi ymrwymo i amgylchedd gwaith gwych ac i staff lwyr ddeall y rhan maen nhw'n ei chwarae i gyflawni ein gweledigaeth a'n canlyniadau ac i ddarparu profiad heb ei ail i ddefnyddwyr.

Rydym yn falch o'n diwylliant cynhwysol ac amrywiol sy'n gwerthfawrogi gwahaniaeth. Diwylliant lle mae ein pobl yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr a'u grymuso i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nid yn unig ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth ond bod y sefydliad yn cael ei sbarduno gan werth.

# CYNLLUNIO A HYFFORDDI'R GWEITHLU

Er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau sefydliadol, mae arnom angen gweithlu cryf, hyblyg a medrus. Bellach, mae gweithgareddau denu a recriwtio wedi'u targedu ar waith i gynyddu nifer y staff, sy'n cynnwys:

- mwy o gydweithio â'r sector addysg ac ystod eang o brifysgolion Cymru
- presenoldeb mewn ffeiriau swyddi
- dylunio a chyflwyno ein digwyddiadau gyrfaoedd rhithwir sefydliadol ein hunain

Work was also undertaken in 2021/22 to review gender pay gaps, reduce inequality of outcomes and identify workforce development needs.

Ymgymerwyd â gwaith hefyd yn 2021/22 i adolygu bylchau cyflog rhwng y rhywiau, lleihau anghydraddoldeb canlyniadau ac amlygu anghenion datblygu'r gweithlu.

Elfen allweddol o gynllunio'r gweithlu yw cynllunio ar gyfer olyniaeth, tyfu'r genhedlaeth nesaf o dalent a datblygu'r bobl sydd gennym yma nawr, yn ogystal â chefnogi dysgu a datblygiad ein gweithlu presennol a phosibl ar bob cam o'u gyrfa. Mae hyn yn amrywio o'r rhai sy'n gadael yr ysgol i raddedigion Prifysgol yn ogystal â'r unigolion hynny sy'n dymuno symud eu gyrfaoedd a bwrw ymlaen â'u huchelgeisiau gyrfaol.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn arweinydd digidol ac roedd codi proffil y sefydliad trwy hyrwyddo partneriaethau allweddol yn flaenoriaeth drwy gydol 2021/22. Mae nifer o'n staff yn dilyn cymwysterau addysg uwch a phroffesiynol:

- mae tri aelod o staff yn ymgymryd ag ymchwil PHD
- mae deg aelod o staff yn astudio ar gyfer gradd meistr
- mae 42 aelod o staff wedi'u cofrestru ar y cwrs Gradd Digidol ac mae saith wedi cofrestru eleni

Ers 2018, mae 98 o brentisiaid wedi cofrestru ar Lefel 3/4 Gwybodeg Iechyd (10 yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac 88 yng Nghymru gyfan) ac mae 107 yn dilyn y Radd Digidol (42 yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru a 65 yng Nghymru gyfan). Eleni, cofrestrodd 8 ar gyfer y Radd Digidol (7 o Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac 1 o Hywel Dda).

Yn ystod y flwyddyn, mae'r platfform e-ddysgu technegol a gaffaelwyd gan gydweithwyr yn y gweithlu ar ran y sefydliad wedi cael ei ddefnyddio'n dda gyda 263 o'r 379 o drwyddedau a roddwyd yn cael eu defnyddio'n weithredol i gefnogi uwchsgilio ac ailsgilio'r tîm technegol presennol.

Ymgymerwyd â 972 o oriau dysgu rhwng Medi 2021 a Mai 2022. Mae'r ddwy brif raglen yn cynnwys Offer Datblygu (Cwrs Gweithrediadau Datblygu) a Hanfodion y Cwmwl i gefnogi cyfeiriad strategol y sefydliad, cynyddu cyfraddau cadw a thyfu ein talent o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac maen nhw wedi cael adborth cadarnhaol.





# LLES A FFYRDD NEWYDD O WEITHIO

Gan fod llawer o staff wedi bod yn gweithio o bell am y ddwy flynedd ddiwethaf , mae gwerth iechyd a lles yn hollbwysig ac mae staff yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr a'n grwpiau Iechyd a Lles a Diogelwch, Iechyd ac Ystadau. Gwnaethom gefnogi staff a oedd am weithio o'r swyddfa am resymau lles mewn ffordd ddiogel a reolir.

Un canlyniad o'r pandemig yw ein bod wedi dangos y gallwn weithio'n wahanol ac yn effeithiol mewn amgylchiadau heriol. Mae hyn wedi llywio ein ffordd o feddwl am sut rydym yn croesawu ffyrdd newydd o weithio gan ddefnyddio pŵer digidol ac wedi rhoi cyfle i adolygu ein Strategaeth Ystadau i gefnogi gweithio hybrid a'n hagenda ddatgarboneiddio.

Ailgynlluniwyd ein swyddfeydd drwy gydol y flwyddyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i greu amgylchedd gwaith diogel ac i groesawu hyblygrwydd gweithio hybrid wrth i staff ddychwelyd i'r swyddfa.

Rydym hefyd wedi defnyddio arbenigedd allanol yn ôl yr angen, gan adeiladu ar y partneriaethau llwyddiannus â diwydiant a sefydlwyd yn 2020-21. Bu'r rhain yn allweddol i gyflwyno Office 365, Profi, Olrhain, Diogelu a datblygiadau brechlyn yn llwyddiannus.

Mae defnyddio ein System Brynu Ddeinamig wedi galluogi'r cyfleoedd mwyaf posibl i fusnesau Cymru weithio gyda ni i gyflymu'r broses gyflenwi a rhannu arloesedd a syniadau.




# FFORWM PARTNERIAETH LLEOL

Mae'r berthynas gyda'n partneriaid mewn Undebau Llafur yn gadarnhaol iawn. Mae gennym Fforwm Partneriaeth Leol sydd wedi'i hen sefydlu a grëwyd yn ffurfiol fel grŵp cynghori'r Bwrdd yn ystod 2021/22. Mae'n cyfarfod bob deufis ac yn cael ei gadeirio ar y cyd gan ein Prif Weithredwr ac Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (Undebau Llafur) sy'n cynrychioli ein staff. Mae'n rhoi cyfle i reolwyr a chynrychiolwyr y staff drafod materion strategol a materion eraill sy'n berthnasol i weithlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

# FFRAMWAITH CYNLLUNIO BLYNYDDOL 2021-2022

Cyhoeddwyd Fframwaith Cynllunio Blynyddol Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020 gan nodi blaenoriaethau a galluogwyr gweinidogol. Yna, rhoddodd cynllun blynyddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru flaenoriaeth i'r rhain yn ein cynlluniau cyflawni.

Mynnodd Llywodraeth Cymru fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ynghyd â chyrff eraill y GIG, yn cynhyrchu Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 yn hytrach na chynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd llawn, oherwydd yr amgylchedd ansicr wrth ymdrin â'r pandemig Covid-19.

Cyflwynwyd hwn ym mis Mawrth 2021 ac fe'i diweddarwyd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021 a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig newydd. Nid oedd angen cymeradwyaeth gweinidogol arno ond rhoddwyd adborth mewn llythyr paramedr ym mis Hydref 2021. Nodwyd y meysydd canlynol fel pwyntiau i'w datblygu ymhellach:

- Ceisio cryfhau ymgysylltiad â byrddau iechyd i gyflawni eu cynllun eu hunain yn effeithiol a'r agenda ddigidol ar gyfer GIG Cymru yn ei gyfanrwydd
- Sicrhau bod camau gweithredu yn y dyfodol yn adeiladu ar ffyrdd newydd o weithio a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig
- Ystyried yr angen i liniaru ar brinder gweithlu digidol

Wrth ymateb, gwnaethom ailfywiogi ein sesiynau ymgysylltu gweithredol gyda sefydliadau partner GIG Cymru ynghyd â phresenoldeb rheolaidd ar grwpiau cymheiriaid proffesiynol a byrddau rhaglenni a phrosiectau cenedlaethol.

Fe wnaethom hefyd ddatblygu strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2021 ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn GIG Cymru i lunio cynllun cenedlaethol tryloyw ar y cyd sy'n cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r ymateb digidol i COVID-19 yn seiliedig ar ystwythder a chyflymder i'n llinellau cynnyrch.

Er mwyn mynd i'r afael â heriau'r gweithlu digidol, gwnaethom gyflwyno nifer o fentrau recriwtio gan gynnwys:

- ehangu'r cynlluniau prentisiaeth sydd ar gael
- targedu hysbysebu swyddi ar gyfryngau cymdeithasol
- Cynnal perthnasoedd cadarnhaol presennol a meithrin perthnasoedd pellach gyda'n partneriaid addysg ac academaidd
- ymrwymiad i ragor o ffeiriau swyddi rhithwir a datblygu arferion arloesol newydd o ran denu, recriwtio a chontractio

# BLAENORIAETHAU LLYWODRAETH CYMRU

SUT Y BYDD IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU YN CEFNOGI'R RHAIN

**ALLWEDD**

Mae'r rhifau cyfeirnod yn ymwneud â'n Portffolio 'Camau Gweithredu ar Unwaith'

## Blaenoriaeth 1 — ATAL

- Cynyddu graddfa a gwella ein cynigion digidol yn ymwneud ag olrhain cysylltiadau Covid-19 (6.01)
- Gwella a chyflwyno System Imiwneiddio Cymru (6.02)
- Sicrhau bod systemau Covid-19 yn gynaliadwy ac yn cael eu cefnogi a'u hariannu (6.03)
- Cefnogi'r gofynion cynyddol i ddarparu llifoedd data profion Covid-19 i ddefnyddwyr newydd, ar draws ffiniau, integreiddio â systemau newydd a datblygu Cofnod Pandemig Cymru (6.04)
- Adeiladu ar lwyddiannau gwybodaeth busnes Covid-19 i ymestyn ein gwerth o gynigion data (6.05)
- Datblygu unrhyw waith a gynlluniwyd i wella neu drosglwyddo systemau Sgrinio ar yr un pryd â rhannu canlyniadau sgrinio â systemau eraill yn genedlaethol (6.06)

## Blaenoriaeth 2 — LLEIHAU ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD

- Parhau i gefnogi gofynion yr ymateb i COVID-19 gyda datblygiadau angenrheidiol yn ymwneud â data, dadansoddi ac adrodd (11.01)
- Ehangu'r dadansoddiadau o ddata mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Hanfodol (11.02)
- Parhau i gefnogi a datblygu cynhyrchion i ategu'r Rhaglen Gwerth mewn Iechyd, gan ddefnyddio'r safonau sy'n datblygu ar gyfer Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs). (11.03)

## Blaenoriaeth 3 — SYLFAENOL A CHYMUNEDOL

- Cwblhau'r broses o gaffael Fframwaith newydd ar gyfer systemau meddygon teulu i ddarparu dewis o ran system a galluogi trosglwyddo cofnodion cleifion sy'n gyfoethog o ran data rhwng Practisiau Meddygon Teulu ar yr un pryd â cheisio cysoni â'r platfform iechyd digidol agored yn y dyfodol (7.01)
- Parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ac uwchraddio platfform y system Gymunedol, gan gynnwys y fersiwn symudol (7.02)
- Cydgysylltu ymhellach y systemau sy'n cyfathrebu ar draws lleoliadau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai, gan gynnwys timau fferyllol sy'n elwa o integreiddio electronig pellach â gwasanaethau eraill a gofal llygaid (7.03)
- Cwblhau'r broses o integreiddio'r System Rheoli E-atgyfeirio Deintyddol â Gwasanaeth Atgyfeirio Cleifion Cymru, gan alluogi Deintyddion i atgyfeirio'n ddi-dor i systemau gofal eilaidd. (7.04)
- Casglu gofynion gwybodeg a moderneiddio'r wybodaeth sydd ar gael am wasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn ardaloedd daearyddol o'r enw clystyrau, lle mae partneriaid iechyd a gofal yn cydweithio i ddeall anghenion lleol (7.06)

## Blaenoriaeth 4 — MYNEDIAD AMSEROL AT WASANAETHAU HANFODOL

- Cefnogi'r gwaith o foderneiddio cleifion allanol trwy ailddiffinio cysylltiadau cleifion a phennu lefel risg, blaenoriaethu atgyfeiriadau electronig, a darparu atebion digidol i gefnogi dewisiadau amgen yn lle apwyntiadau cleifion allanol, fel cyngor rhwng clinigwyr gofal sylfaenol ac eilaidd (8.01)
- Cefnogi effeithlonrwydd llwybrau atgyfeirio o un ysbyty i'r llall gyda'n datrysiad atgyfeirio cleifion (8.02)
- Cyflwyno system i gefnogi digideiddio Gofal Dwys ledled Cymru (8.03)
- Cyflwyno System Adrannau Achosion Brys Cymru ledled Cymru (8.04)
- Rhoi cymorth pellach i weithwyr gofal iechyd proffesiynol weithio o bell, gan ganiatáu iddynt gael gafael ar ddata o unrhyw le ac unrhyw bryd, gan gynnwys ehangu fersiwn symudol y cofnod iechyd a gofal digidol ac Office 365 (4.06)

## Blaenoriaeth 5 — IECHYD MEDDWL

- Parhau â gwaith i gytuno ar setiau data ar gyfer gofal cymunedol, gan gynnwys set ddata iechyd meddwl, a dangosfwrdd gwybodaeth busnes sy'n cysylltu data iechyd â data gofal cymdeithasol (7.05)
- Parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ac uwchraddio platfform y system Gymunedol, gan gynnwys y fersiwn symudol (7.02)
- Cefnogi cynlluniau clinigol a gweithwyr proffesiynol y GIG trwy alluogi cofnodi a chysylltu data o fewn y saernïaeth genedlaethol ynghyd â mynediad at ddogfennau clinigol a sylfeini gwybodaeth, gan gynnwys e-ffurflenni iechyd meddwl (4.02)

## Blaenoriaeth 6 — DATGARBONEIDDIO

- Fel rhan o'n gweledigaeth ehangach ar gynaliadwyedd, rydym wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed carbon ac arbed ynni ar draws pob safle a gefnogir gan ein methodoleg a'n dangosfwrdd Ôl Troed Carbon. Byddwn yn cael manteision pellach o weithio digidol, e.e. llai o deithio

## Blaenoriaeth 7 — PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

- Byddwn yn cynnwys ein hymateb i'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol fel rhan o'n hymagwedd ehangach at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a datblygu cynaliadwy. Rydym yn ymrwymo i lofnodi'r Siarter Cynhwysiant Digidol.

| | |
|---|---|
| NIWED O COVID EI HUN | NIWED O SYSTEM SYDD WEDI'I GORLETHU |
| NIWED O OSTYNGIAD MEWN GWEITHGARWCH NAD YW'N GYSYLLTIEDIG Â COVID | NIWED O WEITHREDOEDD CYMDEITHASOL EHANGACH |

# LLYWODRAETHU

Llywodraethu yw'r fframwaith allanol a'r rheolaethau a'r monitro mewnol sy'n goruchwylio ein sefydliad ac yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion.

Sefydlwyd ein Bwrdd yn unol â Gorchymyn Sefydlu ac Aelodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2020 ac mae'n cynnwys cadeirydd ac is-gadeirydd annibynnol, pum aelod annibynnol ychwanegol, Prif Weithredwr, dim mwy na phedwar cyfarwyddwr gweithredol ychwanegol a hyd at dri aelod cyswllt.

Mae manylion rolau Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r lleoedd gwag ar gyfer 21/22 i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Fel sefydliad newydd, mae'r gwaith o sefydlu strwythurau llywodraethu i gefnogi'r Bwrdd a'i strwythurau pwyllgor (gellir gweld y manylion yn **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**) wedi bod yn gyflym ond wedi'i ddilysu'n barhaus. Adroddodd canfyddiadau archwiliad gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Ionawr 2022 fod 'sicrwydd sylweddol' ar gyfer trefniadau llywodraethu.

Mae cyfathrebu sylweddol am y strwythurau llywodraethu newydd wedi digwydd ar draws holl feysydd y sefydliad.

# RISG SEFYDLIADOL A LLYWODRAETHU

Mae rheoli risg yn hollbwysig i bob sefydliad ac mae ganddo rôl ddeuol wrth nodi cyfleoedd a risgiau posibl.

Yn 2021/22, cymeradwyodd Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru strategaeth y Fframwaith Risg a Sicrwydd Bwrdd, gan amlinellu'r dull sefydliadol o ymdrin â'r prif risgiau i'r amcanion strategol a sut y bydd y Bwrdd yn cael sicrwydd ynglŷn â'r prif risgiau hynny.

Cefnogir y strategaeth hon gan system rheoli risg ar draws y sefydliad sy'n galluogi ac yn grymuso staff i nodi, asesu, rheoli a, lle bo angen, uwchgyfeirio risgiau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn y **Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**




# LLYWODRAETHU YN YSTOD COVID-19

Er mwyn sicrhau bod ein sefydliad yn gallu ymateb yn effeithiol i'r newidiadau a gyflwynwyd wrth ymateb i'r pandemig, cadarnhawyd y Strwythur Gorchymyn Ymateb Brys presennol yng nghyfarfod cyntaf Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar **1 Ebrill 2021**. Trwy gydol y flwyddyn, esblygodd y strwythur gorchymyn wrth ymateb i anghenion y pandemig ac fe'i defnyddiwyd i gynorthwyo ymateb ystwyth trwy strwythurau gwneud penderfyniadau cyflym.

Gwnaed yr holl benderfyniadau o fewn y strwythur gorchymyn yn unol â'r cynllun dirprwyo a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 1 Ebrill 2021 a rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Rheoli am benderfyniadau Rheolaeth Aur a oedd angen goruchwyliaeth sefydliadol.

**Ffig 1 : Strwythur Gorchymyn - Gwneud Penderfyniadau yn ystod Covid-19 ar 31 Mawrth 2022**




# PARHAD BUSNES

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru Gynllun Parhad Busnes a oruchwylir yn weithredol gan y Grŵp Cynllunio Parhad Busnes sy'n cyfarfod bob pythefnos fel rhan o'r strwythur rheoli mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r cynllun hwn yn ystyried gofynion parodrwydd am argyfwng wrth ymateb i Ddigwyddiadau Mawr yn ogystal â'r holl ofynion a amlinellir yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Yn bennaf, mae ein hymateb parhad busnes yn 2021/22 wedi canolbwyntio ar ein hymateb i'r pandemig a oedd yn cynnwys galluogi gweithio gartref, parhau i sicrhau bod gwasanaeth cenedlaethol ar gael, cefnogi seilwaith cenedlaethol a risg seiberddiogelwch uwch o ganlyniad i'r gwrthdaro rhwng Wcráin a Rwsia.

Rydym yn parhau i flaenoriaethu parhad busnes ac wedi cynnal ymarferion bwrdd ac efelychiadau i brofi ein parodrwydd. Cyflwynwyd y wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol Cynllunio Argyfwng Iechyd ar gyfer 2021.

# CYD-DESTUN GWEITHREDU

Mae ein cynlluniau a'n hamcanion wedi'u seilio ar ddogfennau cyfreithiol a pholisi. Mae'r rhain yn cynnwys

**Cymru Iachach** – cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n croesawu egwyddor gofal iechyd darbodus ac yn amlinellu cynllun uchelgeisiol ar gyfer chwyldroi'r system gyfan a chyd-destun ar gyfer cynlluniau sefydliadau'r GIG at y dyfodol.

Dolen i **Cymru Iachach**

**Strategaeth Ddigidol i Gymru** – mae'n amlinellu gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer mabwysiadu dull digidol ar y cyd gyda'r nod o foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus i gynyddu effeithlonrwydd, darparu profiad gwell i ddinasyddion a chefnogi arloesedd a datblygiad busnes yng Nghymru.

Dolen i **Strategaeth Ddigidol i Gymru**


# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Ymgorffori diwylliant cynaliadwy i gyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd.

Gweithio i gryfhau'r gydnabyddiaeth ryngwladol i GIG Cymru fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer arloesi digidol.

Cymryd camau pendant i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Gwella iechyd a lles dinasyddion Cymru, gan helpu i gynnal poblogaeth iach a chynhyrchiol sy'n cyfrannu at gymdeithas.




Hyrwyddo diwylliant o wirfoddoli trwy greu'r amodau i ddinasyddion rannu eu profiad a dysgu sgiliau newydd.

Cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth arbenigol fel bod dinasyddion Cymru mewn sefyllfa well i gael mynediad at y gofal iechyd gorau posibl pan fydd arnynt ei angen

Denu a datblygu sgiliau a darparu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae datrysiadau a gwasanaethau digidol yn cyfrannu at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd.

Mae ein rôl yn cyd-fynd ag anghenion digidol Cymru Iachach - un o saith nod llesiant craidd y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a chynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol; mae'r nodau llesiant eraill hefyd yn cyd-fynd â'n dull gweithredu a byddant yn parhau i gael eu datblygu wrth symud ymlaen.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi adolygu cynnydd yn erbyn gweithgareddau o fewn pob amcan ac wedi amlygu gweithgareddau ychwanegol lle bo angen. Dyma rai o'r cyflawniadau allweddol yn ystod 2021/22:

| | | |
|---|---|---|
| **Iachach:** Rydym wedi cyflymu trawsnewidiad digidol iechyd a gofal yn GIG Cymru fel y partner cyflawni y gellir ymddiried ynddo ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal digidol. | **Iachach:** Rydym wedi dylunio ar y cyd ac wedi ychwanegu galluoedd newydd at y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol, gan gynnwys cyflawni'r un ar ddeg o bortffolios a galluogwyr sy'n sail i'n Cynllun Tymor Canolig Integredig. | **Gwydn:** Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid cyflawni ar y cynllun ar gyfer Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd, gan gynnwys ap dwyieithog GIG Cymru, a fydd yn cynorthwyo dinasyddion Cymru i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu hiechyd a'u lles. |
| **Yn Gyfrifol yn Fyd-eang:** Rydym wedi datblygu ein Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio. | **Iachach:** Mae rhaglen sylweddol o ddatblygiad sefydliadol yn mynd rhagddo fel rhan o'n hymagwedd strategol fel Awdurdod Iechyd Arbennig newydd. | **Yn fwy cyfartal:** Rydym wedi parhau i hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau sy'n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant. |
| **Diwylliant bywiog:** Rydym wedi parhau i hyrwyddo a chefnogi defnyddio'r Gymraeg ac wedi penodi Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg llawn amser. | **Ffyniannus:** Rydym wedi gweithio ar sail Cymru gyfan i rannu arfer gorau a chroesawu gwaith partneriaeth, gan gynnwys partneriaethau cymdeithasol. | **Yn fwy cyfartal:** Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau'r Adolygiad o'r Gweithlu Digidol ar draws GIG Cymru. |
| **Yn gyfrifol yn fyd-eang:** mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi lleihau allyriadau carbon ymhellach yn 2021/22. | | |

# CRYNODEB O BERFFORMIAD

Ym mis Mawrth 2020, gohiriwyd proses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a gofynnodd Llywodraeth Cymru am gynlluniau chwarterol ar gyfer 2020-21. Ar gyfer 2021-22 roedd y fframwaith Cynllunio a Chyflawni yn gofyn am gyflawni Cynllun Blynyddol. Roedd Cynllun Blynyddol 2021-22 cymeradwy Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynnwys cynllun cyflawni ein 5 amcan strategol y manylwyd arnynt yn flaenorol yn yr **adran blaenoriaethau strategol**.

Rhagofyniad hanfodol ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol yw model gweithredu clir wedi'i ategu gan fframwaith perfformiad effeithiol, gyda llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir ar lefel tîm ac unigol.

Mae model gweithredu Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'i gwmpasu gan ein Rheolau Sefydlog a'n Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

Mae'r Fframwaith Perfformiad yn amlinellu'r meysydd perfformiad a fydd yn cael eu rheoli trwy hierarchaeth o gyfarwyddiaethau, adrannau a grwpiau, a oruchwylir gan y Bwrdd Rheoli ac a sicrheir gan Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru


Mae perfformiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes

**Cynlluniau** sy'n mynegi'n glir y gofynion a'r canlyniadau disgwyliedig y bydd pobl, timau ac adrannau yn eu cyflawni


Yr **adnoddau** sy'n ofynnol i gyflawni'r cynlluniau a chyflawni'r canlyniadau

**Canlyniadau** cynlluniau a gyflawnwyd, a sut maen nhw'n berthnasol i ddatblygiad yr unigolyn, y tîm, yr adran neu'r sefydliad

**Ffig 2 - Amlinelliad o Lif Gwybodaeth y Fframwaith Rheoli Perfformiad**




**Ffig 3 - Ffocws y fframwaith perfformiad**




## YR HYN A GYFLAWNWYD GENNYM YN 2021-2022

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf fel Awdurdod Iechyd Arbennig, fe wnaethom gryfhau partneriaethau gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdod Iechyd Arbennig Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, gofal sylfaenol a sefydliadau eraill, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, i gefnogi Ymateb GIG Cymru i bandemig COVID-19. Ar yr un pryd, fe wnaethom barhau i gynnal a datblygu seilwaith a systemau digidol cenedlaethol craidd. Dyma'r lefel o gydweithio yr ydym yn ei symud ymlaen i 2022-23.

# DADANSODDIAD O BERFFORMIAD

## CEFNOGI'R YMATEB I'R PANDEMIG

Roedd systemau digidol yn allweddol i gyflwyno rhaglen frechu Cymru.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2022, roedd System Imiwneiddio Cymru, sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, wedi cefnogi'r broses o roi bron 7 miliwn o frechlynnau.

Disgrifiwyd graddfa a chyflymder y gwaith cyflawni ystwyth gan dîm datblygu System Imiwneiddio Cymru fel 'newid sylweddol' a oedd yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen frechu.

System Imiwneiddio Cymru

Ym mis Hydref 2021, rhoddodd Grant Davies, Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad ar gyfer Rhaglen Brechu Torfol Aneurin Bevan, adborth i Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru gan ddweud ei fod yn *"newid i batrwm, mewn gwirionedd, o ran y gallu i gyflwyno rhaglen mor gymhleth ar y fath raddfa a chyflymder."*

Dywedodd: *"Yn fy swydd ac i fy nghymheiriaid mewn byrddau iechyd eraill, ni sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y caiff cynigion lluosog o frechiadau eu gwneud i'r boblogaeth gyfan yn deg, o fewn meini prawf penodedig ac amserlen benodol, gan ystyried nifer o risgiau a ffactorau oedran ar draws nifer fawr o leoliadau. Mae'r pedwar cam gwahanol o'r cwrs brechu a sicrhau y caiff pob brechiad ei gofnodi'n gywir yn galluogi amserlennu ychwanegol yn unol â'r cyfnodau a nodir ac a addasir yn achlysurol gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCBI). "*

Roedd datblygu ac addasu'r system yn barhaus i fodloni gofynion newidiol wedi caniatáu iddi gefnogi rhaglen atgyfnerthu carlam Cymru a sicrhau bod data ar gael ar gyfer Pàs COVID-19, sy'n rhoi cofnod o'u brechiadau i ddinasyddion.

Mae'r system a ddefnyddir gan System Imiwneiddio Cymru yn darparu gwybodaeth a data byw, fwy neu lai, am frechlynnau, yn caniatáu i sesiynau gael eu ffurfweddu yn seiliedig ar grŵp blaenoriaeth ac angen, ac yn creu cofnod brechlyn. Mae'n defnyddio gwybodaeth am ddemograffeg cleifion, grwpiau galwedigaeth a lefelau blaenoriaeth frechu y cytunwyd arnynt, i ganiatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol drefnu apwyntiadau ar gyfer cleifion. Gall greu slotiau apwyntiad a chofnodi manylion am bob brechiad ar gyfer pob brechlyn COVID-19 a roddir yng Nghymru.

Yn sgil yr angen i ddinasyddion ddarparu prawf o frechu, roedd darparu'r Pàs Brechlyn Covid-19 (datrysiad Cymru) a rhyngwyneb digidol gyda GIG Lloegr yn ddatblygiad hollbwysig a gyfrannodd at reolaeth barhaus y pandemig.







Ym mis Medi 2021, **adroddodd y Financial Times (erthygl daladwy)** fod Llywodraeth Cymru wedi arbed cannoedd o filiynau o bunnoedd trwy ddefnyddio rhaglenni a gwasanaethau'r sector cyhoeddus yn ystod y pandemig. Un o'r gwasanaethau hynny oedd y rhaglen Profi Olrhain, Diogelu a ddatblygwyd ac a ddarparwyd gan GIG Cymru ac y rheolwyd ei helfennau digidol gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Yn ôl yr erthygl, derbyniodd Llywodraeth Cymru bron i £1.1bn ar gyfer olrhain cysylltiadau a Chyfarpar Diogelu Personol yn 2020/21. Amcangyfrifodd Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd fod y llywodraeth mewn gwirionedd wedi gwario £533m ar y meysydd hynny. Roedd hynny'n £158 y pen, 48 y cant yn is nag yn Lloegr.

Defnyddiwyd yr arian a arbedwyd i gefnogi busnesau bach gyda chostau'r pandemig

Roedd y gwasanaeth olrhain cysylltiadau digidol (Profi, Olrhain, Diogelu) yn elfen allweddol wrth gyflawni'r arbedion hyn ac yn un arall o ddatblygiadau cyflym Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Roedd y system wedi galluogi ymateb cenedlaethol cadarn y gellid addasu ei raddfa ar gyfer olrhain cysylltiadau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe'i diweddarwyd i gefnogi ffurflenni lleoli unigolyn. Yn seiliedig ar gronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid soffistigedig, cyfrannodd at lwyddiant y gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu. O'r 11,889 o achosion cadarnhaol a gyfeiriwyd at olrhain cysylltiadau erbyn 26 Chwefror 2022, cyrhaeddwyd 92.9% a gofynnwyd iddynt ddarparu manylion eu cysylltiadau agos. O'r 1,407,832 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys ar gyfer gwaith dilynol, cysylltwyd yn llwyddiannus â 1,266,909 (90.0%) ac fe'u cynghorwyd yn unol â hynny, neu datryswyd eu hachos fel arall. **Profi, Olrhain, Diogelu (olrhain cysylltiadau ar gyfer coronafeirws (COVID-19)): hyd at 26 Chwefror 2022 | LLYW.CYMRU**







Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, gwnaethom hefyd

- Integreiddio â labordai preifat ar gyfer canlyniadau labordy, gan sicrhau llif digidol di-dor ar gyfer canlyniadau profion
- Cyflwyno dangosfyrddau perfformiad i Lywodraeth Cymru ar gyfer mynediad uniongyrchol at ddata llif unffordd ac olrhain cysylltiadau
- Darparu pàs Covid-19 a data brechu Cymru i GIG Digidol i'w cynnwys ym Mhasbort Teithio Covid-19.
- Datblygu datrysiad aildrefnu brechlyn ar-lein i ddinasyddion,
- Cyflwyno Dangosfwrdd Tystysgrif Cofnodion Pandemig Cymru a'r Datrysiad Digidol Ardystio Covid gydag ymarferoldeb a llifoedd data trawsffiniol

# NYRSIO DIGIDOL

Ym mis Mehefin 2021, lansiwyd Cofnod Gofal Nyrsio Cymru digidol gennym, a oedd yn gam hollbwysig yn hanes nyrsio a fydd yn newid arferion gwaith ac yn galluogi nyrsys i dreulio mwy o amser yn gofalu am gleifion.

Disgwylir i'r broses o gyflwyno Cofnod Gofal Nyrsio Cymru gael ei chwblhau yn 2022/23. Mae eisoes yn fyw mewn chwech o'r saith bwrdd iechyd ac mae'n cael effaith fawr o ran digideiddio cofnodion nyrsio Cymru, gan wella cywirdeb, diogelwch a llythrennedd digidol.

Welsh Nursing Care Record *(Hospital)*

Cofnod Gofal Nyrsio Cymru *(Ysbyty)*

Dywedodd Claire Bevan, Uwch Berchennog Cyfrifol prosiect Cofnod Gofal Nyrsio Cymru:

> *"Llwyddiant mawr y prosiect yw'r cydweithredu, yr ymgysylltu a'r gwrando ar adborth. O'r Prif Swyddog Nyrsio i'r nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd ac aelodau ehangach y tîm amlddisgyblaethol, mae pawb wedi gweithio gyda'i gilydd i drawsnewid nyrsio trwy safoni dogfennau a darparu datrysiad digidol."*




**Astudiaeth Achos – Asesiadau risg cleifion mewnol**

Rhwng mis Ebrill a mis Awst 2021 ar draws pum ward mewn un ysbyty, rhyddhaodd datrysiad digidol Cofnod Gofal Nyrsio Cymru **dros 140 o oriau** i ofal cleifion o ganlyniad i'r gostyngiad yn yr amser a gymerir i gwblhau pump o'r chwe asesiad digidol craidd. Mae hyn yn golygu bod clinigwyr yn gallu canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf - gofal cleifion.

# GWELLA'R COFNOD DIGIDOL

Gwelsom hefyd dwf yn nifer defnyddwyr Porth Clinigol Cymru i dros 30,000 o ddefnyddwyr. Mae'r porth clinigol yn rhannu, yn darparu ac yn arddangos gwybodaeth cleifion o nifer o ffynonellau gan ddefnyddio un mewngofnod. Mae'r porth clinigol yn cefnogi llif gwaith clinigol gydag ymarferoldeb i weld cofnodion meddygol cleifion (gan gynnwys cofnod meddyg teulu cryno), cyrchu canlyniadau cleifion gan gynnwys delweddau radioleg, gwneud cais yn electronig am brofion, blaenoriaethu atgyfeiriadau, gosod rhestrau gwylio a gweld meddyginiaethau a chyfathrebu gwybodaeth ryddhau allweddol i ofal sylfaenol.

RHWNG MIS IONAWR 2021 A MIS IONAWR 2022, CYNYDDODD NIFER Y DOGFENNAU CLINIGOL A STORIWYD YN DDIGIDOL O 35 MILIWN I 39 MILIWN A CHYNYDDODD CANLYNIADAU PROFION O DROS 195 MILIWN I DROS 220 MILIWN.

Er mwyn symleiddio a lleihau apwyntiadau cleifion allanol diangen mewn gofal eilaidd, fe wnaethom gyflwyno e-Gyngor i Feddygon Teulu fel rhan o Wasanaeth Atgyfeirio Cleifion Cymru sydd ar gael trwy Borth Clinigol Cymru. Mae hyn yn galluogi sgyrsiau clinigol ynglŷn â chyngor ac arweiniad i gael eu cynnal rhwng clinigwyr gofal eilaidd a meddygon teulu i lywio penderfyniadau gofal.




Rydym yn parhau i wneud gwelliannau o ran moderneiddio cleifion allanol, sef un o flaenoriaethau craidd Llywodraeth Cymru, a chyflwyno ymarferoldeb newydd i'n meddalwedd. Gall staff clinigol wneud diweddariadau electronig uniongyrchol i'r cofnod digidol gan ddefnyddio nodyn meddygol claf allanol a ddyluniwyd gan y defnyddiwr a chofnodi'r canlyniad gweinyddol yn electronig, gan gynnwys llwybrau newydd. Yn ogystal, mae manylion presenoldeb cleifion allanol yn cael eu casglu bellach yn Hyb Data GIG Cymru a ddefnyddir i storio a chyflwyno gwybodaeth allweddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.



Porthol Clinigol Cymru
Welsh Clinical Portal

Yn sgil y galw fythol gynyddol am ofal brys, fe wnaethom gyflwyno'r System Adrannau Achosion Brys genedlaethol newydd. Uned Mân Anafiadau Castell-nedd Port Talbot oedd y cyntaf i fynd yn fyw, a bwriedir ei chyflwyno i ysbytai eraill yn ystod 2022. Mae'r system newydd yn disodli cofnodion papur ac yn rhoi gwybodaeth amser real i weithwyr gofal iechyd proffesiynol am driniaeth claf yn y lleoliad brys. Gellir rhannu'r cofnodion digidol hyn yn ddiogel ac yn gyflym ag adrannau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i gefnogi cynllun triniaeth y claf.

Rydym hefyd yn cefnogi Cofnod Electronig cenedlaethol newydd ar gyfer Cleifion Offthalmoleg a Modiwl Atgyfeiriadau cysylltiedig, sef menter a arweinir gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Rhaglen Gofal Llygaid yn darparu cysylltedd "diogel a sicr" gan alluogi 700+ o Optometryddion i gael mynediad i rwydweithiau GIG Cymru a galluogi Gweithio Rhanbarthol, datblygu a chynyddu gwaith Clinig Rhithwir, darparu "gofal a rennir" a galluogi datblygiad Canolfannau Triniaeth Diagnostig Offthalmig yn y gymuned i fynd i'r afael â chleifion uchel eu niferoedd/risg isel.

Mae monitro cleifion yn barhaus yn unedau gofal dwys Cymru yn hanfodol i ganfod newidiadau critigol yng nghyflwr y claf. Pan fydd pob eiliad yn cyfrif i staff iechyd sydd angen gwneud penderfyniadau critigol ar gyfer cleifion sy'n ddifrifol wael, mae gwybodaeth yn adnodd hanfodol.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ffurfio partneriaeth â'r cyflenwr ASCOM i ddarparu datrysiad digidol newydd i ddisodli siartiau papur a'r arsylwadau mewn llawysgrifen a ddefnyddir i gofnodi arwyddion bywyd hanfodol. Yr Uned Gofal Dwys newydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fydd y gyntaf o'r 14 uned gofal critigol i oedolion yng Nghymru i fabwysiadu'r gwasanaeth digidol newydd.

Yn ystod 2021-2022, gwnaed gwaith helaeth i ddatblygu prosesau ac asesiadau safonedig wedi'u hintegreiddio â'r saernïaeth a'r monitorau erchwyn gwely i wella diogelwch cleifion.

# FFERYLLIAETH MEWN YSBYTAI


Fel rhan o'n cyfraniad at foderneiddio'r broses o reoli meddyginiaethau, gwnaethom gyflwyno'r system rheoli stoc newydd ar gyfer Fferyllfeydd mewn Ysbytai yn llwyddiannus. Mae'r cyfleuster rheoli stoc meddyginiaethau o'r radd flaenaf bellach yn fyw mewn pedwar ar hugain o ysbytai ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd a thri safle carchar gyda dros 1,700 o ddefnyddwyr.

Mae'r system fferylliaeth fodern wedi disodli system "sgrin werdd" 35 mlwydd oed, mae'n fwy effeithlon i'w defnyddio ac yn cynnig ffordd fwy cydgysylltiedig a chyson o weithio ar draws ysbytai yng Nghymru, gan gysylltu data am ddosbarthu a defnyddio meddyginiaethau trwy ddefnyddio safonau a gydnabyddir yn genedlaethol, sy'n sicrhau y gellir defnyddio data a gwybodaeth yn well i wella gwasanaethau yn y dyfodol.




# GWASANAETHAU LABORDY

Er mwyn diogelu gwasanaethau profi hanfodol yn y dyfodol, dyfarnwyd contract newydd (Cytundeb Gwasanaethau Meistr) i Citadel Health i ddarparu System Rheoli Gwybodaeth Labordy newydd. Bydd yn cefnogi pob bwrdd iechyd, ysbyty a phractis meddyg teulu yng Nghymru a bydd yn integreiddio â systemau TG iechyd craidd GIG Cymru. Mae'r buddion allweddol yn cynnwys cwblhau profion yn gyflymach, gostyngiad yn nifer y presgripsiynau amlroddadwy, gwell diogelwch clinigol a sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymdopi â galw cynyddol




# GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL

Mae'r timau Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn hwyluso ac yn cefnogi'r broses o ddarparu systemau a gwasanaethau sy'n galluogi Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Gofal Sylfaenol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol, gan alluogi parhad gofal ac osgoi dyblygu ar gyfer cleifion a gweithwyr proffesiynol.

Yn 2021/22, dyfarnwyd fframwaith TG newydd pum mlynedd ar gyfer meddygon teulu i gyflenwi systemau a gwasanaethau TG y genhedlaeth nesaf ar gyfer gofal sylfaenol yng Nghymru. Roedd tri chyflenwr llwyddiannus:

Y rhain yw Cegedim Healthcare Solutions, EMIS Health a TPP.

Arweiniwyd y broses gaffael a gefnogwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru gan Fwrdd Technoleg a Rheoli Gwybodaeth Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac roedd yn cynnwys meddygon teulu, Rheolwyr Practis Meddyg Teulu, Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol y Byrddau Iechyd a Thîm Gofal Sylfaenol Iechyd a Gofal Digidol Cymru.



# FFERYLLIAETH YN Y GYMUNED

Mae ein platfform digidol, Dewis Fferyllfa, yn parhau i gefnogi fferyllfeydd cymunedol wrth iddynt ddarparu cymorth y GIG i bobl â mân anhwylderau, gan gynnwys atal cenhedlu brys, anhwylderau cyffredin ac adolygiadau o feddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty.

Mae'r mwyafrif (705 allan o 713) o fferyllfeydd cymunedol yn defnyddio'r gwasanaeth, sy'n caniatáu i fferyllfeydd greu cofnod claf y GIG, y gellir ei drosglwyddo rhwng fferyllfeydd cymunedol GIG Cymru.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, parhawyd i gyflwyno modiwl newydd - y Gwasanaeth Rhagnodwyr Annibynnol (IPS), sy'n cefnogi fferyllwyr cymunedol sydd wedi cymhwyso fel rhagnodwyr anfeddygol i roi cyngor a thriniaeth effeithiol i gleifion sydd â chyflyrau penodol.

Mae'r Gwasanaeth Rhagnodwyr Annibynnol yn cefnogi model gofal 'fferylliaeth gymunedol yn gyntaf'. Mae hyn yn golygu y bydd gan gleifion fwy o fynediad at gyngor a thriniaeth ar yr adeg iawn, yn y lle iawn, gan leihau'r pwysau ar feddygon teulu i gynnig ymgynghoriadau am gyflyrau y gellir eu rheoli'n briodol trwy fferyllfeydd cymunedol.



# SYSTEM WYBODAETH GOFAL CYMUNEDOL CYMRU

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn wasanaeth digidol ar gyfer nyrsys, timau iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion i'w helpu i gydweithio'n well. Mae'n caniatáu mynediad at wybodaeth berthnasol am y gofal a ddarperir ac yn dangos pa gam y mae claf wedi'i gyrraedd yn ei driniaeth a'i gynllun gofal.

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn system i Gymru sy'n integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac felly mae ganddi ei Bwrdd Rhaglen a'i system lywodraethu ei hun, gydag Iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu cydgysylltiad a chymorth canolog.

Mabwysiadodd dau sefydliad ychwanegol y system yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod y system yn fyw yn 18 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a saith bwrdd iechyd.

Yn dilyn adroddiad 2020 Archwilio Cymru ar raglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ac adolygiad ac arolwg annibynnol a gynhaliwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC), comisiynodd rhaglen genedlaethol System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Channel 3 Consulting i gynnal adolygiad strategol annibynnol, ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021.

Nod yr adolygiad oedd pwyso a mesur a llywio cam nesaf a dyfodol rhaglen genedlaethol System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Roedd yn cynnwys ymgysylltu â phawb a gymerodd ran, a sesiynau galw heibio ar gyfer sefydliadau rhanbarthol, a fynychwyd gan fwy na 100 o bobl.

Cytunwyd ar argymhellion o'r adolygiad gan Lywodraeth Cymru ac fe'u llofnodwyd gan fwrdd arweinyddiaeth System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ym mis Chwefror 2022.

Mae tîm cenedlaethol System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru bellach yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu cynllun i symud yr argymhellion ymlaen.

Mae cydweithredu â'r cyflenwr wedi mynd i'r afael â sefydlogrwydd y platfform meddalwedd trwy ryddhau cyfres o gymwysiadau meddalwedd, a ddigwyddodd yn ystod hanner olaf 2021.

SWGCC WCCIS

**Connecting professionals** to deliver better joined up care

**Cysylltu gweithwyr proffesiynol** i ddarparu gofal cydgysylltiedig gwell

# AP GIG CYMRU

Roeddem yn falch iawn o ddyfarnu contractau i ddatblygu platfform cleifion digidol newydd GIG Cymru, a elwir yn Ap GIG Cymru.

Bydd yr ap ar gael ar ffonau clyfar, dyfeisiau llechen a chyfrifiaduron. Mae'n ddatblygiad allweddol yn y rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd, a fydd yn helpu pobl yng Nghymru i gael mynediad at ofal iechyd gwell a chefnogi darparwyr iechyd i ddarparu gofal yn fwy effeithlon.

Y nod yw i gleifion a'r cyhoedd allu gwneud y canlynol:

- personoli eu taith iechyd
- monitro cyflyrau iechyd yn haws
- rhannu a derbyn gwybodaeth iechyd bwysig
- cymryd rhan weithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain

Mae prototeip wedi'i ddatblygu ac mae'n gam sylweddol ymlaen o ran gallu cyflwyno'r ap i ddinasyddion Cymru. Dechreuodd gweithgareddau ymchwil defnyddwyr a dylunio gyda dinasyddion o Gymru ym mis Rhagfyr 2021, gan lywio dyluniad y cymhwysiad a'r ystod o wasanaethau.




dspp

**Gwasanaethau Digidol**
ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd

**Digital Services**
for Patients and the Public

## SEILWAITH CYNALIADWY

Credwn fod gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl cyhoeddus mewn sefyllfa unigryw i gefnogi gofynion technoleg strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i fabwysiadu gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl gan ddefnyddio dull cwmwl yn gyntaf ar gyfer llwythi gwaith newydd a phresennol. Disgrifir hyn yn ein Strategaeth Cwmwl, sy'n sail i'n cynlluniau busnes ac uchelgeisiau 'Cymru Iachach'.

Fe wnaethom gyflawni gwelliannau technoleg sylweddol drwy gydol y flwyddyn. Gan weithio gyda chydweithwyr a chyflenwyr, trosglwyddwyd gwasanaethau digidol GIG Cymru i ganolfan ddata newydd, gan gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer cyfrifiadura cwmwl, yn ogystal â lleihau ein hôl troed carbon.



## SEIBERDDIOGELWCH A DIOGELU DATA CLEIFION

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyflawni rôl genedlaethol wrth ddiogelu'r rhwydwaith a data ar draws system GIG Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'n cydweithwyr yn GIG Cymru i sicrhau bod ein systemau'n wydn ac yn ddiogel i gefnogi darparu gwasanaethau iechyd a gofal.

Yn sgil bygythiadau cynyddol gan seiberdroseddwyr ar draws y byd, fe wnaethom lansio'r Uned Seibergadernid ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn mynd â GIG Cymru i'r cam nesaf o ddiogelu gwybodaeth cleifion, gan sicrhau bod systemau'n parhau i fod yn weithredol a darparu cymorth ac arweiniad i randdeiliaid ar draws y system iechyd.

Trwy ein Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth, rydym yn llunio strwythur llywodraethu cenedlaethol effeithiol ar gyfer materion diogelu data a llywodraethu gwybodaeth. Mae ein Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol ar waith i ddarparu, cynnal a datblygu gwasanaethau, offer a safonau allanol i gefnogi sefydliadau a rhanddeiliaid GIG Cymru, ac i danategu ein hymagwedd strategol.

NHS Wales
Cyber Resilience Unit

GIG Cymru
Uned Cydnerthu Seibr

# ARGAELEDD A LLIF GWYBODAETH

Er mwyn agor y saernïaeth dechnegol a galluogi mwy o fynediad at ddata a'i rannu, rydym wedi bod yn diffinio ein gweledigaeth saernïol.

Mewn cydweithrediad â dros 1,000 o randdeiliaid allweddol, rydym wedi diffinio Blociau Adeiladu Saernïol GIG Cymru ac wedi datblygu ein Strategaeth Ddata Adnoddau Data Cenedlaethol a chynllun cyflawni.

Datblygwyd y Strategaeth Ddata Adnoddau Data Cenedlaethol mewn cydweithrediad â thros 75 o randdeiliaid ar draws iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'n disgrifio saernïaeth arfaethedig ar gyfer ein platfform data, gan amlygu'r galluoedd technoleg sy'n angenrheidiol i gyflawni ein gweledigaeth, a model gweithredu targed wedi'i seilio ar ddull ystwyth sy'n canolbwyntio ar gynnyrch. Mae hefyd yn amlinellu map trywydd a chamau nesaf allweddol ar gyfer y rhaglen er mwyn symud ymlaen tuag at ei nodau.

Bydd y platfform data yn gyfrifol am gaffael, symud, trawsnewid, storio, gwasanaethu a llywodraethu data yn ogystal â darparu'r offer dadansoddol, gwyddor data a dysgu peirianyddol sy'n angenrheidiol i dynnu gwerth o ddata. Tynnu gwerth o ddata yw un o amcanion craidd ein portffolio a bydd yn galluogi canlyniadau gwell i gleifion.

Rydym wedi cyflwyno ein Peiriant Data Clinigol am y tro cyntaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg , gyda'r defnydd cyntaf o dechnoleg saernïaeth agored (CAH Agored) ar gyfer data alergeddau a rhybuddion cleifion, sy'n ategu'r data sydd eisoes ar gael yn ein hadroddiadau a'n storfeydd dogfennau.

Trefnwyd bod ein Gwasanaeth Terminoleg Weithredol ar gael, er mwyn gallu cofnodi cydrannau craidd cofnod y claf yn gyson gan ddefnyddio SNOMED-CT – y safon fyd-eang ar gyfer casglu a chynrychioli gwybodaeth glinigol ddigidol fel rhan o gofnod claf. Mae safoni data clinigol yn gwella diogelwch cleifion ac yn cynyddu cyfleoedd i rannu data ag ystod ehangach o ddarparwyr iechyd a gofal, yn ogystal â chefnogi penderfyniadau gofal iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r gwaith hwn yn elfen allweddol o ofal gwell a mwy diogel, ac fe'i defnyddiwyd i gefnogi deg o'n mentrau pwysicaf yn ystod ein blwyddyn gyntaf.

Rydym wedi gorffen adeiladu ein Storfeydd Data Clinigol newydd a fydd yn golygu y gellir storio ac adalw data clinigol yn ddigidol ar draws ffiniau daearyddol ledled GIG Cymru.

NDR
Adnodd Data Cenedlaethol
National Data Resource

# GWERTH O DDATA

Amlygodd y pandemig werth data a chreodd alw am setiau data a dangosfyrddau gwybodaeth newydd i helpu i reoli gwasanaethau a chreu darlun o ledaeniad y firws o fewn y boblogaeth.

I gefnogi gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, fe wnaethom ddatblygu golwg gyfunol o ddata profion gan ddod â data profion Adwaith Cadwynol Polymerasau (PCR) a Llif Unffordd (LFT) ynghyd; mae'r olwg hefyd yn nodi dyblygiadau, y rhai a adroddwyd trwy System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru a phrofion nad ydynt yn ymwneud ag ysbytai. Fe wnaethom ddatblygu golygon cyfanredol yn cynnwys mesurau wedi'u cyfrifo ar gyfer profion, cyfnodau profi a chyfraddau cysylltiedig fesul poblogaeth, sy'n bwydo'n uniongyrchol i systemau adrodd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Fe wnaethom hefyd gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy olrhain niferoedd y GIG ar gyfer pobl a fynychodd ddigwyddiadau prawf Covid-19, a oedd yn cynnwys gemau pêl-droed ym mis Mai a mis Mehefin 2021, gan hwyluso gwaith dilynol i benderfynu a wnaethant ddal Covid-19 wedi hynny.

Mae holl setiau data COVID-19 ar gael i Fyrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau eraill GIG Cymru trwy Warws Data Cenedlaethol Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mewn fformat sy'n golygu y gellir cysylltu cofnodion yn hawdd, er mwyn creu darlun o bob preswylydd yng Nghymru o ran profion Covid-19, canlyniadau, cysylltiadau agos, dyddiadau brechu, derbyniadau i'r ysbyty, mynychu Adrannau Achosion Brys, galwadau ambiwlans neu farwolaethau.

Fe wnaethom hefyd ddatblygu casgliad data cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau adsefydlu COVID-19 i ddeall galw a chapasiti ac i helpu i lywio'r model gweithredu targed ar gyfer cyflawni.



# DANGOSFYRDDAU A HYBIAU DATA

Mae nifer o 'Ddangosfyrddau Data Cenedlaethol' wedi'u datblygu bellach gyda'r Rhaglen Gwerth mewn Iechyd sy'n cyfuno ac yn delweddu ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â chanlyniadau clinigol, gweithgarwch gofal eilaidd, newidynnau cymysgedd o achosion, marwolaethau, a ffactorau economaidd-gymdeithasol ar gyfer meysydd clinigol penodol.

Mae'r dangosfyrddau arloesol hyn yn cael eu defnyddio gan dimau clinigol, grwpiau diddordeb arbennig, rhwydweithiau clinigol, swyddogaethau cymorth a rhanddeiliaid eraill i'w helpu i wneud penderfyniadau gwell.


Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, daethom â data iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd mewn canolbwynt data prawf cysyniad i gymhwyso delweddau a darparu sylfaen sy'n sail i ofynion data Cymru Iachach.

**ASTUDIAETH ACHOS - Dangosfwrdd Canser y Colon a'r Rhefr Cenedlaethol.**

Datblygwyd y Dangosfwrdd Canser y Colon a'r Rhefr Cenedlaethol ar y cyd rhwng Tîm Data Gwerth mewn Iechyd (Iechyd a Gofal Digidol Cymru), Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru a chlinigwyr o Fenter Canser y Coluddyn. Mae'n defnyddio PowerBI i gyflwyno data'r Archwiliad Cenedlaethol Canser y Coluddyn (NBOCA) ynghyd â ffynonellau data ychwanegol i alluogi defnyddwyr i weld y data, amlygu tueddiadau a rheoli ansawdd data'r archwiliad a gyflwynwyd. Dyma'r nawfed mewn cyfres o gynhyrchion gwybodaeth i'w lansio gan Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru. Mae'r cynhyrchion wedi'u cynllunio i'n helpu i ddeall beth sy'n digwydd mewn system benodol a chyflwyno cyfleoedd i ni gynyddu gwerth i gleifion.

I ddechrau, nod y Dangosfwrdd Canser y Colon a'r Rhefr Cenedlaethol yw bod yn offeryn sy'n cefnogi clinigwyr i gyflenwi data cyflawn i Archwiliad Cenedlaethol Canser y Coluddyn (NBOCA), drwy dynnu sylw at unrhyw fylchau yn y data yn y saith maes data allweddol a ddefnyddir ar gyfer yr archwiliad, gan alluogi clinigwyr felly i nodi meysydd y mae angen mewnbwn ychwanegol arnynt yn hawdd.

Rydym yn disgwyl i glinigwyr sy'n defnyddio'r dangosfwrdd roi adborth ar y fersiwn gyntaf hon yn ystod yr wythnosau nesaf, a fydd yn llywio datblygiadau sydd eisoes ar y gweill ymhellach. Y cam nesaf fydd darparu data byw ar Berfformiad y Llwybr Canser Sengl, metrigau ansawdd llawfeddygol ac oncolegol a data goroesi. Bydd yr ail gam hwn yn cael ei gwblhau yn ystod ail hanner 2022.



# ANSAWDD

Mae ansawdd wrth wraidd yr hyn a wnawn, yn y systemau a gynhyrchwn a'r data a ddarparwn.

Ein nod yw bod yn bartner dibynadwy ar draws y system iechyd a gofal yng Nghymru. Yn hanfodol i hyn mae dull o ddatblygu cynhyrchion, systemau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ansawdd, a ddangosir trwy fabwysiadu safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol ac y gellir ymddiried ynddynt.


Rydym wedi cynnal ardystiad ar gyfer y Safonau ISO a BS canlynol yn 2021/22:

- ISO 9001 - SYSTEM RHEOLI ANSAWDD
- ISO 14001 - SYSTEM RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL
- ISO 20000 - SYSTEMAU RHEOLI GWASANAETH TG
- ISO 27001 - SYSTEMAU RHEOLI DIOGELWCH GWYBODAETH
- BS 10008 - SYSTEM RHEOLI PWYS TYSTIOLAETHOL A GWYBODAETH GYFREITHIOL DDERBYNIOL
- BS 76000 - SAFON GWERTHFAWROGI POBL
- BS 76005 - AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT
- SDI - TYSTYSGRIF DESG WASANAETH

Rydym wedi cyflwyno ein strategaeth a'n cynllun ansawdd ac wedi buddsoddi mewn iPassport i gefnogi'r broses rheoli dogfennau. Mae'r sefydliad bellach yn paratoi ar gyfer cyflwyno rheoliad newydd mewn perthynas â dyfeisiau meddygol.

# LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Mae gan geisiadau rhyddid gwybodaeth ymateb o 95% o fewn y targed ar draws 21/22. Nid oedd unrhyw adroddiadau yr oedd angen eu cyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nac adroddiadau 'Digwyddiad Anffafriol Difrifol' neu 'Dim Syndod' wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag achosion o dor diogelwch data neu fethiannau diogelwch data ar gyfer 21/22. Siaradwn fwy am lywodraethu gwybodaeth yn y datganiad llywodraethu blynyddol yma.




**Ffig 4 - Dangosfwrdd Cydymffurfio â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

# DATBLYGIAD Y SEFYDLIAD

## YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID AC ADBORTH


Fel corff cyhoeddus, mae'n bwysig bod gan ein partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a phobl Cymru hyder yn ein gwaith. Mae ymgysylltu effeithiol yn helpu i drosi anghenion rhanddeiliaid a defnyddwyr i'n strategaeth a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau.

Fel sefydliad blaengar, mae popeth a wnawn mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid, gan gynnwys byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol, gwyddorau bywyd, diwydiant a'r byd academaidd.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda thimau gweithredol byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, yr Awdurdod Iechyd Arbennig a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru drwy gydol y flwyddyn i drafod blaenoriaethau sefydliadol ar lefel strategol. Cynhelir cyfarfodydd cytundeb lefel gwasanaeth gyda'n sefydliadau partner i drafod nodweddion technegol y gwasanaethau penodol sy'n cael eu defnyddio a gall y system ehangach roi adborth ar ein systemau a cheisio cymorth trwy Ddesg Wasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Ym mis Medi 2021, cymeradwyodd y Bwrdd ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid gyntaf, a chymeradwywyd y cynllun gweithredu wedi hynny ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar systemau a llwybrau presennol ar gyfer ymgysylltu ac adborth, ac wrth symud ymlaen byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod rhanddeiliaid yn ein hystyried fel partner strategol y gellir ymddiried ynddo. Bydd yn rhaid ennill hyn trwy fod yn sefydliad agored sy'n gwrando ac yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol mewn modd cynlluniedig ac amserol.

## CYFATHREBU




Fel sefydliad newydd, chwaraeodd cyfathrebu ran allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud. Cynyddodd ymwelwyr unigryw â'n gwefan 55% yn ystod y flwyddyn, gyda thraffig o Google i fyny 183%. Cynyddodd ein dilynwyr cyfryngau cymdeithasol 15%.

Cododd y tîm cyfathrebu ymwybyddiaeth o Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn effeithiol trwy gyfryngau cymdeithasol, podlediadau a chylchlythyrau, a chefnogodd recriwtio trwy ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol.

Rhoddwyd pwyslais allweddol ar y llwyddiannau technoleg a data sy'n cynorthwyo ac yn galluogi darparu gofal rheng flaen.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar gyfathrebu mewnol i gefnogi staff wrth iddynt barhau i weithio o bell, gan arwain at gynhadledd staff rithwir i ddathlu llwyddiannau ein blwyddyn gyntaf.

# NEWID BUSNES

Yn sgil newid sylweddol mewn ffyrdd o weithio wedi'i ategu gan wasanaethau digidol newydd, mae ein tîm Newid Busnes yn darparu cymorth ar draws y rhaglen gyflawni ehangach.

Gan weithio ochr yn ochr â defnyddwyr gwasanaeth, mae'r tîm Newid Busnes yn cynnig cymysgedd o gymorth sy'n darparu cyngor technegol ar newidiadau i'r system, hyfforddiant a chanllawiau cyfeirio cyflym e-Ddysgu, fideos ac arddangosiadau. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y tîm 4106 o gysylltiadau unigol a chynhaliwyd 563 o ddigwyddiadau cyswllt.

Roedd mewnbwn Newid Busnes i'r rhaglen Profi Olrhain Diogelu yn amhrisiadwy gan roi'r hyder i staff addasu'n gyflym i systemau digidol newydd.

YN YSTOD 2021/22, HYFFORDDODD Y TÎM NEWID BUSNES 2025 O NYRSYS I DDEFNYDDIO COFNOD GOFAL NYRSIO CYMRU, GAN YMWELD Â 24 O YSBYTAI AR DRAWS POB UN O'R SAITH BWRDD IECHYD.

# TYSTYSGRIF LLYSGENNAD NEWID

Mae Tystysgrif Llysgennad Newid Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'i datblygu gan y Tîm Newid Busnes fel cwrs rhyngweithiol 12-modiwl. Mae'n helpu pobl gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i allu arwain newid trwy ddeall effaith newid a dod o hyd i ffyrdd o helpu pobl i ddod i delerau â newid mewn ffyrdd sy'n gweddu i'w hanghenion. Fe'i cynlluniwyd yn benodol o amgylch Methodoleg Newid a dulliau Newid safonol a'i nod yw rhoi cyfle i bob cyfranogwr ar y cwrs archwilio egwyddorion a modelau'n llawn, gan gynnwys ymchwil gan Kurt Lewin, David Kantor, ac Egwyddorion Cynhyrchu Toyota.

**ADBORTH**

*"Mae'r cwrs wedi fy helpu i ddeall pam mae unigolion yn ymateb ac yn ymddwyn mewn gwahanol sefyllfaoedd a sut gall eu personoliaethau ddylanwadu ar eu hymddygiad. Trwy ddeall hyn, rwy'n credu y bydd yn fy helpu i ryngweithio â chydweithwyr, cwsmeriaid, cymdeithion a ffrindiau, a'u cefnogi, yn y dyfodol. Rwy'n dysgu sut i addasu fy ymddygiad fy hun i gael y budd mwyaf o sefyllfa. Yr uchafbwynt i mi fu rhyngweithio â phobl eraill o wahanol sectorau a dysgu sut mae pobl eraill yn ymdrin â gwahanol sefyllfaoedd. Bu rhai sgyrsiau hynod ddiddorol sydd yn sicr wedi newid fy nghanfyddiadau ynghylch pam rydym yn gwneud yr hyn a wnawn. Mae'r hwyluswyr wedi creu amgylchedd hamddenol a diogel iawn lle rwy'n teimlo'n hyderus i fynegi fy marn a gofyn cwestiynau, gydag ychydig o hwyl hefyd."*



Rhaglen Cenhadon Newid

Change Ambassador Programme

# CYFLWYNO GWASANAETH GWEITHREDOL


## ARGAELEDD GWASANAETH

Gwasanaethau digidol gweithredol dibynadwy yw'r modd o gefnogi iechyd a gofal ar draws GIG Cymru bob dydd. Mae staff wedi dod yn ddibynnol ar y gwasanaethau technoleg rydym yn eu darparu ac yn disgwyl iddynt fod mor hygyrch â chyflenwadau cyfleustodau fel nwy a thrydan. Wrth ymateb, rydym yn gweithio'n rhagweithiol i wneud y mwyaf o'n seilwaith ac atal problemau.

Rydym yn falch o nodi bod perfformiad cyflwyno ein gwasanaethau gweithredol yn ystod y flwyddyn yn dda ac y buont ar gael 99.94% o'r amser ar gyfartaledd, gyda chyfanswm o 49 o ddigwyddiadau y byddem yn eu categoreiddio fel rhai arwyddocaol.

Digwyddiadau arwyddocaol yw'r rhai sy'n effeithio ar nifer fawr o ddefnyddwyr a gallent gynnwys materion fel oedi wrth brosesu canlyniadau profion, amser segur ar gyfer gwasanaeth neu amhariad rhannol ar wasanaeth. Roedd rhai o'r digwyddiadau hyn o ganlyniad i broblemau gyda chyflenwyr 3ydd parti neu broblemau gyda'r seilwaith sydd ar waith yn adeiladau'r bwrdd iechyd. O'r digwyddiadau arwyddocaol hyn, cywirwyd 92% o fewn yr amser trwsio targed o naill ai 4 awr neu 8 awr, yn dibynnu ar ddifrifoldeb/effaith y digwyddiad.

**Ffig 5 - Digwyddiadau Gwasanaeth TG Arwyddocaol**




# Y DDESG WASANAETH

Mae ein Desg Wasanaeth TG 24awr/7 sydd wedi ennill gwobrau yn darparu cymorth i ddefnyddwyr Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Desgiau Gwasanaeth GIG Cymru, meddygfeydd a sefydliadau eraill y GIG nad oes ganddynt eu desgiau gwasanaeth eu hunain.

Roeddem yn falch bod y ddesg wasanaeth wedi cadw ei hachrediad **3-seren gan y Sefydliad Desgiau Gwasanaeth** fel desg wasanaeth a arweinir gan gwsmeriaid yn dilyn archwiliad llwyddiannus, a daeth hefyd yn drydydd yng ngwobrau cenedlaethol y sefydliad desgiau gwasanaeth.


Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd wedi cael ei archwilio'n llwyddiannus yn erbyn BS 10008 Pwys Tystiolaethol a Derbynioldeb Cyfreithiol.

- Eleni, cofnododd y Ddesg Gwasanaeth dros 205,000 o alwadau o bob rhan o GIG Cymru
- Ar gyfartaledd, llwyddodd y Ddesg Wasanaeth i ateb 98.1% o alwadau (h.y. y gyfradd galwadau sy'n cael eu gadael yw 1.9% ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn).




**Ffig 6 - Digwyddiadau a Cheisiadau Gwasanaeth a Dderbyniwyd**

Mae ein Desg Wasanaeth yn casglu adborth ar ansawdd y gwasanaeth ac yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd, mae wedi cynnal cyfradd boddhad cwsmeriaid o 92% ac uwch.




**Ffig 7 - Boddhad Cwsmeriaid**

# GWOBRAU A CHLOD

Drwy gydol ein blwyddyn gyntaf fel Iechyd a Gofal Digidol Cymru, rydym wedi derbyn cydnabyddiaeth gan y Deyrnas Unedig am ein cyflawniadau.



**'PROSIECT GOFAL IECHYD GORAU' - GWOBRAU DIWYDIANT TG Y DEYRNAS UNEDIG**

Mae'r tîm y tu ôl i Gofnod Gofal Nyrsio Cymru digidol wedi ennill 'Prosiect TG Gorau'r Flwyddyn y Sector Gofal Iechyd' yng Ngwobrau mawreddog Diwydiant TG y Deyrnas Unedig Cymdeithas Cyfrifiadura Prydain (BCS).

Roedd beirniaid y categori yn chwilio am brosiect 'rhagorol' a oedd yn defnyddio TG er budd y sefydliad a'i gleientiaid. Mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru wedi gweld twf sylweddol wrth iddo gael ei gyflwyno'n gyflym ledled y wlad, gan ddigideiddio cofnodion nyrsio Cymru a gwella gofal cleifion i gleifion a staff GIG Cymru.

**PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL DIGIDOL Y FLWYDDYN**

Enillodd Helen Thomas, Prif Swyddog Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru, y wobr 'Prif Swyddog Gweithredol Digidol y Flwyddyn' yng Ngwobrau 'Digital Health' 2021. Mae'r wobr yn dathlu cyflawniadau arweinwyr sy'n gwneud y 'cyfraniadau mwyaf at TG ym maes gofal iechyd y DU'.

**SYSTEM IMIWNEIDDIO CYMRU YN ENNILL GWOBR EFFAITH DDIGIDOL GENEDLAETHOL**

Mae'r system ddigidol y tu ôl i'r gwaith o gyflwyno brechiadau COVID-19 yng Nghymru, sef System Imiwneiddio Cymru (WIS), wedi derbyn Gwobr Dewis y Bobl mewn seremoni yn Llundain am ei heffaith yn ystod y pandemig.

**GWOBRAU EFFAITH ARWEINWYR DIGIDOL- GWOBRAU DEWIS Y BOBL**

I ddathlu'r arloesiadau technoleg ddigidol sy'n gwella bywydau pobl neu'n cael effaith gymdeithasol gadarnhaol, mae Gwobr Dewis y Bobl yn cael ei chyflwyno i'r rhai mwyaf poblogaidd o blith y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol ym mhob categori a chaiff ei phenderfynu trwy bleidlais gyhoeddus.

Eleni, fe'i dyfarnwyd i System Imiwneiddio Cymru, a grëwyd mewn 16 wythnos yn unig gan dîm o ddatblygwyr meddalwedd yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Roedd yn cystadlu â 36 o gystadleuwyr cenedlaethol eraill yn y categori, gan gynnwys Pàs COVID y GIG, Swyddfa'r Cabinet y Deyrnas Unedig, Riverford Organic Farmers a'r BT Green Tech Innovation Platform.

**GWOBRAU CYFLEOEDD Y LLYWODRAETH**

Enillodd IGDC ddyfarniad mawreddog Gwobr ar gyfer Ymateb Eithriadol i COVID-19 ar gyfer Sefydliadau'r GIG yng Ngwobrau Cyfleoedd y Llywodraeth eleni.

Mae'r wobr yn cydnabod y gwaith eithriadol a gyflawnwyd gan IGDC Cymru i ddarparu'r Datrysiad Olrhain Cysylltiadau Profi Olrhain Diogelu, a ddefnyddir gan staff Awdurdodau Lleol i gysylltu â phobl sy'n cael canlyniad Prawf Covid-19 positif.

Wedi'i gyhoeddi fel enghraifft nodedig o gaffael arloesol, roedd yn cynnwys proses prototeip cyflym a chydweithio'n agos â chyflenwyr i greu modelau trwyddedu a oedd yn adlewyrchu cwmpas a chynllun y datrysiad. Roedd y dull yn darparu gwerth eithriadol o fewn amserlen gywasgedig wrth fodloni gofynion deddfwriaeth gaffael.

Mae Gwobrau Cyfleoedd y Llywodraeth (GO) Rhagoriaeth mewn Caffael Cyhoeddus wedi bod yn dathlu'r agweddau gorau oll ym maes caffael cyhoeddus er 2003. Roedd tîm IGDC yn cystadlu yn erbyn maes cryf ac fe gafodd 15 o sefydliadau eraill y GIG eu henwebu, gan gynnwys Cadwyn Gyflenwi GIG ac NHS National Services Scotland.

**GWOBR Y SEFYDLIAD DESGIAU GWASANAETH (SDI):**

Daeth IGDC Cymru yn drydydd yng Ngwobrau'r Sefydliad Desgiau Gwasanaeth a gydnabyddir yn fyd-eang ar 22 Mawrth 2022. Enillodd ein Desg Wasanaeth y Wobr Desg Wasanaeth Orau yn y categori Menter Fawr, a hynny yn erbyn Computacenter NGSD a Capgemini.

Mae'r Sefydliad Desgiau Gwasanaeth yn cynrychioli miloedd o gwmnïau a gweithwyr desg wasanaeth proffesiynol mewn dros 150 o wledydd. Mae gwobrau'r Sefydliad Desgiau Gwasanaeth yn canu clodydd timau gwasanaeth a chymorth TG sy'n cyflawni'r lefelau uchaf o ragoriaeth a gwasanaeth i bob cwsmer.

# MEYSYDD HER

Roedd heriau recriwtio yn cynnwys adeiladu hyd at ffurfio gweithlu Awdurdod Iechyd Arbennig llawn, datblygu model gweithlu cynaliadwy ar gyfer COVID-19 - maes o ofynion ansicr, a chyflwyno'r sgiliau cywir ar gyfer rhaglenni gwaith digidol newydd allweddol.

Dechreuwyd mentrau recriwtio newydd, a chychwynnodd y sefydliad arolwg gweithlu digidol cenedlaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddeall y mathau o rolau y bydd eu hangen yn y dyfodol. Roedd contractwyr allanol wedi ein helpu i gyflawni mewn meysydd lle'r oedd angen sgiliau arbenigol.

Teimlwyd heriau hefyd wrth gydbwyso galwadau COVID-19 â busnes craidd, yn enwedig o ran dyrannu staff. Fodd bynnag, cafodd hyn ei ddatrys yn ail hanner y flwyddyn.

Yn ogystal, roedd meysydd o amrywioldeb a gofynion a oedd yn cynnwys defnyddio ein proses rheoli newid i addasu'r cynllun mewn ffordd hyblyg.

Gwelwyd cynnydd sylweddol eleni o ran symud oddi wrth systemau etifeddol, a gyflymwyd yn sgil symud i ganolfan ddata newydd, ond mae angen rhoi sylw manwl i'r sefyllfa gan dimau gweithredol a buddsoddiad sylweddol.

Roedd pwysau a brofwyd gan ein partneriaid masnachol wedi effeithio ar amserlenni cyflawni hefyd.





# PERFFORMIAD YN ERBYN FFRAMWAITH CYFLAWNI GIG CYMRU 21-22

### MESUR CYFLAWNI 50

Adroddiad ansoddol yn darparu tystiolaeth o gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion Iaith Gymraeg fel y'u diffinnir yn y Cynllun Gweithredu Mwy Na Geiriau.

TARGED – Adroddiad Monitro MThJW

Gweler yr Adran ar yr Iaith Gymraeg

### MESUR CYFLAWNI 52

Canran nifer yr unigolion fesul sefydliad sydd wedi cael Adolygiad Arfarnu a Datblygu Personol (PADR) yn y 12 mis blaenorol.



TARGED 85%

Cyflawnodd IGDC 87.8% (Mawrth 2022)

### MESUR CYFLAWNI 53

Canran cydymffurfio ar gyfer yr holl gymwyseddau lefel un a gwblhawyd o fewn y fframwaith sgiliau craidd a hyfforddiant fesul sefydliad



TARGED 85% (ESR)

Cyflawnodd IGDC 92.6% (Mawrth 2022)

### MESUR CYFLAWNI 55

Canran cyfradd absenoldeb salwch staff

TARGED Gwelliant Blynyddol

Cyflawnodd IGDC 2.86%, 2021/22 yw'r flwyddyn waelodlin

### MESUR CYFLAWNI 59

Canran y cwynion sydd wedi cael ateb terfynol (o dan reoliad 24) neu ateb dros dro (o dan reoliad 26) hyd at ac yn cynnwys 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad y daeth y gEbrill yn i law'r sefydliad gyntaf.



TARGED 75%

Cyflawnodd IGDC 100%

# Y GYMRAEG

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau. Mae GIG Cymru yn un o'r sefydliadau hyn a rhaid iddo gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Roedd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, fel corff a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, ddyletswydd ddeddfwriaethol i roi'r safonau hyn ar waith hyd nes iddo ddod yn awdurdod iechyd arbenigol ym mis Ebrill 2021.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu lefel o wasanaethau Cymraeg sy'n cyfateb i Safonau'r Gymraeg a fabwysiadir gan sefydliadau cyhoeddus tebyg yng Nghymru.

Nod y Cynllun Iaith Gymraeg newydd yw:

- rhoi mwy o eglurder i'r sefydliad ynglŷn â'i ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg
- rhoi arweiniad i siaradwyr Cymraeg ynglŷn â'r gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwreiddio yn y broses o ddarparu a datblygu gwasanaethau
- Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau yng Nghymru drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg


## YR **IAITH GYMRAEG** YN **IGDC**
## THE **WELSH LANGUAGE** AT **DHCW**


Mae IGDC yn sefydliad dwyieithog - DHCW is a bilingual organisation




Mae 95% o staff wedi diweddaru eu sgiliau Cymraeg ar y ESR

Mae 95% o staff wedi cwblhau cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg




Mae 7% o staff yn siarad Cymraeg ar lefel 3 neu uwch

Mae'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw ledled y sefydliad i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn weithredol yn cynnwys:

- Datblygu tîm amlddisgyblaethol, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a chynrychiolwyr yr holl weithgareddau a gyflawnir, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Arweinir y tîm gan y Cyfarwyddwr TGCh a Busnes Digidol, a'r Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (y mae'r ddau ohonynt yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf), i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried ym mhob datblygiad presennol a newydd.
- Recriwtio Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg i oruchwylio'r broses o weithredu'r camau a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg
- Sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfieithu
- Sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth gyda chwmni cyfieithu Trosol i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd bwrdd
- Cynorthwyo Comisiynydd y Gymraeg gydag ymchwiliadau
- Cyrsiau blasu Cymraeg ar gael i bob aelod o staff
- Grŵp 'Yammer' ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd a dysgwyr – 'Siop Siarad'
- Tudalen Gymraeg newydd ar SharePoint i roi arweiniad i aelodau staff sydd am ddeall eu dyletswyddau deddfwriaethol ac archwilio cyfleoedd i ddysgu a gwella sgiliau Cymraeg
- Ymwneud â datblygiadau newydd fel Ap GIG Cymru
- Cydweithio â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mwy Na Geiriau i ddatblygu cynllun 5 mlynedd newydd dan arweiniad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Marian Wyn Jones, ar ran Llywodraeth Cymru.

Wrth symud ymlaen, rydym wedi ymrwymo i ychwanegu at yr hyfforddiant a'r gweithgareddau Cymraeg a ddarperir gennym ar hyn o bryd i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.




### SWYDDI NEWYDD A GWAG

Dosbarthwyd nifer y swyddi fel a ganlyn:

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol - **2**

Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg - **0**

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol - **440**

Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol - **6**

Ni chafwyd unrhyw gwynion am y Gymraeg yn ystod y cyfnod 2021 - 2022

# CYNALIADWYEDD

Mae Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn dangos sut gall GIG Cymru gyfrannu at adferiad a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynd i'r afael â heriau parhaus hirdymor fel tlodi, annhegwch iechyd, a'r newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd a'r angen i bawb yn y sector cyhoeddus gyfrannu at y nod uchelgeisiol i Gymru gyrraedd statws carbon sero net erbyn 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd 2021, fe wnaethom ddatblygu Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datgarboneiddio ein hystad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud. Mae'r cynllun cyflawni hwn yn edrych o'r newydd ar ein hanghenion o ran adeiladau ac ynni, yn ogystal â chaffael, teithio, a ffynonellau allyriadau eraill. Mae rhai o'r allyriadau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol; gan amlygu'r her sy'n ein hwynebu wrth weithio ar y cyd i ddylanwadu ar benderfyniadau pobl eraill.

Fel sefydliad, rydym mewn sefyllfa unigryw i gyfrannu at leihau allyriadau carbon ar draws y GIG ehangach trwy ddarparu a gwella atebion digidol, fel y rhai sy'n caniatáu ar gyfer trosglwyddo a storio gwybodaeth yn ddigidol ac atebion sy'n caniatáu ar gyfer ymgynghori o bell.

Er bod nifer o weithgareddau a all ein helpu i leihau ein hallyriadau carbon, credwn fod rhaid iddynt gael eu cyflawni fel rhan o gynllun cynhwysfawr i sicrhau trawsnewidiad llwyr.

Yn hollbwysig, mae ein strategaeth wedi'i seilio ar y gred bod rhaid i unrhyw gamau a gymerir ystyried nid yn unig sut i fynd i'r afael â'r allyriadau carbon a gynhyrchir, ond hefyd sut gallwn ni fel sefydliad ddod yn garbon effeithlon.

Mae ein gweithredoedd cadarnhaol wedi cyfrannu at wreiddio diwylliant cynaliadwy yn ein sefydliad, gan leihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni ein targedau yn y maes hynod bwysig hwn.

# EIN HÔL TROED CARBON

Mae ein hôl troed carbon yn cael ei gyfrifo fel cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) a gynhyrchir o ganlyniad i'n gweithgareddau a'n gwasanaethau, wedi'i fynegi fel carbon deuocsid cyfatebol. Mae allyriadau carbon yn rhan bwysig o fesur ein heffaith amgylcheddol. Mae nifer o Gategorïau Adrodd ar Allyriadau (ERCs) yr ydym yn eu monitro. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon i dargedu meysydd i'w gwella a chyflawni gostyngiadau.

Mesurodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru allyriadau gyntaf yn 2019-20 (fel ei sefydliad rhagflaenol). Adwaenir hyn fel ein blwyddyn sylfaen. Roedd y rhan fwyaf o'n hôl troed carbon gweithredol yn ystod y flwyddyn hon i'w briodoli i drydan (80%) a nwy (18%). Cyfanswm yr allyriadau gweithredol yn ystod 2019-20 oedd 2757 MtCO2e (tunelli metrig o garbon deuocsid cyfatebol).

Yn ystod Blwyddyn 2 (2020-21), gwelwyd gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau o 27% i 2011 MtCO2e, sy'n gadarnhaol iawn, a gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn allyriadau trydan oherwydd newid i gyflenwr ynni adnewyddadwy. Cyfrannodd gweithio o bell hefyd at ostyngiad mewn allyriadau adeiladau ond rhoddwyd cyfrif amdano mewn ffordd wahanol i adlewyrchu allyriadau gweithio gartref.

Yn ystod Blwyddyn 3 (2021-22), sef ein blwyddyn adrodd bresennol, rydym wedi gweld gostyngiad pellach yn ein hallyriadau (37% o'n blwyddyn sylfaen) i 1719 MtCO2e oherwydd ystod o fesurau gan gynnwys adolygiadau o gontractau cyfleustodau, symud i fflyd cerbydau trydan. Parhaodd mwyafrif y staff i weithio o bell drwy gydol y flwyddyn hon.

| Allyriadau Gweithredol | Tunelli Co2e |
|---|---|
| Canolfannau Data | 660 |
| Gweithio Gartref | 601 |
| Trydan Adeiladau | 292 |
| Cymudo | 70 |
| Nwy Adeiladau | 58 |
| Fflyd | 25 |
| Teithio Busnes | 11 |
| Dŵr | 1 |
| Gwastraff | 1 |
| CYFANSWM | 1719 |

# DELIO Â CHWYNION A PHRYDERON

Ym mis Ebrill 2021, cymeradwyodd Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ein polisi Delio â Phryderon a Chwynion. Mae'r polisi'n canolbwyntio ar ddatrysiad cyflym lle bo modd. Pan wneir cwyn, mae'n amlinellu'r amserlenni ar gyfer ymatebion disgwyliedig ac yn pwysleisio'r hyn a ddysgir gan y sefydliad er mwyn gwella gwasanaethau.

Derbyniwyd cyfanswm o un pryder a thair cwyn ar gyfer 21/22.

Ar hyn o bryd, nid yw Awdurdodau Iechyd Arbennig yn rhan o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â pholisi cwynion y GIG 'Gweithio i Wella', sydd wedi'i fwriadu ar gyfer sefydliadau sy'n delio â chleifion.



# GWERSI A DDYSGWYD

Fel sefydliad newydd, fe wnaethom osod targedau uchelgeisiol ac addasu i heriau newydd wrth ymateb i'r pandemig. Yn ogystal, mae ein cyrhaeddiad a'n cyfraniad at drawsnewid gofal iechyd yn ymestyn, sy'n dod â chymhlethdod a gweithlu mwy yn ei sgil.

Mae cadw blaenoriaethau ar y trywydd iawn ac ehangu ein portffolio gwaith wedi gofyn am broses rheoli newid ffurfiol agos ac ymgysylltu â llywodraethu rhaglenni ehangach yn GIG Cymru. Cododd rhai heriau oherwydd gofynion parhaus a newydd COVID-19, dibyniaeth ar gyflenwyr trydydd parti a rhanddeiliaid nad oeddent ar gael.

Fe wnaethom arwain Adolygiad Cenedlaethol o'r Gweithlu Digidol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a edrychodd ar y rolau ar draws ein sefydliadau a'r rolau newydd y mae angen i ni eu croesawu i gefnogi hyn. Yn dilyn yr Adolygiad a'r disgwyliadau o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, amlygir bod gwaith sylweddol i ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu yn rhywbeth y mae'n rhaid ei wneud er mwyn croesawu'r her hon, gan gydnabod ein bod ar gamau cynnar y daith.

Bydd ychwanegiadau at ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cael eu seilio ar ein capasiti, wedi'u cydbwyso â phroses hyblyg ac ystwyth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r sefydliad wedi symud oddi wrth ddatblygiadau 'rhaeadr' sy'n dilyn yn eu trefn, fel dadansoddi, dylunio, datblygu a phrofi, gyda phob cam yn dod i ben yn llwyr cyn i'r cam nesaf ddechrau. Rydym yn symud tuag at ddull ystwyth ar gyfer datblygiadau mewnol ac wrth ddefnyddio cyflenwyr allanol. Mae dull rheoli prosiect ystwyth yn cynnwys camau cynyddol ac ailadroddus i gwblhau prosiectau, a gyflawnir mewn cylchoedd datblygu tymor byr. Mae'r dull yn blaenoriaethu darparu'n gyflym, addasu i newid, a chydweithio yn hytrach na rheolaeth o'r brig i lawr a dilyn cynllun gosodedig. Eleni, bydd y sefydliad yn adeiladu ar hyn trwy fabwysiadu dull Rheoli Cynnyrch.

Mae angen datblygiadau a hyfforddiant sylweddol ar y gweithlu i groesawu'r her hon ac rydym ar ddechrau'r daith.

Mae strwythurau sefydliadol newydd ac uwch swyddi wedi'u cynllunio ar gyfer 2022/23 i atgyfnerthu ein pwyslais ar strategaeth ddigidol, strwythurau cynnyrch a'r gweithlu.

Yn ogystal, cryfhawyd ein cydweithrediad â rhanddeiliaid fel Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru a Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru, a bydd hyn yn parhau er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn rhan o'r gymuned ar gyfer trawsnewid gofal iechyd.

# CASGLIAD AC EDRYCH I'R DYFODOL

Mae ein blwyddyn gyntaf fel Awdurdod Iechyd Arbennig wedi bod yn gyffrous ac yn heriol. Mae'r hyn a ddarparwn yn bwysig i weithwyr iechyd proffesiynol ac i bobl Cymru.

Rydym wedi teimlo'n falch o gefnogi ein cydweithwyr yn GIG Cymru, gan ddarparu'r gwasanaethau digidol sydd bellach mor hanfodol ar gyfer gofal cleifion effeithlon ac effeithiol, ac rydym yn edrych ymlaen at wynebu'r heriau a chroesawu'r cyfleoedd a ddaw yn ystod y flwyddyn i ddod.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i gefnogi staff GIG Cymru gyda systemau modern a datrysiadau data i ddarparu gwybodaeth ac i helpu dinasyddion Cymru i reoli eu hiechyd.

Mae meysydd ffocws allweddol yn cynnwys, ehangu gwasanaethau digidol ar gyfer nyrsys, systemau newydd ar gyfer gofal critigol a gofal brys a datblygu gwasanaethau ar gyfer dinasyddion ymhellach i drawsnewid llwybrau gofal.

Fel sefydliad blaengar, byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid i sicrhau bod ein datrysiadau digidol yn gwneud bywyd yn haws i bawb, yn cael effaith wirioneddol, ac yn gosod data ac ansawdd iechyd wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae ein cynlluniau uchelgeisiol wedi'u hamlinellu yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022 – 2024.

# YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD A'R CYFRIFON

## ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith ar draws Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd Digidol a Gofal Cymru yn ystod 2020/21. Mae'n cynnwys:

## Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Dyma'r brif ddogfen yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n esbonio'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu o fewn yr Awdurdod Iechyd Arbennig ac yn dwyn ynghyd sut mae'r sefydliad yn rheoli llywodraethu, risg a rheolaeth.

## ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae hwn yn rhoi manylion y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn ystod y flwyddyn. Darperir peth o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei dangos yma fel arfer mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a thynnir sylw at hyn lle bo'n berthnasol.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ATEBOL A DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Atebol, y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyllid gadarnhau eu cyfrifoldebau wrth baratoi'r datganiadau ariannol a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.



# Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

## CWMPAS Y CYFRIFOLDEBAU

Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2021, yn atebol am y canlynol:

- gosod y cyfeiriad strategol
- y fframwaith llywodraethu
- naws a diwylliant sefydliadol
- llywio'r derbynioldeb risg a goruchwylio risgiau strategol
- datblygu perthnasoedd cryf gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol
- creu a chyflawni Strategaeth Hirdymor y sefydliad yn llwyddiannus.

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal strwythurau a phrosesau llywodraethu priodol ynghyd â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r sefydliad wedi gorfod gweithio'n fewnol a chyda phartneriaid mewn ymateb i'r pwysau digynsail wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru, a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i ddarparu. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu, ond y bwriad oedd lleihau dyblygu lle bo modd. Felly mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn egluro cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sut maen nhw'n cefnogi cyflawni ein hamcanion. Mae cefndir Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ei swyddogaethau a'i gynlluniau wedi'u hamlinellu yn yr **Adroddiad Perfformiad.**

Mae'r Bwrdd ar frig ein system llywodraethu a sicrwydd mewnol. Mae'n gosod amcanion strategol, yn monitro cynnydd, yn cytuno ar gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith ac yn gweithio'n iawn. Mae'r Bwrdd hefyd yn cael sicrwydd gan ei Bwyllgorau, asesiadau yn erbyn safonau proffesiynol a fframweithiau rheoleiddio.

## BOD YN AGORED AC YN DRYLOYW

Pan ddaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig, disgwyliwyd y byddai'r Bwrdd, cyfarfodydd Pwyllgor a grwpiau cynghori yn cael eu cynnal yn gyhoeddus yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyniadau i Gyfarfodydd) 1960. Oherwydd y pandemig, nid oedd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a Rheolau Sefydlog y sefydliad, ond roeddem wedi ymrwymo i sicrhau cyn belled â phosibl ein bod yn agored ac yn dryloyw. Gwnaethom gyflawni hyn trwy:

- Ffrydio ein cyfarfodydd Bwrdd Cyhoeddus yn fyw a'u recordio, ac yna eu postio ar ein gwefan
- Rhoi gwybod i randdeiliaid am ein bwriad i gynnal cyfarfodydd Bwrdd 10 diwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd
- Rhannu papurau ag aelodau 7 diwrnod o flaen llaw, a chyhoeddi papurau cyhoeddus ar ein gwefan **ein gwefan** 7 diwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau
- Darparu cofnodion cryno o'r cyfarfodydd Pwyllgor a gynhaliwyd yn breifat (Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd a Llywodraethu Digidol a Diogelwch) a'u cyhoeddi ar ein gwefan
- Darparu adroddiad uchafbwyntiau o holl gyfarfodydd y Pwyllgor a'r Grŵp Cynghori i'r Bwrdd a chyhoeddi'r rhain ar ein gwefan

O ystyried yr adnoddau sylweddol sydd eu hangen i gynnal cyfarfod ffrwd fyw, penderfynwyd peidio ag ymestyn y datrysiad hwn i gyfarfodydd pwyllgor. Penderfynodd

ein Bwrdd rannu papurau a chofnodion yr holl Bwyllgorau cyhoeddus trwy wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae'r dull hwn wedi bod yn cael ei adolygu'n gyson a phenderfynwyd cofnodi holl gyfarfodydd cyhoeddus y Pwyllgor a'u postio ar ein gwefan yn ogystal â phapurau'r cyfarfodydd o fis Ebrill 2022 ymlaen.

Mae'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn Bwyllgor preifat o'r Bwrdd ac felly mae manylion y cyfarfod yn aros yn breifat. Mae grŵp cynghori'r Bwrdd, y Fforwm Partneriaeth Lleol, yn breifat ar hyn o bryd, ond yn unol â'n hymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw, penderfynwyd y byddai cofnodion cryno cyfarfodydd y Fforwm hefyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan o fis Ebrill 2022 ymlaen. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth a'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn cael eu cynnal yn breifat oherwydd y wybodaeth bersonol adnabyddadwy o natur sensitif a dderbynnir yn y cyfarfodydd hyn.

Mae'r cyfnod adrodd ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

## EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU A'N SYSTEM SICRWYDD

Fel sefydliad statudol newydd, mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn o ddiffinio trefniadau llywodraethu newydd ac sy'n aeddfedu ar draws y sefydliad ar yr un pryd â pharhau i weithredu yng nghyd-destun y pandemig.

Yn unol â'r holl Gyrff Iechyd yng Nghymru, cytunodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar reolau sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes y sefydliad ar 1 Ebrill 2021. Bwriad y rheolau sefydlog hyn yw trosi'r gofynion statudol a amlinellir yng Ngorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2020 yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu cyfres o benderfyniadau wedi'u neilltuo i'r Bwrdd, cynllun o ddirprwyaethau i swyddogion ac eraill, a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog, maen nhw'n darparu'r fframwaith rheolaethol ar gyfer cynnal busnes yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisïau corfforaethol, gan gynnwys y Polisi Safonau Ymddygiad a osodwyd gan y Bwrdd, yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu.


Cymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Ionawr 2022. Y diben yw darparu model ymarferol ar gyfer rheoli a goruchwylio'r gweithgarwch a wneir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflawni gofynion y Bwrdd. Mae'r fframwaith yn disgrifio'r strwythur llywodraethu a'r broses benderfynu sy'n berthnasol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac mae ar gael i'w weld ar ein gwefan yma.

Mabwysiadwyd y polisïau a'r gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 1 Ebrill 2021 fel rhan o'r broses o newid o fod yn sefydliad a gynhelir i fod yn gorff statudol. Ond, fel rhan o'r broses o newid i'r sefydliad newydd, ymgymerwyd â gwaith i sicrhau bod y gweithlu a oedd yn tyfu'n gyflym yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Bwrdd ac yn gyfarwydd â nhw. Mae hyn yn cynnwys y polisi safonau ymddygiad sy'n cynnwys gwybodaeth am y datganiadau o fuddiannau a rhoddion, lletygarwch, nawdd a honoraria sy'n nodi ymrwymiad yr Awdurdod Iechyd Arbennig i sicrhau bod ei weithwyr ac Aelodau Annibynnol yn arfer y safonau ymddygiad uchaf. Mae'r polisi yn amlinellu'r disgwyliadau hynny ac yn darparu arweiniad ategol fel bod yr holl weithwyr ac Aelodau Annibynnol yn cael eu cefnogi i gyflawni'r gofyniad/nod hwnnw. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cael adroddiad safonau ymddygiad ym mhob cyfarfod, sy'n cynnwys cofrestr datganiadau o fuddiannau a gyhoeddir fel rhan o'r papurau cyhoeddus ac ar wahân ar wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru o dan 'Dogfennau Allweddol'.

Cafodd Cynllun Parhad Busnes IGDC Business Continuity ei roi ar waith drwy gydol 2021/22 a defnyddiwyd y strwythur Rheoli yn rhan o ymateb IGDC Cymru i'r pandemig Covid-19. **Mae'r strwythur diweddaraf**. Sefydlwyd SharePoint Grŵp Rheoli Covid-19 IGDC yn 2020/21 ar ddechrau'r pandemig, sy'n darparu cofnodion penderfyniadau a chamau gweithredu cysylltiedig ar gyfer y grwpiau perthnasol yn y strwythur.

Cytunodd y Bwrdd ar y ffyrdd newydd o weithio ar 1 Ebrill 2021, ac fel Swyddog Atebol, sicrheais fod y trefniadau hyn yn cael eu monitro trwy adrodd i'r Bwrdd Rheoli a'u rhannu gyda'r Fforwm Partneriaeth Lleol ar gyfer mewnbwn a thrafodaeth gan staff.

FFIG 8 - STRWYTHUR BWRDD IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU



# RÔL Y BWRDD

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd a amlinellir yn y telerau ac amodau penodi, mae Aelodau Annibynnol wedi gweithio gyda'r Cadeirydd i gytuno ar eu rolau Hyrwyddwr Bwrdd lle maen nhw'n gweithredu fel eiriolwyr mewn materion a nodwyd i'w datblygu yn 22/23. Manylir ar y rhain yn **Atodiad 1**. Oherwydd y gweithgarwch recriwtio sy'n digwydd i sicrhau bod strwythur Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru a gynigiwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol yn cael ei wireddu'n llawn, bydd gwaith i ddiffinio a chytuno ar Hyrwyddwyr y Bwrdd Gweithredol yn digwydd yn gynnar yn 22/23.

Mae'r Bwrdd unedol yn cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Bu nifer o newidiadau i aelodaeth y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn. Penodwyd Simon Jones yn Gadeirydd parhaol y Bwrdd ac fe ddechreuodd yn y swydd ar 1 Hydref 2021. Ymddiswyddodd y Cadeirydd dros dro, Robert Hudson, ar 30 Medi 2021. Penodwyd Sian Doyle, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ac Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, yn Brif Swyddog Gweithredol S4C ac ymddiswyddodd o Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 30 Tachwedd 2021, gan adael swydd wag. Symudwyd ymlaen â'r broses o lenwi'r swydd hon mewn cydweithrediad â'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru ac fe aeth yr hysbyseb ar gyfer y swydd yn fyw ym mis Mawrth 2022. Disgwylir penodi ym mis Mehefin 2022. Penodwyd Rowan Gardner yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ac ymgymerodd David Selway â swydd yr Is-gadeirydd. Mae hyd at dri aelod cyswllt o'r Bwrdd ar gael i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a fyddai'n mynychu yn rhinwedd eu swydd. Penodwyd un ohonynt yn aelod cyswllt o'r bwrdd ar gyfer undebau llafur ac fe ddechreuodd ar 1 Awst 2021. Mae dwy swydd ar ôl ar gyfer recriwtio posibl.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd pedair swydd wag fel yr amlinellwyd yn y cynnig ar gyfer strwythur Gweithredol a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yn aelodau â phleidlais o'r Bwrdd ac mae'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl yn fynychwyr y Bwrdd nad oes ganddynt hawliau pleidleisio.

Penodwyd Ifan Evans yn Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth ym mis Rhagfyr 2021 ac fe ddechreuodd ym mis Ebrill 2022. Penodwyd Gareth Davis yn Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau ym mis Mawrth 2022 ac fe ddechreuodd ym mis Ebrill 2022. Bwriedir recriwtio ar gyfer penodiad parhaol. Mae'r ddwy swydd yn aelodau llawn o'r Bwrdd.

Penodwyd Sarah-Jane Taylor yn Gyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol ym mis Ionawr 2022 ac fe ddechreuodd ym mis Mai 2022. Bydd recriwtio i'r swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl sy'n weddill yn digwydd yn gynnar yn 2022/23.

Yn ystod 2021/22, cynhaliwyd sesiynau datblygu a briffio'r Bwrdd a oedd yn cynnwys pwyslais ar yr elfennau llywodraethu canlynol:


- Rheoli risg a sicrwydd bwrdd gan gynnwys derbynioldeb risg
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol a chyfraniadau at yr economi sylfaenol ehangach
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Fframwaith Clinigol Cenedlaethol
- Pwrpas, Cenhadaeth a Gweledigaeth
- Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol
- Dysgu am Covid-19 ac archwiliad craffu effeithiol
- Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Strategaeth Cwmwl
- Strategaeth Ddata yr Adnodd Data Cenedlaethol
- Hanes GIG Cymru ac Athroniaeth GIG Cymru
- Hanes hyd Heddiw: Iechyd a Gofal Digidol yng Nghymru
- Cyflwyniad i Lywodraethu GIG Cymru
- Gwersi Allweddol a Ddysgwyd a Dull Ymgysylltu â Rhanddeiliaid gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig
- Datblygu Clwstwr
- Strategaeth Ymchwil ac Arloesi

Ymgymerodd y Bwrdd â nifer o sesiynau hyfforddi a gwybodaeth yn 21/22:

- Cyd-destun Llywodraethu GIG Cymru
- Cyflwyniad i Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Atal Twyll
- Hyfforddiant Caffael
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol
- Seiberddiogelwch

Amlinellir aelodaeth lawn y Bwrdd yn **Atodiad 1**. Rhoddir isod grynodeb o strwythur y Bwrdd a Phwyllgorau. Mae hyn yn adlewyrchu'r strwythur arfaethedig yn rheolau sefydlog enghreifftiol Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Nid oedd unrhyw gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru na chynigion gan y Bwrdd i gyflwyno Pwyllgorau neu grwpiau cynghori ychwanegol yn ystod 2021/22.

**Ffig 9 - Strwythur y Bwrdd a Phwyllgorau**




Mae'r Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r sefydliad ac mae ganddo rôl allweddol wrth sicrhau bod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Bwrdd hefyd yn ceisio sicrhau bod gan y sefydliad ddiwylliant agored a safonau uchel wrth gyflawni ei waith. Gyda'i gilydd, mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am bob penderfyniad ac yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro perfformiad y sefydliad. Roedd cyfansoddiad priodol yn holl gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2021/22 gyda chworwm. Mae'r materion busnes a risg allweddol a ystyriwyd gan y Bwrdd yn ystod 21/22 wedi'u hamlinellu yn y datganiad hwn a gellir cael rhagor o wybodaeth o bapurau'r cyfarfodydd sydd ar gael ar ein gwefan.

# RÔL Y PWYLLGORAU

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu tri phwyllgor, sef y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd neu Aelodau Annibynnol y Bwrdd ac mae ganddynt rolau allweddol mewn perthynas â'r system llywodraethu a sicrwydd, gwneud penderfyniadau, craffu ac asesu risgiau cyfredol. Mae'r pwyllgorau'n darparu adroddiadau sicrwydd a materion allweddol i bob cyfarfod o'r Bwrdd er mwyn cyfrannu at asesiad y Bwrdd o sicrwydd a chraffu ar gyflawni amcanion.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am adolygu'r strwythur pwyllgorau yn gyson ac mae'n adolygu ei reolau sefydlog yn flynyddol. Bydd y Bwrdd yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau yn ystod 2022/2023 yn unol â fframwaith llywodraethu'r Bwrdd a blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw o ran y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes pwyllgor. Nod Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i bwyllgorau yw cyflawni cyn lleied â phosibl o'u busnes mewn sesiynau caeedig a sicrhau bod busnes yn cael ei ystyried yn gyhoeddus, lle bynnag y bo modd, a bod papurau sesiwn agored yn cael eu cyhoeddi ar wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Dim ond oherwydd natur gyfrinachol y busnes dan sylw y cynhelir sesiynau caeedig o gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau. Gallai materion cyfrinachol o'r fath gynnwys materion masnachol sensitif, materion personél neu drafod cynlluniau ar eu camau cynnar a ffurfiannol. Yn ogystal, mae Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau a'r Grŵp Cynghori yn rhoi trosolwg o'r gweithgarwch a wnaed yn ystod y flwyddyn ac maen nhw i'w gweld yma:

- **Audit & Assurance Committee**
- **Digital Governance & Safety Committee**
- **Remuneration & Terms of Service Committee**
- **Local Partnership Forum**

# Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD

Un o Bwyllgorau pwysig y Bwrdd mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae'r Pwyllgor yn adolygu cynllun a digonolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i system rheolaeth fewnol yn barhaus. Yn ystod 21/22, roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ymwneud â threfniadau llywodraethu cyffredinol y sefydliad yn cynnwys:

- Ailedrych ar ei gylch gorchwyl, a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 ac adolygu'r Adroddiadau Archwilio Mewnol dilynol yn barhaus. Nodi meysydd risg allweddol ac olrhain ymatebion rheolwyr i wella systemau a pholisïau sefydliadol
- Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli ariannol effeithiol ar waith
- Monitro'r systemau rheoli risg
- Datblygu trefniadau i weithio gydag Archwilio Cymru, ac ystyried Asesiad Strwythuredig 2020 a Chynllun Archwilio 2021 Archwilio Cymru
- Monitro cynnydd ar ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Datblygu a chymeradwyo polisïau, strategaethau a fframwaith newydd i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth briodol.

# Y PWYLLGOR TÂL A THELERAU GWASANAETH

Diben y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yw rhoi cyngor i'r Bwrdd ar dâl cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill o fewn y fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer tâl cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau cytundebol, ar gyfer yr holl staff, yn unol â'r gofynion a'r safonau a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Yn ystod 2020/21, roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn cynnwys:

- Perfformiad Cyfarwyddwyr Gweithredol yn erbyn amcanion unigol
- Strwythur y Tîm Gweithredol
- Dyfarniad cyflog cenedlaethol i aelodau staff
- Cadarnhau swyddi'r Tîm Gweithredol gan gynnwys tâl
- Cytundebau secondiad

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran ansawdd a chywirdeb; diogelwch a defnydd priodol o wybodaeth a data i gefnogi darparu iechyd a gofal a gwella gwasanaethau a darparu iechyd a gofal digidol o ansawdd uchel. Roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn 21/22 yn ymwneud â'i gylch gwaith yn cynnwys:

- Ailedrych ar ei gylch gorchwyl, a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- Trefniadau Seiberddiogelwch
- Adolygu digwyddiadau a dysgu sefydliadol
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth
- Sicrwydd Gwybodeg
- Dangosfwrdd Sicrwydd Rhaglenni a Phrosiectau digidol cenedlaethol mawr
- Safonau Iechyd a Gofal sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

## HUNANASESIAD EFFEITHIOLRWYDD

Cynhaliodd holl Bwyllgorau'r Bwrdd hunanasesiad ar gyfer 2021/22 rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 a darparwyd adroddiad i'r Bwrdd ar y canfyddiadau, gan gynnwys cynllun gweithredu a nodwyd.

Seiliwyd holiadur y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar Lawlyfr y Pwyllgor Archwilio ac fe'i dosbarthwyd i aelodau a mynychwyr y Pwyllgor. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol.

Roedd holiaduron y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol a'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth wedi'u seilio ar gwestiynau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar gyfansoddiad, sefydliad a dyletswyddau, ac arweinyddiaeth a chymorth Pwyllgor ar y pryd.

Canfu'r canfyddiadau yn gyffredinol fod awyrgylch y Pwyllgorau a chyfarfodydd y Bwrdd yn ffafriol i drafodaeth agored a chynhyrchiol a bod yr ymddygiad yn gwrtais a phroffesiynol. Canfuwyd bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn dda a'u cefnogi'n effeithiol gan y tîm Llywodraethu Corfforaethol.

Nodwyd nifer o eitemau addysg a chodi ymwybyddiaeth i'w datblygu:

- Amlygodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth a Seiberddiogelwch.
- Mae aelodau'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth wedi gofyn am drosolwg o'r adran strategaeth sgiliau o'r strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ar ôl iddi gael ei chymeradwyo.

## AELODAETH Y BWRDD A'I BWYLLGORAU

Mae **Atodiad 1** yn amlinellu aelodaeth a phresenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Mae aelodau'n ymgymryd ag ystod o weithgareddau eraill ar ran y Bwrdd gan gynnwys Sesiwn Datblygu a Briffio'r Bwrdd, a chyfarfodydd mewnol ac allanol.

Mae angen i'r Bwrdd gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig i strwythur ac aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, ynghyd â'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol, wedi ystyried ei gylch gorchwyl ei hun ac wedi argymell newidiadau i'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod cylch gorchwyl pob pwyllgor yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod gwaith y Pwyllgorau yn adlewyrchu'n glir unrhyw ofynion llywodraethu, newidiadau i drefniadau dirprwyo neu feysydd cyfrifoldeb. Mae holl Bwyllgorau a Grwpiau Cynghori'r Bwrdd wedi datblygu adroddiadau blynyddol ar eu busnes a'u gweithgareddau a ddaeth i law ac a nodwyd ym mis Mawrth 2022. Mae'r swyddogion arweiniol wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2** 2 ac mae rhestr o gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn 21/22 wedi'i chynnwys yn y tabl yn **Atodiad 3**.

## FFORWM PARTNERIAETH LLEOL

Mae Fforwm Partneriaeth Lleol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ogystal â chyfrwng ar gyfer ymgysylltu, ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng undebau llafur a rheolwyr Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Yn ystod 2020/21, mae'r Fforwm wedi cyfarfod bob deufis ac wedi canolbwyntio ar faterion strategol ac ymarferol gan gynnwys diwylliant a datblygiad sefydliadol, polisïau cyflogaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a lles a llesiant staff.

# DIBEN Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Cynlluniwyd system rheolaeth fewnol Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg. Dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei roi ynghylch effeithiolrwydd, felly, yn hytrach na sicrwydd absoliwt.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i amlygu a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisïau, y nodau a'r amcanion. Mae hefyd yn gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Roedd system rheolaeth fewnol ar waith fel sefydliad a gynhelir. Mae'r gwaith a wnaed yn 21/22 wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu hynny a datblygu Strategaeth Fframwaith Sicrwydd Risg a Bwrdd a gweithrediad cysylltiedig. Cymeradwywyd y Strategaeth gan y Bwrdd ym mis Mai 2021 a dechreuwyd ar y gwaith o lunio Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ac amlygu'r holl reolaethau allweddol a llinellau sicrwydd i'w hadrodd i'r Bwrdd. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau a bwriedir ei gynnwys yng ngwaith Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2022. Byddwn yn defnyddio system a phroses Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i fonitro, ceisio sicrwydd a sicrhau bod diffygion yn derbyn sylw trwy graffu gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Goruchwylir ein system Cofrestr Risg Gorfforaethol trwy graffu a monitro gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

Diffinnir rheolaethau allweddol fel y rheolaethau a'r systemau hynny sydd ar waith i helpu i sicrhau y cyflawnir amcan strategol y Bwrdd. Asesir effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol.

**Ffig 10 - Fframwaith Rheoli'r Bwrdd**

**Llinell Gyntaf - Gweithredol**
- Strwythurau sefydliadol – tystiolaeth o ddirprwyo cyfrifoldeb trwy drefniadau rheoli llinell
- Rheolaethau Rheoli
  - Cydymffurfio â'r broses arfarnu
  - Cydymffurfio â Pholisïau, Gweithdrefnau, Strategaethau a'r Fframwaith
  - Adrodd am ddigwyddiadau ac adolygiadau thematig
  - Cydymffurfio â phrosesau a systemau Rheoli Risg
  - Adroddiadau Perfformiad ac Adroddiadau Cyllid
  - Adrodd am raglenni

Gallai'r wybodaeth fod yn gadarn ond nid yw'n annibynnol

**Ail Linell – Goruchwylio a Chraffu**

Adroddiadau i'r Pwyllgorau Sicrwydd a Goruchwylio
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
- Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
- Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
- Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Canfyddiadau a/neu adroddiadau o arolygiadau, Adroddiadau Blynyddol, Adroddiad Perfformiad i'r Pwyllgorau

Mae'r wybodaeth ychydig yn llai manwl ond mae'n annibynnol i ryw raddau

**Trydedd Linell – Annibynnol**
- Archwilio Mewnol
- Archwilio Cymru (Adolygiad o ddatganiadau ariannol, ac adolygiadau o drefniadau i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth)
- Archwiliadau Allanol (e.e. Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol)
- Arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Ni fydd hyn yn rheolaidd, mae'n debygol y bydd ar y cyd â'n Partneriaid yn y GIG)
- Rheoleiddwyr

Gallai'r wybodaeth fod yn llai manwl ond mae'r ffynhonnell sicrwydd yn wirioneddol annibynnol ar y sefydliad.

# Y GALLU I DDELIO Â RISG

Fel yr amlygwyd o'r blaen, gwnaeth yr angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 achosi nifer o heriau i'r sefydliad. Nodwyd nifer o risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Er bod gan y sefydliad gynllun digwyddiadau mawr a pharhad busnes ar waith, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, mae graddfa ac effaith y pandemig wedi bod yn ddigynsail. Cymerwyd camau sylweddol ar lefel genedlaethol a lleol i baratoi ac ymateb i'r effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth. Mae hyn hefyd wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar yr ymateb amlasiantaethol fel aelod allweddol o Gell Ddigidol Covid-19. Mae lefel o ansicrwydd o hyd ynghylch yr effaith gyffredinol y bydd hyn yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau ar unwaith ac yn y tymor hwy gan yr sefydliad. Fodd bynnag, rwy'n hyderus bod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd.

Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau â'i hymateb, a chynllunio ar gyfer y cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn a'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol yn sail i hyn.

Y Prif Weithredwr/Swyddog Atebol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ond arweinydd risg yr Awdurdod Iechyd Arbennig yw Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae hyn yn golygu arwain ar ddylunio, datblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Risgiau a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae Archwilio Mewnol wedi nodi'r angen am ddatblygu a chymeradwyo Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ac adroddiad cysylltiedig i'r Bwrdd, ac mae'r gwaith o gwblhau hyn wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn.

Y cam cyntaf ar y daith hon oedd cymeradwyo Strategaeth Fframwaith Sicrwydd Risg a Bwrdd ym mis Mai 2021 a fydd yn cael ei hadolygu bob 3 blynedd. Parhaodd waith gan y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn i ddiffinio'r prif risgiau i'r amcanion strategol, y meysydd risg sefydliadol, derbynioldeb risg a goddefiannau a fydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Roedd ein Polisi Rheoli Risg yn rhan o'r gyfres o bolisïau a fabwysiadwyd gan y Bwrdd o'n corff cynhaliol ar 1 Ebrill 2021. Fe'i hadolygwyd yn unol â'r Strategaeth Fframwaith Sicrwydd Risg a Bwrdd newydd er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu. Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen ym mis Ebrill 2022 ac roeddent ar gael ar wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae datganiad derbynioldeb risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a amlinellir isod, yn disgrifio ymagwedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru at reoli risg a'r risgiau y mae'n barod i'w derbyn neu eu goddef wrth geisio cyflawni ei nodau strategol:

- Mae'n rhaid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gymryd risgiau i gyflawni ei nodau strategol a sicrhau canlyniadau buddiol i randdeiliaid
- Cymerir risgiau mewn modd ystyriol a rheoledig
- Bydd amlygiad i risgiau yn cael ei gadw i lefel effaith a ystyrir yn dderbyniol gan y Bwrdd
- Gallai'r lefel dderbyniol amrywio o bryd i'w gilydd ac felly bydd yn cael ei hadolygu a'i diwygio unwaith y flwyddyn o leiaf
- Mae'n bosibl y bydd unrhyw risg y tu allan i'n derbynioldeb risg y cytunwyd arno yn cael ei derbyn a bydd yn destun proses lywodraethu i sicrhau gwelededd a rheolaeth
- Mae'n bosibl y derbynnir rhai risgiau penodol uwchlaw'r derbynioldeb risg y cytunwyd arno oherwydd:
    - bernir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn ddigon isel
    - gallent arwain at wireddu gwobr/budd sylweddol
    - ystyrir eu bod yn rhy gostus i'w rheoli o ystyried blaenoriaethau eraill
    - byddai'r gost o'u rheoli yn fwy na chost yr effaith pe byddent yn cael eu gwireddu
    - nid oes ond cyfnod byr o amlygiad iddynt
    - mae angen i barti allanol gymryd camau lliniaru

Mae derbynioldeb risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystyried ei allu i ddelio â risg, sef faint o risg y mae'n fodlon ei dderbyn wrth gyflawni ei amcanion o ystyried ei adnoddau ariannol ac adnoddau eraill, cyn i rwymedigaethau a dyletswyddau statudol gael eu torri.

Mae'r goddefiant risg yn rhoi arweiniad ynghylch uwchgyfeirio risgiau ar draws ei weithgareddau. Mae'r ffeithlun isod yn rhoi manylion y meysydd risg a nodwyd ac a gytunwyd gan Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru, y derbynioldeb cysylltiedig a'r lefelau goddefiant, ac yn gosod disgwyliadau'r Bwrdd o ran nifer y rheolaethau allweddol wrth adolygu Risgiau Corfforaethol yn y categorïau hynny yn Adroddiad Sicrwydd y Bwrdd.

Bydd yr holl risgiau'n cyd-fynd yn glir ag amcanion y sefydliad gyda chysylltiad â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Fel rhan o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n llawn â'r Bwrdd, cafodd pum risg strategol eu nodi a'u cymeradwyo yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd yn 2022/23 ym mis Mai 2022.

**Ffig 11 - Maes Effaith Risg, derbynioldeb risg cysylltiedig a lefel rheolaeth gysylltiedig**

Llai o Reolaethau, gwneud penderfyniadau yn fwy datganoledig

| | | |
|---|---|---|
| **AWYDDUS** | Risg â sgôr o 25 neu uwch ystyried adrodd i'r Bwrdd | Dim |
| **AGORED** | Risg â sgôr o 20 neu uwch ystyried adrodd i'r Bwrdd | Datblygu Gwasanaethau |
| **CYMEDROL** | Risg â sgôr o 15 neu uwch ystyried adrodd i'r Bwrdd | Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol |
| **PWYLLOG** | Risg â sgôr o 12 neu uwch ystyried adrodd i'r Bwrdd | Ariannol, Enw Da, Diogelwch a Lles, Darparu Gwasanaethau Enw Da, Gwybodaeth – Mynediad a Rhannu |
| **AMHAROD** | Risg â sgôr o 9 neu uwch ystyried adrodd i'r Bwrdd | Cydymffurfiaeth, Gwybodaeth – Storio a chynnal, Diogelwch Dinasyddion |

Mwy o Reolaethau, gwneud penderfyniadau yn fwy canolog

# Y PRIF RISGIAU PRESENNOL YN ERBYN EIN HAMCANION STRATEGOL


Mae prif risgiau wedi'u nodi sy'n cysylltu'n ôl â'r pum amcan strategol. Bydd dangosfwrdd Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei adrodd i Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig a bydd yn manylu ar sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn lliniaru'r prif risgiau hyn i sicrhau y cyflawnir ein hamcanion strategol.

| AMCAN STRATEGOL | PRIF RISGIAU |
|---|---|
| **1. Galluogi trawsnewid digidol i gefnogi gofal cyson cydgysylltiedig** | **OS** na fyddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau gyda defnyddwyr a gefnogir gan safonau cyffredin a ffyrdd o weithio ar y cyd **YNA** efallai na fydd ein datblygiad yn bodloni anghenion defnyddwyr a bydd cymhlethdod a seilos ar draws ein systemau **GAN ARWAIN AT** anallu i drawsnewid yn gyflym. |
| **2. Darparu technoleg, cynhyrchion data a gwasanaethau o ansawdd uchel i gefnogi effeithlonrwydd a gwelliannau mewn prosesau gofal** | **OS** na fyddwn yn darparu cynhyrchion a gwasanaethau diogel, hygyrch a gwydn o ansawdd uchel **YNA** bydd gallu partneriaid iechyd a gofal i ddarparu a moderneiddio gwasanaethau yn cael ei beryglu **GAN ARWAIN AT** ofal llai effeithiol, llai cynaliadwy a allai achosi niwed ac na fyddai'n bodloni disgwyliadau cleifion na gweithwyr proffesiynol. |
| **3. Ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y cofnod iechyd a gofal digidol fel bod ansawdd gofal a thriniaeth yn cael ei wella** | **OS** methwn ag ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol ar y cyflymdra gofynnol **YNA** fe allai gwybodaeth fod yn anghyflawn, yn anghyson neu gael ei chadw mewn mannau gwahanol **GAN ARWAIN AT** lai o allu i ddefnyddio gwybodaeth i lywio gofal a grymuso dinasyddion, gan arwain at ganlyniadau gwell. |
| **4. Sbarduno gwerth ac arloesedd ar gyfer canlyniadau gwell a gofal sy'n seiliedig ar werth** | **OS** na fyddwn yn dod yn bartner y gellir ymddiried ynddo ac yn sefydliad cynhwysol sy'n perfformio'n dda **YNA** ni fydd pobl eisiau gweithio gyda ni ac ar ein rhan **GAN ARWAIN AT** fethiant i gyflawni ein huchelgais strategol o ddarparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf. |
| **5. Dod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol sy'n perfformio'n dda ac sy'n cefnogi ein gweithlu a'n rhanddeiliaid** | **OS** na fyddwn yn dod yn bartner y gellir ymddiried ynddo ac yn sefydliad cynhwysol sy'n perfformio'n dda **YNA** ni fydd pobl eisiau gweithio gyda ni ac ar ein rhan **GAN ARWAIN AT** fethiant i gyflawni ein huchelgais strategol o ddarparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf. |


# FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod rheoli risg yn weithredol ac yn integredig yn elfennau allweddol o bob agwedd ar ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau, yn enwedig er mwyn helpu i gyflawni ein busnes yn llwyddiannus. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn nodi ac yn monitro risgiau.

Caiff risgiau eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd fel y bo'n briodol. Ar lefel weithredol, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am adolygu Cofrestrau Risg eu Hadrannau a'u Cyfarwyddiaethau yn rheolaidd ac am sicrhau bod rheolaethau a chynlluniau gweithredu effeithiol ar waith a monitro cynnydd.




**Ffig 12 - Siart Lif Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol**




**Ffig 13 - Fframwaith rheoli risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

Mae'r fframwaith yn cynnwys strategaeth ac offer gweithredol ac yn darparu'r cyd-destun ymarferol ar gyfer staff y sefydliad o ran rheoli risg o nodi a sgorio hyd at fonitro.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn rheoli risg ar y cyd trwy nifer o fforymau yn ymwneud â datblygu a rheoli gwasanaethau, prosiectau a rhaglenni, llywodraethu gwybodaeth a diogelwch cleifion. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cydweithwyr byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn ogystal â Llywodraeth Cymru a dinasyddion. Mae'r risgiau a nodir yn y fforymau yn cael eu rheoli yn yr un system sefydliadol sy'n caniatáu ar gyfer uwchgyfeirio a rheoli i'r lefel ofynnol ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiffinio dull risg cenedlaethol ar gyfer risgiau digidol cenedlaethol neu systemau.

# YMGORFFORI RHEOLAETH RISG EFFEITHIOL

Members of DHCW's corporate governance team provide training, support and advice to the organisation with regard to effective risk management these include:

**CYFLWYNIAD I REOLI RISG**
Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi trosolwg o sut i nodi, sgorio, ysgrifennu, monitro ac uwchgyfeirio risg.

**RHEOLI RISG AR GYFER PERCHNOGION A THRINWYR RISG**
Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut i ddefnyddio system rheoli risg y sefydliad ac yn ail-ddilysu'r broses asesu a rheoli risg gan ganolbwyntio ar elfennau rheoli a sicrwydd risg.

**FFRAMWAITH SICRWYDD RISG A BWRDD**
Mae'r hyfforddiant hwn yn targedu ehangu'r wybodaeth am risg strategol a'r ymagwedd a amlinellir yn y Strategaeth Fframwaith Sicrwydd Risg a Bwrdd. Mae'n canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

# Y FFRAMWAITH RHEOLI

Nid yw'n ofynnol i sefydliadau GIG Cymru gydymffurfio â phob elfen **cod llywodraethu corfforaethol** ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad llywodraethu hwn yn rhoi asesiad o sut rydym yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y cod fel y maent yn berthnasol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel sefydliad sector cyhoeddus y GIG. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dilyn ysbryd y cod yn effeithiol ac yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r cod. Gan mai hon oedd blwyddyn gyntaf Iechyd a Gofal Digidol Cymru o weithredu a'i fod yn ymateb i'r pandemig Covid-19, ni chynhaliwyd Hunanasesiad.

Fodd bynnag, mae gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer 3ydd chwarter 2022/23 i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gynnal hunanasesiad llawn yn erbyn egwyddorion y cod fel y maent yn berthnasol i sefydliadau sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru a'r safon llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd.

Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cydnabod nad yw holl elfennau adrodd y cod wedi'u hamlinellu yn y datganiad llywodraethu hwn ond bod hunanasesiad yn erbyn y meini prawf wedi'i gynnal trwy'r amrywiol adolygiadau ac archwiliadau yn ystod 2021/22. Ymdrinnir â'r rhain yn yr adroddiad blynyddol hwn gyda gweithgareddau fel yr **adolygiad llywodraethu sylfaenol** a'r **adroddiad archwilio mewnol ar lywodraethu rhan 1**, yr **asesiad blynyddol o effeithiolrwydd, gwaith datblygu'r Bwrdd ar risg a sicrwydd y bwrdd** a dilysu'r amcanion strategol. Ni adroddwyd am unrhyw wyriadau oddi wrth y cod llywodraethu corfforaethol.

Mae fframwaith rheoli risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cydymffurfio'n sylweddol ag egwyddorion Rheoli Risg y Llyfr Oren o ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad.

Ni adroddwyd am unrhyw wyriadau oddi wrth y llyfr oren. Gellir cyrchu'r llyfr oren **llyw.cymru**

# SAFONAU IECHYD A GOFAL

Mae'r safonau iechyd a gofal yn amlinellu'r gofyniad ar gyfer darparu gofal iechyd yng Nghymru. Fel sefydliad iechyd nad yw'n darparu gofal yn uniongyrchol, mae ein pwyslais o ran y safonau gofal iechyd yn ymwneud â staff ac adnoddau. Mae gwelliannau i'r meysydd hyn wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad perfformiad. Cynhelir adolygiad blynyddol yn erbyn y safonau gan yr uwch arweinwyr perthnasol yn y sefydliad ac adroddir ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol i sicrhau trosolwg a chraffu yn y meysydd perthnasol.

# ELFENNAU ERAILL Y FFRAMWAITH RHEOLI

## ANSAWDD A DYLETSWYDD GONESTRWYDD

Disgwylir i'r Ddyletswydd Ansawdd newydd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd ddod i rym cyfreithiol ym mis Ebrill 2023, yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Bydd y Dyletswyddau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Iechyd Arbennig adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hynny a chyhoeddi ei adroddiadau yn yr adroddiad perfformiad a chyfrifon blynyddol. Felly, bydd y gofynion adrodd newydd hyn yn cael eu cynnwys yn y cyfnod adrodd 2023/24.

Yn y cyfamser, rhagwelir y canlynol:-

- Gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd yn anstatudol yn yr Hydref/Gaeaf 2022.

Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer profi'r dangosyddion adrodd ansawdd, y mesurau a'r cysyniadau fframwaith naratif sy'n cael eu datblygu yn ystod cam gweithredu'r ddyletswydd ansawdd fel proses adrodd hybrid ar gyfer 2022/23. Yn y cyfamser, mae gofynion adrodd ar ansawdd wedi'u gwreiddio yn **Adran Berfformiad** yr Adroddiad Blynyddol hwn.

- Cyfnod gweithredu anstatudol yn ystod yr Hydref/Gaeaf 2022 ynghylch y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Bydd hyn yn galluogi cyrff y GIG, gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol, i baratoi ar gyfer y gofynion adrodd newydd o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a hefyd i gynnal a chyflwyno sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth.

## Y GWASANAETH ATAL TWYLL

Yn unol â Safonau Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd NHS Protect ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru), cytunodd yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ar gynllun gwaith ar gyfer 2021/22 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mai 2021. Mae diweddariadau ar gyflawni yn erbyn y cynllun gwaith hwn wedi cael eu darparu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ystod 2021/22.

## CYDYMFFURFIO Â DEDDFWRIAETH CYDRAD-DOLDEB, AMRYWIAETH A HAWLIAU DYNOL

Cadwodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yr achrediadau allanol BS76000 Gwerthfawrogi Pobl a BS76005 Gwerthfawrogi Pobl trwy Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus a'n cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i roi pobl wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud. Y weledigaeth yw creu diwylliant ac amgylchedd sefydliadol hygyrch a chynhwysol i bawb sydd hefyd yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Cyhoeddir ein polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan ac mae wedi'i seilio ar yr egwyddorion arweiniol canlynol:

- Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ceisio cyflogi gweithlu sy'n adlewyrchu pob rhan o'r gymdeithas o fewn y cymunedau yng Nghymru y mae'n eu gwasanaethu.
- Dylai pob gweithiwr deimlo ei fod yn cael ei barchu ac yn gallu bod yn driw i'w hun a rhoi o'i orau i'w rôl.
- Bydd gweithwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu eu llawn botensial a'u doniau a bydd adnoddau'r gweithlu'n cael eu defnyddio'n llawn i gynyddu effeithlonrwydd y sefydliad i'r eithaf. Bydd gwahaniaethau unigol yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ac ni fydd unrhyw fath o fygwth, bwlio nac aflonyddu yn cael ei oddef.
- Cefnogir staff lle y maent yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg ac fe'u hanogir i adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau o droseddau casineb yn eu herbyn neu yn erbyn pobl o'u hamgylch.
- Bydd pob un o bolisïau, arferion a datblygiadau gwasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael asesiad effaith ar gydraddoldeb er mwyn osgoi gwahaniaethu a sicrhau lliniaru lle gallai grwpiau gwarchodedig gael eu heffeithio'n andwyol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gellir gweld trosolwg o gamau gweithredu mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein **hadroddiad staff a chydnabyddiaeth**. Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynhyrchu Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2022/23.

# DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015 – TRYLOYWDER MEWN CADWYNI CYFLENWI

Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflwynwyd Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi i amlygu'r angen, ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth da yn bodoli ar gyfer yr holl weithwyr, yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i wreiddio egwyddorion a gofynion y Cod a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Wrth wneud hynny, mae'n dangos yr Ymrwymiad i'n rôl fel cyflogwr sector cyhoeddus, i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol, fel:

- Caethwasiaeth fodern a sathru ar hawliau dynol
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau ambarél a chontractau dim oriau; a
- Pheidio â thalu'r Cyflog Byw.

Yn ystod 21/22, cymerodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru y camau canlynol:

- Talodd gyfradd cyflog byw y llywodraeth ar ei raddfa gyflog isaf, sydd ym mand 3 yr Agenda ar gyfer Newid
- Mae ganddo Bolisi Codi Pryderon (Chwythu'r Chwiban), sy'n rhoi proses deg a thryloyw i'r gweithlu, i'w grymuso a'u galluogi i godi amheuon o unrhyw fath o gamymddwyn, naill ai gan ein staff neu gyflenwyr/contractwyr sy'n gweithio ar safleoedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Mae ganddo darged i dalu ein cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys
- Mae ganddo brosesau IR35 cadarn ar waith, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd annheg o weithwyr hunangyflogedig ffug neu weithwyr sy'n cael eu cyflogi o dan gynlluniau ambarél. Mae'r prosesau hyn hefyd yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael eu cyflogi mewn modd teg a phriodol, ac mae'n atal unigolion rhag osgoi talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae hefyd yn sicrhau nad oes unrhyw weithiwr dan anfantais ormodol o ran cyflog, hawliau neu gyfleoedd cyflogaeth parhaol.
- Nid yw'n sicrhau gwasanaeth nac yn cyflogi staff na gweithwyr ar Gontractau Dim Oriau
- Mae ganddo Bolisi a Gweithdrefn Recriwtio a Dethol cadarn, sy'n sicrhau proses deg a thryloyw
- Mae ganddo Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cadarn, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddarpar ymgeisydd, gweithiwr neu weithiwr y sicrheir ei wasanaeth gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru dan anfantais ormodol mewn unrhyw ffordd, o ran cyflog, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad na chyfleoedd gyrfa.
- Yn unol â'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth), bydd unrhyw aelodau staff Iechyd a Gofal Digidol Cymru y gallai fod yn ofynnol iddynt drosglwyddo i sefydliad trydydd parti, yn cadw eu tâl a Thelerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG.

# CYNLLUN PENSIWN

Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o gynllun pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr a gynhwysir yn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn digwydd yn unol â rheolau'r cynllun, a bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

# CRONFA RISG CYMRU

Mae Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) yn fecanwaith rhannu risg, yn debyg i drefniant yswiriant, sy'n darparu indemniad i sefydliadau GIG Cymru yn erbyn hawliadau a cholledion esgeuluster. Mae'n rhaid i sefydliadau unigol y GIG dalu'r £25,000 cyntaf o hawliad neu golled, sy'n debyg i dâl dros ben polisi yswiriant. Mae'r Bwrdd, ynghyd â'i ffynonellau sicrwydd mewnol, sy'n cynnwys ei swyddogaeth archwilio mewnol a ddarperir gan Gydwasanaethau'r GIG, hefyd yn defnyddio ffynonellau sicrwydd allanol ac adolygiadau gan archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr i lywio ac arwain ein datblygiad. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn yn cael eu defnyddio gan y Bwrdd i lywio ein cynllunio ymhellach ac i ymgorffori llywodraethu da ar draws ystod o gyfrifoldebau'r sefydliad.

# CYNLLUN CYFLAWNI LLEIHAU CARBON

Cymeradwyodd Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru Gynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio 2021-2030 yng nghyfarfod Bwrdd mis Mawrth 2022. Mae manylion y cynllun cyflawni i'w gweld yn yr **Adroddiad Perfformiad.** Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu i gefnogi'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru sy'n amlinellu sut y gall GIG Cymru gyfrannu at yr adferiad a'i ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynd i'r afael â heriau parhaus hirdymor fel tlodi, annhegwch iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r adroddiadau ar allyriadau sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, ac nid oes unrhyw faterion o bwys wedi'u nodi. Adroddir ar hyn trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

# LLYWODRAETHU GWYBODAETH A MYNEDIAD DIAWDURDOD AT DDATA

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn adrodd ar lywodraethu gwybodaeth bob chwarter i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ac yn cynnal adolygiad blynyddol o drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth gan ddefnyddio'r pecyn cymorth llywodraethu gwybodaeth cenedlaethol. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol a chaiff camau gweithredu eu monitro trwy'r adroddiadau chwarterol parhaus.

Adroddir am ddigwyddiadau sy'n arwain at fynediad diawdurdod at ddata yn unol â gofynion statudol Iechyd a Gofal Digidol Cymru. O dan Ddeddf Diogelu Data 2018, mae achosion o fynediad diawdurdod at ddata personol (fel y'u diffinnir gan y Ddeddf) yn cael eu hystyried yn achosion o danseilio diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu heb awdurdod neu fynediad at ddata personol, a hynny'n ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.

Mae angen asesiad risg o fynediad diawdurdod at ddata personol (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Data) er mwyn pennu'r risg i unigolion byw a'r risgiau i hawliau a rhyddid unigolion byw. Mae'n rhaid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am achosion o fynediad diawdurdod at ddata personol sy'n arwain at risg debygol i unigolion byw a risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion, ac mae'n rhaid rhoi gwybod i bartïon perthnasol pan fydd yr achos o fynediad diawdurdod at ddata personol yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion.

Mae ein tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn ymchwilio'n briodol i bob achos o fynediad diawdurdod at ddata ac adroddir arnynt i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol. Lle bo'n briodol neu'n orfodol, adroddir am achosion o fynediad diawdurdod at ddata i Lywodraeth Cymru.

Yn ystod 2021/22, fe wnaethom gofnodi cyfanswm o chwe digwyddiad a arweiniodd at achosion posibl o fynediad diawdurdod at ddata personol. O'r digwyddiadau hyn, nid oedd yr un ohonynt yn bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer adrodd i'r ICO. Nid oedd yr un o'r chwe digwyddiad yn cyrraedd y trothwy gofynnol ar gyfer hysbysu Llywodraeth Cymru.

# CYFARWYDDIADAU GWEINIDOGOL

Er bod sefydliadau GIG Cymru yn cael Cyfarwyddiadau Gweinidogol, nid yw'r rhain bob amser yn berthnasol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd drwy gydol y flwyddyn wedi'u rhestru ar dudalennau Iechyd a Gofal Cymdeithasol gwefan Llywodraeth Cymru. Mae manylion y Cyfarwyddyd Gweinidogol a dderbyniwyd a'u perthnasedd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2021 wedi'u cynnwys yn **Atodiad 4**.

# TREFNIADAU CYNLLUNIO

Darparodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddiadau amgen ar gyfer cylch cynllunio 21/22. Roedd yn ofynnol i sefydliadau gynhyrchu Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 yn hytrach na chynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd llawn oherwydd yr amgylchedd ansicr wrth ymateb i bandemig Covid-19. Cyflwynwyd hwn ym mis Mawrth 2021; darparwyd adborth gan LlC yn gofyn am feysydd i'w hystyried ymhellach:

- Mae angen ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys gofal cymdeithasol, i sicrhau cysondeb ar draws y system a sicrhau bod gofal cymdeithasol yn rhan allweddol o strategaeth ddigidol a mapiau trywydd portffolio Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Mae'r cynllun yn nodi bod bylchau yng nghapasiti'r gweithlu yn cael eu hystyried mewn tybiaethau cynllunio. Mae angen rhagor o sicrwydd ynghylch risgiau a mesurau lliniaru sy'n ymwneud â diffyg posibl mewn recriwtio, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar gapasiti a chyflawnadwyedd y cynllun, gan gynnwys ysgogi'r holl fecanweithiau masnachol i gynnal cyflymder cyflawni.
- Dangos yn glir sut y bydd y sefydliad yn cefnogi'r system gyda'r ymateb parhaus i COVID ochr yn ochr â chyflawni gweithgarwch craidd a mynd i'r afael ag unrhyw ôl-groniad mewn gweithgarwch. Dylai hyn driongli â chynlluniau'r gweithlu a chynlluniau ariannol ac ystyried argymhellion sy'n dod i'r amlwg sy'n deillio o'r adolygiadau strategol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru (e.e. Gweithlu, seilwaith ac ati).

Lluniwyd a chyflwynwyd atodiad ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo, a chymeradwyodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Blynyddol wedi hynny.

# ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD

Fel y Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith yr archwilwyr mewnol, a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac ar sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn dibynnu ar sawl ffynhonnell o sicrwydd mewnol ac allanol sy'n asesu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol yr Awdurdod Iechyd Arbennig ac yn cynghori lle mae meysydd i'w gwella. Manylir ar yr elfennau hyn uchod yn y diagram o **Fframwaith Rheoli Bwrdd** Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae'r prosesau sydd ar waith i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- Goruchwyliaeth y Bwrdd a'r pwyllgor o ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol a dal Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr i gyfrif
- Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol a'r gwelliant parhaus mewn effeithiolrwydd o fewn y sefydliad
- Goruchwylio risg weithredol trwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau
- Goruchwylio risg twyll trwy dîm Atal Twyll Lleol Caerdydd a'r Fro
- Monitro gweithrediad yr argymhellion trwy'r olrheiniwr archwilio a oruchwylir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
- Goruchwylio trefniadau archwilio, rheoli risg a sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

Darparodd holl Bwyllgorau'r Bwrdd adroddiad blynyddol i gyfarfod Bwrdd mis Mawrth 2022 yn manylu ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor perthnasol yn ystod y flwyddyn a'r penderfyniadau allweddol a wnaed.

Rwy'n fodlon yn gyffredinol bod y mecanweithiau sydd ar waith i asesu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn gweithio'n dda a bod gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig y cydbwysedd cywir rhwng lefel y sicrwydd a gaf gan fy Swyddogion Gweithredol, trefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd a Gwasanaethau Archwilio Mewnol Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

# ARCHWILIO MEWNOL GAN GYNNWYS CASGLIAD Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

Mae Archwilio Mewnol, trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, yn rhoi llif sicrwydd i mi fel Swyddog Atebol a'r Bwrdd ar y systemau rheolaeth fewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae'r farn gyffredinol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn swyddogaeth o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch i wella'n barhaus.

Mae'r angen i ymateb i bandemig COVID-19 wedi effeithio ar y rhaglen, gan arwain at gynnal archwiliadau mewn modd rhithwir. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth ffurfio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr holl archwiliadau a gynhaliwyd, a grynhoir yn y tabl isod:

| **Enw'r Archwiliad** | **Dyddiad derbyn gan y Pwyllgor Archwilio** | **Sgôr Sicrwydd** |
|---|---|---|
| Adroddiad Dilynol Rheoli Cyflenwyr | Mai 2021 | Rhesymol |
| Seiberddiogelwch | Mai 2021 | Sylweddol |
| Pontio i'r Awdurdod Iechyd Arbennig | Hydref 2021 | Rhesymol |
| Dadansoddeg Data | Hydref 2021 | Rhesymol |
| System Gwybodaeth Radioleg Cymru | Ionawr 2022 | Rhesymol |
| Caffael System Meddygon Teulu | Ionawr 2022 | Sylweddol |
| Llywodraethu Cyffredinol Rhan 1 | Ionawr 2022 | Sylweddol |

Yn benodol, canfu pontio i'r Awdurdod Iechyd Arbennig a llywodraethu cyffredinol rhan 1 fod y pontio i sefydliad newydd wedi'i reoli i safon addas a bod y rheolau sefydlog yn cael eu gweithredu'n dda ar y cyfan ar draws y sefydliad.

# CASGLIAD PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2021-22

Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad ac mae hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau ar waith i gael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y system gyffredinol honno. Elfen allweddol yn y llif sicrwydd hwnnw yw'r farn sicrwydd gyffredinol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.


Mae'r adroddiad hwn yn nodi Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghyd â chanlyniadau cryno'r gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o berfformiad archwilio ac asesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Pwrpas barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol a'r Bwrdd sy'n sail i asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd yn canolbwyntio ar risg, ac felly bydd angen i'r Bwrdd integreiddio'r canlyniadau hyn â ffynonellau eraill o sicrwydd wrth wneud asesiad cyflawn o reolaeth at ddibenion y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Y farn gyffredinol ar gyfer 2021/22 yw:

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** |  | Gall y Bwrdd fod yn **rhesymol o sicr** (mae manylion am y sgôr ar gael yn **atodiad 6**) bod y trefniadau sydd ar waith i sicrhau llywodraethu, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas a'u bod wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfio, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad risg gweddilliol, hyd nes y cânt eu datrys. |

# CWMPAS Y FARN

Mae cwmpas fy marn yn cael ei gyfyngu i'r meysydd hynny a archwiliwyd yn y cynllun archwilio seiliedig ar risg y cytunwyd arno gyda'r uwch-reolwyr ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Dylai asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol gael ei ddehongli yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, a chael ei ystyried yn sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth y sefydliad wedi'i nodi isod.

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** |  | Gall y Bwrdd fod yn **weddol sicr** bod y trefniadau sydd ar waith i sicrhau llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas a'u bod wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfio, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad risg gweddilliol, hyd nes y cânt eu datrys. |

Mae'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2021/22 ac yr adroddwyd arno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi'i gydgrynhoi yn Adran 5.

Mae'r sylfaen dystiolaeth y llunnir y farn gyffredinol arni fel a ganlyn:

- Asesiad o'r ystod o safbwyntiau ac allbynnau unigol sy'n deillio o aseiniadau archwilio ar sail risg sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun Archwilio Mewnol yr adroddwyd arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, a lle bo'n briodol, mae gwaith ar gam adroddiad drafft neu waith sy'n mynd rhagddo ond sydd wedi'i gwblhau i raddau helaeth wedi'i ystyried hefyd, a phan fo hynny'n berthnasol fe'i nodir yn yr adroddiad. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y meysydd hyn a chanlyniadau unrhyw archwiliadau dilynol wrth symud ymlaen â gwelliannau rheoli (gweler adran 2.4.3).
- Canlyniadau unrhyw waith archwilio sy'n ymwneud â'r Safonau Iechyd a Gofal gan gynnwys, os yw'n briodol, y dystiolaeth a oedd ar gael i'r Bwrdd gyrraedd ei ddatganiad mewn perthynas â'r hunanasesiad ar gyfer y modiwl Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd.
- Adolygiadau sicrwydd eraill sy'n effeithio ar farn y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys gwaith archwilio a gyflawnir mewn sefydliadau eraill (gweler Adran 3).
- Gwybodaeth arall y mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'i chael yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gwybodaeth gronnol a gwybodaeth dros amser; arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau allweddol eraill; cyfarfodydd gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol, uwch reolwyr ac Aelodau Annibynnol; canlyniadau gwaith ad hoc a chymorth a ddarparwyd; cysylltu â darparwyr sicrwydd ac arolygwyr eraill; ymchwil; a gwybodaeth archwilio gronnol am y sefydliad y mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystyried ei bod yn berthnasol i'r Farn ar gyfer eleni.

Fel y nodwyd uchod, mae'r canlyniadau manwl hyn wedi cael eu cydgrynhoi i greu darlun o sicrwydd ar draws y sefydliad.

Wrth ddod i'r casgliad yma, rydym wedi nodi bod rhan fwyaf yr adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi diweddu'n bositif, gyda threfniadau rheoli cadarn yn gweithredu mewn rhai meysydd.

O'r barnau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd Sicrwydd Sylweddol i dair ohonynt a dyrannwyd Sicrwydd Rhesymol i saith ohonynt. Ni ddyrannwyd barn 'dim sicrwydd' i unrhyw adroddiadau.

Yn ogystal, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried amlygiad i risgiau sy'n anodd cael gwared arnyn nhw ar draws yr aseiniadau hynny lle yr adroddwyd bod sicrwydd cyfyngedig. At hynny, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried yr effaith lle na arweiniodd aseiniadau archwilio a gynlluniwyd eleni at archwiliadau llawn yn dilyn gwaith cynllunio rhagarweiniol ac roedd y rhain naill ai: wedi'u tynnu o'r cynllun; wedi'u tynnu o'r cynllun a rhoi archwiliad arall yn eu lle; neu wedi'u gohirio tan flwyddyn archwilio yn y dyfodol. Cyflwynwyd y rhesymau dros newidiadau i'r cynllun archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i'w hystyried a'u cymeradwyo. Er gwaethaf y ffaith bod y farn wedi'i chyfyngu i'r meysydd hynny a oedd yn destun adolygiad archwilio, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith newidiadau a wnaed i'r cynllun wrth lunio ei farn gyffredinol.

# CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

Rydym wedi adrodd ar y canfyddiadau gan ddefnyddio wyth maes gweithgareddau'r Awdurdod Iechyd Arbennig a ddefnyddiwn i strwythuro ein cynlluniau strategol 3 blynedd a'n cynlluniau gweithredol 1 flynedd.

## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, RHEOLI RISG A CHYDYMFFURFIAETH REOLEIDDIOL

Rydym wedi cynnal **dau** adolygiad yn y maes hwn.

Cwblhawyd adolygiad gennym o sefydlu'r trefniadau llywodraethu i gefnogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac, yn benodol, p'un a gydymffurfiwyd â gofynion y Rheolau Sefydlog. Adroddwyd ar hyn yn yr archwiliad o'r enw archwiliad **Trefniadau Llywodraethu Rhan Un** (sicrwydd sylweddol). Ni chanfuom unrhyw faterion arwyddocaol, ond cydnabuwyd bod gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddatblygu'r broses rheoli risg. Gwnaethom argymhelliad i gefnogi'r broses hon ac argymhelliad arall i fonitro gweithrediad y Rheolau Sefydlog.

Teitl yr ail archwiliad mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu oedd archwiliad **Trefniadau Llywodraethu Rhan Dau** (sicrwydd rhesymol). Er bod Rhan Un yn canolbwyntio ar y Rheolau Sefydlog, roedd Rhan Dau yn adolygiad â phwyslais mwy penodol ar y trefniadau llywodraethu rheoli risg, monitro perfformiad a chynllunio strategol.

Yn gyffredinol, roedd y materion a oedd angen sylw rheolwyr yn cynnwys:

- cwblhau datganiadau gweledigaeth a chenhadaeth diwygiedig, a chysylltiadau ag amcanion strategol presennol a'u strategaethau, fframweithiau a rhaglenni ategol;
- gwelliant o ran adrodd i'r Bwrdd ar reoli perfformiad;
- gwelliant o ran cynllunio ac adrodd ar gydymffurfiaeth â'r Safonau Iechyd a Gofal; a
- mwy o ymgysylltiad gan y Bwrdd â'r camau proses sy'n ofynnol i gyflwyno adroddiadau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd o fis Mawrth 2022 ymlaen.

## SCYNLLUNIO STRATEGOL, RHEOLI PERFFORMIAD AC ADRODD

Rydym wedi cynnal **un** adolygiad yn y maes hwn.

Adolygodd archwiliad y **Cynllun Trosiannol** (sicrwydd rhesymol) y risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid o gorff a gynhelir (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) i Awdurdod Iechyd Arbennig (Iechyd a Gofal Digidol Cymru) a ph'un a oedd hyn wedi'i reoli'n effeithiol.

Ni chodwyd unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol, ond fe wnaethom argymell bod camau gweithredu'r prosiect yn cael eu holrhain i'r diwedd.

## LLYWODRAETHU A RHEOLI ARIANNOL

Rydym wedi cynnal **un** adolygiad yn y maes hwn.

Profodd yr adolygiad o archwiliad **Systemau Ariannol Craidd** (sicrwydd rhesymol) brosesau ariannol allweddol (rheolaeth gyllidebol, trefniadau bancio, caffael a defnyddio staff asiantaeth).

Gwnaethom argymhellion ynghylch:

- y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Weithdrefn Rheolaeth Ariannol, i sicrhau eu bod yn cael eu bodloni'n llawn at ddibenion rheolaeth gyllidebol;
- trosglwyddiadau cyllideb a awdurdodwyd yn ffurfiol; a
- ceir cadarnhad o wiriadau cyn cyflogaeth gan gyflenwyr, cyn i staff asiantaeth ddechrau gweithio.

## ANSAWDD A DIOGELWCH

Nid ydym wedi cynnal unrhyw adolygiadau yn y maes hwn.

## LLYWODRAETHU A DIOGELWCH GWYBODAETH

Rydym wedi cynnal **pedwar** adolygiad yn y maes hwn.

Adolygodd yr archwiliad **Trosglwyddo Canolfan Ddata** (sicrwydd sylweddol) broses y prosiect ar gyfer trosglwyddo'r ganolfan ddata o Ganolfan Ddata Blaenafon i'r lleoliad data newydd. Ni wnaethom unrhyw argymhellion.

Adolygodd yr archwiliad **Gwybodaeth** (sicrwydd rhesymol) y trefniadau ar gyfer gwneud y defnydd mwyaf posibl o ddadansoddeg data, mewn modd priodol a diogel. Gwnaethom argymhellion ynghylch y canlynol:

- llofnodi cytundeb y defnyddiwr ac na chedwir y fanyleb wybodaeth yn ffurfiol bob amser;
- nid yw anghenion yr adran yn y dyfodol a'r offer a'r seilwaith cysylltiedig wedi'u diffinio'n llawn;
- nid yw detholiadau data o'r systemau gofal sylfaenol yn destun gweithdrefnau ffurfiol;
- ni chaiff camau sicrhau ansawdd ac asesu preifatrwydd eu cadw'n ffurfiol bob amser; a
- nid yw defnydd o'r cynhyrchion gwybodaeth ac adborth defnyddwyr arnynt wedi'u cynnwys mewn adroddiadau ffurfiol.

Profodd yr archwiliad o **System Gwybodaeth Radioleg Cymru (WRIS)** (sicrwydd rhesymol) ddigonolrwydd y prosesau ar gyfer rheoli WRIS a'r data a gedwir. Gwnaethom yr argymhellion canlynol:

- nid yw'r broses monitro perfformiad yn adolygu ac yn adrodd ar berfformiad y system;
- sefydliadau defnyddwyr lleol sy'n rheoli'r gronfa ddata ac felly ni all Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn sicr o'r rheolaethau drostynt;
- nid yw lefel yr adnoddau o fewn tîm WRIS yn ddigonol i ganiatáu ar gyfer datblygu a gweithredu'r holl newidiadau sy'n ofynnol; ac
- mae gosod rheolaethau cyfrinair penodol wedi'i ddatganoli i sefydliadau defnyddwyr.

Asesodd yr archwiliad **Datblygu System** (sicrwydd rhesymol) y trefniadau sydd ar waith ar gyfer datblygu a chynnal cymwysiadau ar gyfer GIG Cymru yn ddiogel.

Gwnaethom argymhelliad nad oes unrhyw ddarpariaeth hyfforddiant strwythuredig, bod newidiadau i'r gweithdrefnau sydd wedi'u storio a'r cod lleol yn cael eu rheoli gan y Tîm Cymorth ar gyfer WRIS ac nid y Tîm Datblygu a bod gwiriadau diogelwch rheolaidd ar y cod yn cael eu datblygu.

## GWASANAETH GWEITHREDOL A RHEOLAETH SWYDDOGAETHOL

Rydym wedi cynnal **un** adolygiad yn y maes hwn.

Roedd yr archwiliad **Prosiect Caffael System Meddygon Teulu** (sicrwydd sylweddol) yn adolygiad o'r trefniadau prosiect sydd ar waith. Ni chodwyd unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol, ond fe wnaethom argymell bod y gofrestr risg yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

## RHEOLI'R GWEITHLU

Rydym wedi cynnal **dau** adolygiad yn y maes hwn.

Adolygodd yr archwiliad **Gweithlu** (sicrwydd rhesymol) y broses ar gyfer recriwtio staff. At ei gilydd, rydym wedi canfod bod gwiriadau ar gyfer staff parhaol yn cael eu cynnal, bod craffu digonol ar rolau cyn i gyllid gael ei gymeradwyo a bod pob rôl yn y band priodol.

Fodd bynnag, fe wnaethom argymell bod y cynllun adnoddau ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael ei ddiweddaru a bod adolygiad o'r Gofrestr Gwiriadau Cyn Cyflogaeth ar gyfer staff asiantaeth yn cael ei gwblhau, i benderfynu a oes ei hangen o hyd neu a yw'n cyflawni ei swyddogaeth arfaethedig.

## RHEOLI CYFALAF AC YSTADAU

Nid ydym wedi cynnal unrhyw adolygiadau yn y maes hwn.

# ADOLYGIAD LLYWODRAETHU SYLFAENOL ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol statudol yr Awdurdod Iechyd Arbennig, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau ar ei ran. Ers 1 Ebrill 2020, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel Archwilio Cymru. Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (2004):

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd iddo gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni ei hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a'u bod yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni ei hun bod yr Awdurdod Iechyd Arbennig wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Er mwyn helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal gwaith Asesiad Strwythuredig blynyddol ym mhob un o gyrff y GIG sy'n archwilio trefniadau yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol, rheolaeth ariannol, cynllunio strategol, a ffactorau eraill sy'n effeithio ar y ffordd y mae cyrff y GIG yn defnyddio eu hadnoddau.

Gan fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sefydliad statudol newydd ei sefydlu, ac mewn trafodaeth â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, nodwyd y byddai asesiad sylfaenol cychwynnol trwy Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol yn cael ei gynnal ar gyfer 2021/22. Dilynir hyn gan Asesiad Strwythuredig yn 2022/23.

Nod cynnal Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol yw helpu'r sefydliad i ddysgu a datblygu. Nod y gwaith a wneir gan Archwilio Cymru yw ateb y cwestiwn cyffredinol: a yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cynnydd da o ran rhoi trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau?

Daethpwyd i'r casgliad cyffredinol: **"Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran rhoi trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau mewn amgylchiadau gweithredu heriol".**

Ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol fel rhan o'r adolygiad, ond tynnwyd sylw at nifer fach o gyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella i'r Bwrdd eu hystyried a gwnaed nifer o arsylwadau y bydd y Bwrdd am fyfyrio arnynt a'u hadolygu'n barhaus. Crynhoir y rhain isod:

- Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyfle i ymestyn ei frand fel Partner Digidol Dibynadwy, gan fanteisio ar ystod amrywiol o aelodau annibynnol profiadol o'r sector cyhoeddus a masnachol i ddod â syniadau newydd a dull arwain ffres.
- Gallai'r Bwrdd fanteisio ar y cyfleoedd i arwain arloesedd mewn meysydd newydd, er enghraifft:
  - Cyfathrebu ac ymgysylltu;
  - Galluogi iechyd a gofal yn ddigidol; ac
  - Offer cefnogi penderfyniadau
- Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn datblygu arddull tŷ penodol ar gyfer adroddiadau a dogfennau hawdd eu darllen a'u deall. Gellid profi ac ymestyn hyn ymhellach.
- Efallai y bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru am ystyried cyfleoedd i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ymhellach trwy sicrhau bod recordiadau o gyfarfodydd Pwyllgor ar gael ar ei wefan.
- Adolygu'n barhaus y ffaith nad oes cyfrifydd cymwysedig ymhlith yr Aelodau Annibynnol.
- Mae angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru symud ymlaen â gwaith ar strategaeth y sefydliad i egluro ei weledigaeth a'i amcanion hirdymor yn well.
- Wrth i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddatblygu ei bartneriaethau allanol, mae cyfle i gasglu a defnyddio data naratif yn systematig i gefnogi cyd-ddylunio a darparu rhaglenni, gan greu mwy o werth a gwireddu buddion fel 'partner digidol dibynadwy' ac arweinydd y diwylliant digidol newydd yng Nghymru.

Gweithredwyd yr argymhellion gan Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru ynghyd ag ymateb y rheolwyr ac fe'u cofnodir yn yr Olrheiniwr Archwilio, a dderbynnir ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

## ANSAWDD DATA

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd y wybodaeth a'r data a ddarperir i'r Bwrdd yn cael eu hadolygu'n barhaus ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a gwnaed rhai diwygiadau i'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn ystod y flwyddyn i roi mwy o eglurder.

## CASGLIAD

Fel y nodwyd trwy gydol y datganiad hwn a'r Adroddiad Blynyddol, mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG ehangach a chymdeithas yn gyffredinol. Mae wedi gofyn am ymateb deinamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â nifer o risgiau. Cyfrifoldeb y sefydliad a'r gymdeithas ehangach fydd ymateb i'r pandemig ac adfer ohono trwy gydol 2021/2021 a thu hwnt. Byddaf yn parhau i sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021–20 Mai 2022, ni nodwyd unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu sylweddol. Mae hyn oherwydd bod systemau rheolaeth fewnol cadarn wedi'u sefydlu. Cydnabyddir y bydd angen gwneud rhagor o waith yn 2022/23 i ddatblygu'r trefniadau hyn ymhellach. Bydd yn bwysig cyfathrebu'n eang â staff er mwyn gwreiddio'r trefniadau hyn ymhellach wrth i'r sefydliad ddatblygu.

Llofnodwyd gan Helen Thomas

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol:

Dyddiad:

# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR AR GYFER Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn i'w gweld yn y tablau a'r tudalennau yn yr adroddiad blynyddol y manylir arnynt isod:

## CYFANSODDIAD Y BWRDD AC AELODAETH

Cyfansoddiad y Bwrdd: Mae Atodiad 1 yn rhoi gwybodaeth fanwl am gyfansoddiad y Bwrdd, gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau annibynnol, sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Mae hyn yn cynnwys enwau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae Tabl 1 hefyd yn cynnwys enwau'r cyfarwyddwyr sy'n ffurfio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae Atodiad 1 hefyd yn manylu ar y cyfarfodydd a fynychwyd yn ystod y flwyddyn a'r rolau hyrwyddwr y cytunwyd arnynt gan Aelodau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, gellir gweld bywgraffiadau byr o holl Aelodau'r Bwrdd ar wefan yr Awdurdod Iechyd Arbennig.

## COFRESTR O FUDDIANNAU

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau teg a chyfiawn yn cael eu gwneud, mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau a allai wrthdaro â chyfrifoldebau'r sefydliad. Caiff ei diweddaru'n rheolaidd a'i derbyn gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar ran y Bwrdd, ac fe'i cyhoeddir ar wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru **o dan ddogfennau allweddol**. Gellir cael copi caled gan Ysgrifennydd y Bwrdd ar gais.

## DIGWYDDIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL

Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol a adroddwyd yn ffurfiol i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffafriol difrifol" yn ymwneud â cholli data neu dorri cyfrinachedd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## MATERION AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

Mae manylion strategaeth ddatgarboneiddio Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i gynnydd yn hynny o beth ar gael yn yr **Adroddiad Perfformiad.**

## DATGANIAD AR GYFER DEILIAID GWYBODAETH Y SECTOR CYHOEDDUS

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion codi tâl a nodir yng nghanllaw Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Awdurdod Iechyd Arbennig.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu manylu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gallaf gadarnhau:

- Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, ac fy mod i fel y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi cadarnhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

- Bod adroddiad blynyddol a chyfrifon Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr sy'n fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r cyfrifon hyn roi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod Iechyd Arbennig ac o incwm a gwariant yr Awdurdod Iechyd Arbennig ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiad.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd

Llofnodwyd:

Cadeirydd

Dyddiad

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad

Cyfarwyddwr Cyllid

Dyddiad

# ADRODDIAD AR DÂL CYDNABYDDIAETH A STAFF

## ADRODDIAD AR DÂL CYDNABYDDIAETH

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â thâl yr uwch reolwyr a gyflogir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Y diffiniad o "Uwch Reolwr" yw: 'yr unigolion hynny mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfanrwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.' O ran Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ystyrir mai'r uwch reolwyr yw mynychwyr rheolaidd cyfarfodydd y Bwrdd, h.y. Aelodau o'r Tîm Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol.

Mae trefniadau cyflog presennol y sector cyhoeddus yn gymwys i bob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Gweithredol.

Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol ar bwyntiau cyflog yn hytrach na graddfeydd cyflog.

Mae perfformiad y Tîm Gweithredol yn cael ei asesu yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol yr Awdurdod Iechyd Arbennig. Nid yw'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn gweithredu cynllun tâl cysylltiedig â pherfformiad.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol neu gyfnod penodol, y gellir eu terfynu trwy roi rhybudd priodol oni bai am resymau o gamymddygiad.

Ni fu unrhyw daliadau i gyn Weithredwyr neu i gyn uwch-reolwyr eraill yn ystod y flwyddyn.

Gall y cyfansymiau yn rhai o'r tablau canlynol fod yn wahanol i'r rhai yn y Cyfrifon Blynyddol gan eu bod yn cynrychioli staff yn y swydd ar 31 Mawrth 2022 tra bod y Cyfrifon Blynyddol (nodyn 9.2) yn dangos nifer y gweithwyr ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ddogfen Tryloywder Tâl Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru – Canllaw i Fynd i'r Afael ag Arferion Cyflogaeth Annheg a Hunangyflogaeth Ffug i'w gweld **gov.wales.**

## PWYLLGOR TÂL A THELERAU GWASANAETH

Mae'r cyflog a'r telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer y Tîm Gweithredol a'r uwch-reolwyr wedi cael, ac yn mynd i gael eu pennu gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae aelodau Pwyllgor Tâl yr Awdurdod Iechyd Arbennig i gyd yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd. Cadeirydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Adolygir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn flynyddol. Ceir manylion am aelodaeth y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn **Atodiad 1.**

# DATGELIADAU CYFLOG A PHENSIYNAU

## TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (HEB EU HARCHWILIO) – FFIGUR CYFANSWM TALIAD SENGL

Mae'r Adroddiad hwn ar Daliadau yn cynnwys ffigur cyfanswm taliad sengl. Mae swm y buddiannau pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at gyfanswm y ffigur sengl yn cael ei gyfrifo ar sail y canllawiau a ddarperir gan Asiantaeth Pensiynau Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r swm a gynhwysir yn y tabl ar gyfer buddiannau pensiwn yn seiliedig ar y cynnydd mewn pensiwn cronedig wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant. Bydd hyn yn gyffredinol yn cymryd i ystyriaeth blwyddyn ychwanegol o wasanaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau mewn cyflog pensiynadwy. Nid yw hyn yn swm sydd wedi cael ei dalu i unigolyn gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddiannau pensiwn. Gall y ffigurau hyn gael eu dylanwadu gan sawl ffactor e.e. newidiadau mewn cyflog unigolyn, p'un a ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u cyflog, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

Mae'r datgeliadau cyflogau a phensiynau yn adlewyrchu gwybodaeth yr uwch-reolwyr. Yn 2021/22, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, y Cyfarwyddwr Datblygu Cymwysiadau a Chymorth, y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

### TABL 1 - FFIGUR CYFANSWM TÂL SENGL

| Enw | (a) Cyflog (£'000) **£5k Bandiau** | (b) Taliadau bonws (£'000) **£5k Bandiau** | (c) Buddiant mewn nwyddau **£** (i'r £100 agosaf) | (d) Buddiannau pensiwn **£'000** (i'r £1000 agosaf) | (e) Cyfanswm £'000 **£5k Bandiau** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr** | | | | | |
| Helen Thomas | 150 - 155 | - | - | *** | 150 - 155 |
| Claire Osmundsen-Little | 120 - 125 | - | - | *** | 120 - 125 |
| Chris Darling | 75 - 80 | - | - | *** | 75 - 80 |
| Rhidian Hurle | 155 - 160 | - | - | *** | 155 - 160 |
| Michelle Sell | 90 - 95 | - | - | *** | 90 - 95 |
| Carwyn Lloyd-Jones | 105 - 110 | - | - | *** | 105 - 110 |
| Gary Bullock (1) | 25 - 30 | - | - | *** | 25 - 30 |
| Meirion George (2) | 95 - 100 | - | - | *** | 95 - 100 |

(1) Ymddeolodd Gary Bullock ar 30 Mehefin 2021

(2) Dechreuodd Meirion George ar 5 Mai 2021

*** Gan mai dim ond ar 1 Ebrill 2021 y daeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwbl weithredol, nid yw'n bosibl cynnwys ffigurau buddion pensiwn y flwyddyn flaenorol ar gyfer yr Uwch Reolwyr. Bydd datgeliad llawn yn cael ei wneud yn Adroddiad Tâl 2022-23

| Enw | (a) Cyflog (£'000) £5k Bandiau | (b) Taliadau bonws (£'000) £5k Bandiau | (c) Buddiant mewn nwyddau **£** (i'r £100 agosaf) | (d) Buddiannau pensiwn **£'000** (i'r £1000 agosaf) | (e) Cyfanswm £'000 **£5k Bandiau** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr Anweithredol** | | | | | |
| Simon Jones (3) | 20 - 25 | - | - | - | 20 - 25 |
| Robert Hudson (4) | 20 - 25 | - | - | - | 20 - 25 |
| Marian Jones | 5 - 10 | - | - | - | 5 - 10 |
| Sian Doyle (5) | 5 - 10 | - | - | - | 5 - 10 |
| Ruth Glazzard | 20 - 25 | - | - | - | 20 - 25 |
| David Selway | 5 - 10 | - | - | - | 5 - 10 |
| Rowan Gardener | 5 - 10 | - | - | - | 5 - 10 |
| Grace Quantock | 5 - 10 | - | - | - | 5 - 10 |

(3) Dechreuodd Simon Jones ar 1 Hydref 2021

(4) Gadawodd Robert Hudson ar 30 Medi 2021

(5) Gadawodd Sian Doyle 30 Tachwedd 2021

# GWERTHOEDD TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD Y DATGELIAD CYFLOGAU A PHENSIYNAU

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafedig buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddiannau y pennir eu gwerth yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn dichonol sydd i'w dalu o'r cynllun i ŵr neu wraig.

Taliad yw'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn, i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod, o ganlyniad iddo ef neu hi brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Cyfrifir y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a gynigir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid. CYNNYDD GWIRIONEDDOL MEWN GWERTH TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Mae'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**TABL 2 - TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (WEDI'U HARCHWILIO) – FFIGUR CYFANSWM TALIAD SENGL Buddiannau Pensiwn 2021-22**

| Enw a Theitl | (a) Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500) £000 | (b) Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500) £000 | (c) Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,000) £000 | (ch) Cyfandaliad ar oedran pensiwn yn gysylltiedig â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,000) £000 | (d) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 1 Ebrill 2021 £000 | (dd) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 £000 | (e) Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod £000 | (f) Cyfraniad y cyflogwr at bensiwn cyfranddeiliaid £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ms Helen Thomas<br>Prif Swyddog Gweithredol | *** | *** | 55 - 60 | 125 - 130 | *** | 1,052 | *** | *** |
| Ms Claire Osmundsen-Little<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | *** | *** | 10 - 15 | - | *** | 132 | *** | *** |
| Mr Chris Darling<br>Ysgrifennydd y Bwrdd | *** | *** | 20 - 25 | 30 - 35 | *** | 625 | *** | *** |
| Mr Rhidian Hurle<br>Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | *** | *** | 50 - 55 | 105 - 110 | *** | 989 | *** | *** |
| Ms Michelle Sell<br>Prif Swyddog Gweithredol | *** | *** | 30 - 35 | 60 - 65 | *** | 564 | *** | *** |
| Dr Carwyn Lloyd-Jones<br>Cyfarwyddwr TGCh | *** | *** | 25 -30 | 45 - 50 | *** | 465 | *** | *** |
| Mr Gary Bullock<br>Cyfarwyddwr ADS | *** | *** | 45 - 50 | 135 - 140 | *** | - | *** | *** |
| Mrs Meirion George<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol ADS | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL |

*** Gan mai dim ond ar 1 Ebrill 2021 y daeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwbl weithredol, nid yw'n bosibl cynnwys ffigurau buddion pensiwn y flwyddyn flaenorol ar gyfer yr Uwch Reolwyr. Bydd datgeliad llawn yn cael ei wneud yn Adroddiad Tâl 2022-23

# PERTHYNAS TÂL CYDNABYDDIAETH

Adroddir ar fanylion y Berthynas Tâl yn ddiweddarach yn yr Adroddiad Atebolrwydd a nodyn 9.6.1 yn y Cyfrifon Blynyddol.

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr/gweithiwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a'r 25ain canradd, canolrif a 75fed canradd o dâl cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad. Blwyddyn ariannol 2021-22 yw'r datgeliadau blwyddyn gyntaf mewn perthynas â'r gymhareb cyflog o 25ain canradd ac mae angen cymhareb cyflog o 75fed canradd.

Yn y cyfnod gweithredol 2021-22, derbyniodd 0 gweithiwr dâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf.

Roedd y taliadau ar gyfer pob aelod o staff yn amrywio o £20,330 i £155,403.

Mae'r gymhareb cyflog canolrifol ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol yn gyson â'r polisïau cyflog, gwobrwyo a dilyniant ar gyfer gweithwyr yr endid yn eu cyfanrwydd.

Nid yw cymarebau blwyddyn flaenorol ar gael i allu cymharu.

**TABL 3 - MAE'R HOLL YSTOD STAFF YN CYNNWYS CYFARWYDDWYR (gan gynnwys y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) ac nid yw'n cynnwys buddion pensiwn yr holl weithwyr.**

| | 2021 -2022 | 2021 -2022 | 2021 -2022 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm cyflog a buddion** | **Prif Weithredwr** | **Gweithiwr** | **Cymhareb** |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 152.5 | 28.9 | 5.3:1 |
| Cyflog canolrifol | 152.5 | 38.5 | 4.0:1 |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 152.5 | 46.9 | 3.3:1 |
| **Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a buddions** | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 152.5 | 27.8 | 5.5:1 |
| Cyflog canolrifol | 152.5 | 34.2 | 4.5:1 |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 152.5 | 45.8 | 3.3:1 |

| Cyfanswm cyflog a buddion | Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf | Gweithiwr | Cymhareb |
|---|---|---|---|
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 157.5 | 28.9 | 5.4:1 |
| Cyflog canolrifol | 157.5 | 38.5 | 4.1:1 |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 157.5 | 46.9 | 3.4:1 |
| **Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a buddion** | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 157.5 | 27.8 | 5.7:1 |
| Cyflog canolrifol | 157.5 | 34.2 | 4.6:1 |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 157.5 | 45.8 | 3.4:1 |

# ADRODDIAD STAFF



## NIFER YR UWCH AELODAU STAFF

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 6 uwch aelod o staff yn aelodau o'r Tîm Gweithredol; roeddent hefyd yn aelodau o'r Bwrdd neu'n fynychwyr rheolaidd. Bu symudiad o fewn y flwyddyn a nodir yn Atodiad 1.

### TABL 4 - DADANSODDIAD O NIFER Y STAFF FESUL GRŴP

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru fesul grŵp o 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Yr unig grŵp staff yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw Gweinyddol a Chlercyddol ac Aelodau'r Bwrdd.

| Grŵp Staff | Cyflogedig Parhaol a Chyfnod Penodol Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) | Asiantaeth CALl | Staff ar secondiad mewnol CALl | 2021/22 Cyfanswm CALl |
|---|---|---|---|---|
| Gweinyddol, Clercyddol ac Aelodau'r Bwrdd | 878 | 8 | 4 | 890 |

### TABL 5 - DADANSODDIAD O'R BWRDD YN ÔL RHYWEDD

Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad cyfan CALl o'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2022.

| | Rhywedd | |
|---|---|---|
| Swydd | Benyw | Gwryw |
| Ysgrifennydd y Bwrdd | | 1 |
| Cadeirydd | | 1 |
| Prif Swyddog Gweithredol | 1 | |
| Prif Swyddog Gweithredu | 1 | |
| Cyfarwyddwr TGCh | | 1 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 1 | |
| Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | | 1 |
| Aelod Annibynnol | 3 | 1 |
| Aelod Annibynnol – Is-gadeirydd | 1 | |
| Cyfanswm Terfynol | 7 | 5 |
| % o'r cyfanswm | 58% | 42% |

### TABL 6 -DADANSODDIAD O'R TÎM GWEITHREDOL AR SAIL RHYWEDD O GYMHARU Â GWEITHWYR ERAILL

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm CALl y swyddogion gweithredol o gymharu â gweithwyr eraill ar 31 Mawrth 2022

| Cyfansoddiad Staff ar 31 Mawrth 2022 (cyfrif pennau) | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Uwch Staff (Tîm Gweithredol) | 3 | 3 |
| Gweithwyr Eraill | 375 | 563 |
| Holl staff | 378 | 566 |
| % Holl staff | 40% | 60% |

# DATA ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH


Mae tîm y Gweithlu yn gweithio gyda Chyfarwyddiaethau i gefnogi a rheoli lles staff ac absenoldeb oherwydd salwch. Datblygir adroddiadau perfformiad misol ar gyfer Cyfarwyddiaethau a chydweithwyr Gweithredol i fonitro salwch ac absenoldeb oherwydd salwch COVID. Mae ymyriadau i gefnogi rheolwyr wedi'u cysoni â rhesymau dros salwch er mwyn sicrhau ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi staff.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn cynnig Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol i staff a mynediad at Raglen Gymorth i Weithwyr, y gall aelodau teulu ei defnyddio am ddim hefyd. Y prif resymau dros absenoldeb oherwydd salwch ar draws y sefydliad yn ystod 2021/2022 oedd Straen/Gorbryder ac Iselder a COVID. Mae Grŵp Iechyd a Lles Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyfarfod bob deufis i sicrhau ein bod yn adolygu'r cymorth llesiant a gynigiwn i'n staff yn barhaus.

Mae'r data'n dangos y lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn ystod 2021/22. Y gyfradd gyfredol ar 31 Mawrth 2022 yw 3.84%.

## TABL 7 - DADANSODDIAD BLYNYDDOL O ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH

Mae'r tabl canlynol yn dangos % yr absenoldebau oherwydd salwch CALl fesul mis




Canran absenoldeb oherwydd salwch 21/22

## TABL 8 - NIFER Y DIWRNODAU A GOLLWYD OHERWYDD SALWCH

| Disgrifiad | Ar 31 Mawrth 22 | Cyfwerth ag amser llawn (CALl) |
|---|---|---|
| Diwrnodau a gollwyd (hirdymor) | 5426 | 5325.3 |
| Diwrnodau a gollwyd (tymor byr) | 3258 | 3182.4 |
| Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd | 8684 | 8507.68 |
| **Diwrnodau Gwaith Cyfartalog a Gollwyd** | **9 diwrnod** | **9 diwrnod** |
| Cyfanswm y Staff a gyflogwyd yn y cyfnod | 969 | 944 |
| Cyfanswm y staff a gyflogir heb unrhyw absenoldeb | 502 | 509.3 |
| % dim absenoldeb oherwydd salwch | 53% | |

# POLISÏAU A WEITHREDWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL

Ar 1 Ebrill 2021, mabwysiadodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru bolisïau presennol Cymru Gyfan ac o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) y polisïau sydd ar waith yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae'r rhain i'w gweld ym mhapurau Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ar ein gwefan yma.

Mae asesiad yn cael ei gynnal ar holl bolisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Iechyd Arbennig o'u heffaith ar gydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchodedig, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n gwneud cais i weithio yn yr Awdurdod Iechyd Arbennig neu sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael trwy wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mabwysiadwyd a gweithredwyd polisïau ychwanegol drwy gydol y flwyddyn, ac maen nhw fel a ganlyn:

- Polisi Secondiad Cymru Gyfan
- Polisi Parch a Datrys Cymru Gyfan
- Hyfforddi a Galw i Wasanaethu gyda'r Lluoedd wrth Gefn (Cymru Gyfan)
- Polisi Cyfathrebu a Rheoli'r Cyfryngau
- Polisi Gwrthfaleiswedd
- Gweithdrefn Rheoli Cyfalaf
- Polisi Diogelwch a Gwrthderfysgaeth
- Polisi Diogelwch Dŵr

Roedd gweithio o bell ac mewn ffordd hybrid yn ystod y flwyddyn yn golygu bod ffyrdd o weithio wedi esblygu ar draws y sefydliad, a rhoddwyd ffocws parhaus ar sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cymryd rhan a bod eu barn yn cael ei hystyried. Cynhaliwyd sesiynau briffio staff gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a gwesteion amrywiol bob chwe wythnos i rannu gwybodaeth. Ceisiwyd safbwyntiau trwy arolwg gweithio gartref a lles a gynhaliwyd hanner ffordd drwy'r flwyddyn i sicrhau bod y gweithgor ffyrdd newydd o weithio yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ar gamau gweithredu a oedd yn ymateb i'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolwg.

# IECHYD A LLES, CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Roedd iechyd a lles staff yn flaenoriaeth bwysig i'r sefydliad drwy gydol 2021-22. Llwyddwyd i gadw ein Safon Iechyd Corfforaethol Aur ym mis Ionawr 2022 yn ogystal ag ail-ardystio BS76000 Gwerthfawrogi Pobl a BS76005 Gwerthfawrogi Pobl trwy Safonau Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae cydweithwyr yn y gweithlu yn parhau i gefnogi amrywiaeth o Safonau ISO ac wedi ymrwymo i fod yn esiampl yn y maes hwn. Yn y dyfodol, bydd y sefydliad yn cefnogi'r ISO30415 newydd ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn adeiladu ar y sylfeini da a'r cyflawniadau sydd eisoes ar waith gan fod cydraddoldeb, tegwch ac amrywiaeth y gweithlu yn un o ymrwymiadau allweddol Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Fel sefydliad, fe wnaethom gynnal a chyfeirio at ystod eang o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn i gefnogi Iechyd a Lles, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a hyrwyddwyd gan y grŵp Iechyd a Lles ac a nodwyd ar ein tudalen grŵp SharePoint. Fe wnaethom gynnal a chefnogi gweithgareddau i gefnogi'r canlynol:

- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- LHDTC+ a'r Menopos
- Mis Hanes LHDTC+
- Wythnos Cydraddoldeb GIG Cymru
- Dydd Gŵyl Dewi
- PRIDE
- Diwrnod Rhyngwladol y Dynion
- Diwrnod Ymwybyddiaeth o Ddyslecsia
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Gweminar fewnol Mae Bywydau Du o Bwys

Darparwyd ystod o adnoddau lleol a chenedlaethol i gefnogi staff ar amrywiaeth o bynciau:

- Cyngor ar weithio gartref
- Ystafell Les Rithwir
- Ymwybyddiaeth o Alcohol
- Cam-drin Domestig
- Gwybodaeth Hamdden a Ffitrwydd
- Ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau
- Rhoi'r Gorau i Ysmygu
- Cymunedau Yammer (Fforymau rhwydweithio cymdeithasol)
- Cymorth mewn profedigaeth
- Cymorth i'r rhai sy'n ynysig ac yn unig
- Gwybodaeth ac Adnoddau sy'n benodol i staff BAME
- Cysylltiadau ag Undebau Llafur a Sefydliadau Proffesiynol eraill
- Iechyd a Lles Cyffredinol
- Llinellau Cymorth

Ar draws Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hyfforddedig sydd ar gael i siarad â staff yn gyfrinachol pan fydd arnynt angen cymorth. Mae ardal benodol ar SharePoint a Microsoft Teams (ystafell les rithwir) sy'n darparu gwybodaeth am sut i gael mynediad at y gwasanaeth ac adnoddau iechyd meddwl a lles eraill.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i gynhwysiant, a chynhaliwyd gwaith yn 2021 a arweiniwyd gan staff i ddiffinio ffurf hynny a sut gall y sefydliad ddod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol yn fewnol ac yn y gwasanaethau a ddarperir ganddo.

# ADRODD AR GYNLLUNIAU IAWNDAL ERAILL - PECYNNAU YMADAEL

Yn ystod 2021/2022, cymeradwywyd pecyn ymadael ar gyfer 1 aelod o staff gwerth £14,442. Talwyd y costau ymadael yn 2021/2022, sef y flwyddyn ymadael. Talwyd y pecyn hwn yn unol â thelerau ac amodau gwasanaeth cydnabyddedig y GIG/Polisi'r Awdurdod Iechyd Arbennig. Nid oedd y pecyn hwn yn ymwneud ag uwch swyddog.

# CYNLLUN GWERTHU GWYLIAU BLYNYDDOL

Mae sefydliadau'r GIG a chydweithwyr Undebau Llafur wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cynllun i ganiatáu i unigolion werthu gwyliau blynyddol nas defnyddiwyd o fewn blwyddyn wyliau 2021/22.

Roedd y cynllun yn galluogi unigolion i werthu hyd at 10 diwrnod o wyliau blynyddol o'u hawl i wyliau blynyddol yn 2021/22, gan gynnwys unrhyw wyliau a gariwyd drosodd o flynyddoedd gwyliau blynyddol blaenorol. Ar gyfer staff Meddygol a Deintyddol, roedd hyn yn berthnasol i'r flwyddyn wyliau a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021.

Y cyfanswm a dalwyd mewn perthynas â gwyliau blynyddol nas defnyddiwyd oedd £0.230m ar gyfer y flwyddyn ariannol, talwyd £0.082m yn ystod y flwyddyn ariannol a threfnwyd i'r balans o £0.148m gael ei dalu yn 2022/23.

# GWARIANT AR WASANAETHAU YMGYNGHOROL

Yn ystod 2021/2022, gwariodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig £0.903m o'i gyllid refeniw ar wasanaethau ymgynghori allanol.

At ddiben y cyfrifon statudol, diffinnir ymgynghoriaeth fel aseiniadau â therfyn amser/ad-hoc sy'n ymwneud â darparu cyngor proffesiynol a strategol ac na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i weithgareddau sy'n darparu cynhyrchion digidol.

Dyma rai enghreifftiau:

- Ffioedd Cyfrifeg a Masnachol
- Ffioedd cyfreithiol
- Ffioedd dylunio
- Ymgynghoriaeth a chyngor TG

# SICRWYDD TRETH AR GYFER YMRWYMIADAU ODDI AR AR Y GYFLOGRES

Yn dilyn Adolygiad o'r Trefniadau Treth ar gyfer Penodiadau'r Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar 23 Mai 2012, mae'n ofynnol i adrannau gyhoeddi gwybodaeth am eu swyddi sydd â thâl uchel a/neu uwch swyddi nad ydynt ar y gyflogres. Mae'r wybodaeth, sydd wedi'i chynnwys yn y tri thabl isod, yn cynnwys yr holl ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2021 ar gyfer y rhai sy'n ennill mwy na £245 y dydd ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig craidd ac unrhyw sefydliadau a gynhelir.

**TABL 9 - POB PENODIAD ODDI AR Y GYFLOGRES AR 31 MAWRTH 2022, AM FWY NA £245 Y DYDD**

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2022 | 32 |
| O'r rheiny, y nifer sydd wedi bodoli: | |
| am lai na blwyddyn ar yr adeg adrodd. | 16 |
| am rhwng un a dwy flynedd ar yr adeg adrodd. | 15 |
| am rhwng dwy a thair blynedd ar yr adeg adrodd. | 1 |
| am rhwng tair a phedair blynedd ar yr adeg adrodd. | 0 |
| am bedair blynedd neu fwy ar yr adeg adrodd. | 0 |

O fewn cyfanswm nifer y penodiadau a ddatgelwyd nad oeddent ar y gyflogres, roedd un ar ddeg o'r penodiadau yn ymwneud â staff oedd ar secondiad o sefydliadau eraill GIG Cymru.

Mae'r holl benodiadau oddi ar y gyflogres, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad yn seiliedig ar risg ar ryw adeg, i weld p'un ai fod angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth, a lle bo angen, y gofynnwyd am y sicrwydd hwnnw.

**TABL 10 - POB PENODIAD NEWYDD ODDI AR Y GYFLOGRES RHWNG 1 EBRILL 2021 A 31 MAWRTH 2022, AM FWY NA £245 Y DYDD**

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau newydd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 | 15 |
| O'r rheiny… | |
| Nifer a aseswyd fel wedi eu dal gan IR 35 | 15 |
| Nifer a aseswyd fel heb eu dal gan IR 35 | 0 |
| Nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol (drwy PSC dan gontract i adran) ac sydd ar y | 0 |
| Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb / sicrwydd yn ystod y | 0 |
| Nifer y penodiadau a welodd newid i statws IR 35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb | 0 |

O fewn cyfanswm nifer y penodiadau newydd a ddatgelwyd nad oeddent ar y gyflogres, roedd 15 penodiad yn ymwneud â staff oedd ar secondiad o sefydliadau eraill GIG Cymru.

**TABL 1 1- UNRHYW BENODIADAU NAD OEDDENT AR Y GYFLOGRES AR GYFER AELODAU'R BWRDD, AC/NEU UWCH SWYDDOGION GYDA CHYFRIFOLDEB ARIANNOL SYLWEDDOL, RHWNG 1 EBRILL 2020 A 31 MAWRTH 2021**

| | |
|---|---|
| Nifer y penodiadau nad oeddent ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r bwrdd, ac/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | 0 |
| Nifer yr unigolion oedd wedi cael eu hystyried yn "aelodau'r bwrdd, ac/neu'n uwch swyddogion, gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys penodiadau ar, ac oddi ar y gyflogres. | 0 |

# DATGANIAD SICRWYDD

Cadarnhaf nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol nad yw Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni. Fel Prif Weithredwr, rwyf wedi cymryd pob cam i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Helen Thomas

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

14 Mehefin 2022

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru Digital Health and Care Wales

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDD CYMRU

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022**

## RHEOLEIDD-DRA'R GWARIANT

Rheoleidd-dra yw'r gofyniad i ymdrin â phob eitem o wariant a derbynebau yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdod dirprwyedig cymwys a rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth. Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sicrhau bod y cyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru wedi cael ei wario at y dibenion a fwriadwyd gan Weinidogion Cymru a bod yr adnoddau a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i'w defnyddio wedi cael eu defnyddio at y dibenion yr awdurdodwyd y defnydd ar eu cyfer. Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Atebol ac mae'n sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd a datgelwyd safonau cyfrifyddu cymwys ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt; ac
- eu paratoi ar sail busnes gweithredol ar y rhagdybiaeth y bydd gwasanaethau'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn parhau i weithredu.

## FFIOEDD A CHOSTAU

Pan fydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymgymryd â gweithgaredd nad yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael incwm i dalu ei gostau. Cyhoeddir rhagor o fanylion am yr incwm a dderbyniwyd yn y cyfrifon blynyddol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion codi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

## RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL O BELL

Rhwymedigaethau digwyddiadol o bell yw'r rhwymedigaethau hynny nad ydynt yn cael eu cydnabod fel traul na rhwymedigaeth wrth gefn oherwydd annhebygrwydd tâl canlyniadol yn erbyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Isod ceir manylion y rhwymedigaethau digwyddiadol o bell ar 31 Mawrth 2022.

| | 2021 - 2022 |
|---|---|
| Guarantees | Nil |
| Indemnities | Nil |

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD

## BARN AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglir a'u haddasir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 31 Mawrth 2022 a'i gostau gweithredu net ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglir a'u haddasir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM;

  ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

## BARN AM REOLEIDD-DRA

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## SAIL Y FARN

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y Deyrnas Unedig (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r

gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Moesegol y Cyngor Adrodd ar Faterion Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn i.

## CASGLIADAU SY'N YMWNEUD Â BUSNES HYFYW

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu am

gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

# GWYBODAETH ARALL

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn ddiamwys fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan mewn ffordd berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

# ADRODD AR OFYNION ERAILL

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar dâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi cael eu paratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

# CYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac ar gyfer rheolaeth fewnol o'r fath y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd heb unrhyw gamddatganiadau materol berthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r Bwrdd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu ble byddant yn gymwys, unrhyw faterion sy'n

berthnasol i fusnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai yr ystyrir hyn yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau materol berthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad materol berthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ymgodi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol berthnasol pe gellid disgwyl iddynt yn rhesymol, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau materol berthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwilir a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Cymru Digidol sy'n ymwneud â'r canlynol:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio[1] â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y maes a ganlyn: diystyru rheolwyr;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â risg twyll trwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu p'un a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

## CYFRIFOLDEBAU DROS REOLEIDD-DRA

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## ADRODDIAD

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
15 Mehefin 2022

24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

# DATGANIADAU ARIANNOL A NODIADAU 2021/22

## RHAGAIR

Paratowyd y cyfrifon hyn gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sef Awdurdod Iechyd Arbennig Cymru o dan atodlen 9 adran 178 paragraff 3(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42), ar y ffurf y mae Gweinidogion Cymru wedi'i chyfarwyddo, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae'r cyfrifon hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 30 Rhagfyr 2020 a 31 Mawrth 2022

## CEFNDIR STATUDOL

Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru trwy orchymyn sefydlu 2020 Rhif 1451 (W313) o dan adran 22 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("y Ddeddf"), a wnaed ar 7 Rhagfyr 2020 ac a ddaeth i rym ar 30 Rhagfyr 2020.

Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu ar ffurf gysgodol tan 1 Ebrill 2021 gyda'r holl gostau sefydlu a pharatoi yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyflawnodd y corff rhagflaenol, sef Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, weithgarwch gweithredol hyd at 31 Mawrth 2021.

Ar 1 Ebrill, trosglwyddwyd staff i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a daeth y sefydliad yn gwbl weithredol.

Mae'r cyfrifon hyn, er eu bod yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 30 Rhagfyr 2020 a 31 Mawrth 2022, yn cyflwyno'r trafodion cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod gweithredu byw rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn unig.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw'r ail Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru a grëwyd i symud y trawsnewidiad digidol sydd ei angen ar gyfer gwell iechyd a gofal yng Nghymru ymlaen, gan wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch a chynaliadwy wrth gefnogi iechyd a llesiant personol.

## RHEOLI PERFFORMIAD A CHANLYNIADAU ARIANNOL

Mae'n rhaid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gydymffurfio'n llawn â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys i'r graddau y mae'n berthnasol iddynt. O ganlyniad, y Prif Ddatganiad o incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn yw'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sy'n dangos y gost weithredu net a gafwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Dyrennir y cyllid hwn wrth ei dderbyn yn syth i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae gofyniad blynyddol ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y terfynau Adnoddau a Chyfalaf a osodwyd ar gyfer y flwyddyn.

Adroddir ar berfformiad yn erbyn y terfynau hyn yn Nodyn 2 i'r datganiadau ariannol.

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD ARIANNOL

Mae'r Awdurdod Iechyd Arbennig wedi cwblhau ei flwyddyn lawn gyntaf o weithredu ers trosglwyddo o fod yn gorff a gynhelir o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre i'w statws fel Awdurdod Iechyd Arbennig statudol ei hun, ac o ganlyniad mae'n ofynnol iddo bellach baratoi cyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol 30 Rhagfyr 2020 i 31 Mawrth 2022 a blynyddoedd ariannol dilynol.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r sefydliad wedi ymgorffori'r systemau ariannol, llywodraethu ac adrodd a'r rheolaethau sydd eu hangen i fodloni gofynion statudol ac anghenion busnes o fewn cyd-destun heriol y pandemig COVID-19.

Arweiniodd datrysiadau digidol a oedd yn cefnogi'r ymateb i'r pandemig (Profi, Olrhain a Diogelu a systemau amserlennu Imiwneiddio Torfol) at ofyniad ychwanegol am £11.492m o fuddsoddiad refeniw a £0.865m o fuddsoddiad cyfalaf. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw effaith ariannol ychwanegol ar allu'r sefydliad i adennill costau.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn arwain y gwaith o gyflawni nifer o fentrau digidol a gefnogir gan Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethu Digidol Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2021/22, derbyniodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig £14.421m o gyllid refeniw a £7.129 o gyllid cyfalaf.

Bydd y pwyslais yn y dyfodol yn parhau ar ddarparu gwybodaeth a datrysiadau digidol o'r radd flaenaf i gefnogi gofal cleifion a gwasanaethau dinasyddion effeithiol, a bydd rhai yn gofyn am newidiadau mewn technoleg (fel trosglwyddo i wasanaethau cwmwl yn gyntaf) a fydd yn golygu bod angen arian refeniw ychwanegol er mwyn i'r sefydliad gyrraedd ei dargedau ariannol.

# TARGEDAU ARIANNOL

Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae dyletswyddau ariannol statudol Awdurdodau Iechyd Arbennig wedi'u hamlinellu yn adran 172 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

- Dyletswyddau Ariannol Statudol – Dyletswydd Ariannol Gyntaf

Mae adran 172(1) yn nodi'r hyn y cyfeirir ati fel y 'Ddyletswydd Ariannol Gyntaf' – dyletswydd i sicrhau nad yw gwariant Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn fwy na chyfanred y cyllid a ddyrennir iddo ar gyfer blwyddyn ariannol. O dan y pwerau cyfarwyddo yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) adran 172(6), eglurodd WHC/2019/004 fod y ddyletswydd ariannol statudol flynyddol yn cael ei gosod ar wahân ar gyfer dyraniadau adnoddau refeniw a chyfalaf. Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ffurf gysgodol am y cyfnod 30 Rhagfyr 2020 i 1 Ebrill 2021, ac ni wnaethpwyd unrhyw ddyraniadau adnoddau iddo ar gyfer y cyfnod hwn. Roedd yr endid yn segur at ddibenion cyfrifyddu, ac ysgwyddwyd gwariant gan endidau rhagflaenol ar gyfer darparu gwasanaethau hyd at y dyddiad trosglwyddo, neu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau sefydlu. Rhoddwyd dyraniadau adnoddau refeniw a chyfalaf i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 a bydd yn sail i asesiad o'r Ddyletswydd Ariannol Gyntaf yn y cyfrifon statudol cyntaf.

- Dyletswyddau Ariannol Gweinyddol – Ail Ddyletswydd Ariannol

Yr 'Ail Ddyletswydd Ariannol' ar gyrff y GIG yng Nghymru yw'r ddyletswydd i baratoi cynllun ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt.

Oherwydd y pandemig, gohiriwyd y broses ar gyfer cynllun integredig 2020-23 yng ngwanwyn 2020 a rhoddwyd trefniadau cynllunio dros dro ar waith.

Mae Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2021-22 yn nodi disgwyliad y byddai pob corff iechyd yng Nghymru yn cyflwyno cynllun blynyddol wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd erbyn 31 Mawrth 2021. Gan nad oedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwbl weithredol tan 31 Mawrth 2021, nid oedd yn ymarferol cyflawni hyn, ond cymeradwyodd bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru gynllun blynyddol 2021-22 ar 27 Mai 2021.

# PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn adrodd ar gyflawni'r holl dargedau ariannol a osodwyd

- Dyletswydd adennill costau - Mae gofyniad blynyddol ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y terfynau adnoddau a chyfalaf a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Adroddodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig warged refeniw o £0.366m a thanwariant cyfalaf o £0.010m ar gyfer y flwyddyn ariannol, gan felly gyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb.
- Cynhyrchodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig Gynllun Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2021/2022 a gyflwynwyd yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, ond dylid nodi, oherwydd y pandemig, fod y broses ar gyfer cynllun integredig 2020-23 wedi'i gohirio yng ngwanwyn 2020 a rhoddwyd trefniadau cynllunio dros dro ar waith. O ganlyniad, nid oedd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddyletswydd weinyddol ffurfiol i gael cynllun cymeradwy ar gyfer 2021-22.
- Gan mai dim ond dyletswydd flynyddol i adrodd oedd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, nid oes dyletswydd gynllunio ffurfiol i adrodd yn ei herbyn a gymeradwywyd wedi hynny gan Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Felly, cyflawnodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ei ddyletswydd statudol
- Taliadau credydwyr – Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Iechyd Arbennig dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn y nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag a ddaw yn ddiweddaraf). Mae'r Awdurdod Iechyd Arbennig wedi cyrraedd y targed hwn, gan dalu 97% o anfonebau o fewn yr amserlen ofynnol.

# FFIOEDD A THALIADAU – TÂL YR ARCHWILYDD

Y ffioedd a dalwyd i Archwilio Cymru ar gyfer yr archwiliad statudol a'u harchwiliad ar berfformiad oedd £215,522.

# ATODIAD 1 - AELODAETH Y BWRDD A PHWYLLGORAU A PHRESENOLDEB 1 EBRILL 2021 I 31 MAWRTH 2022

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/ diddordeb Rôl | Aelodaeth Bwrdd/Pwyllgor | Presenoldeb mewn cyfarfodydd | Rolau hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| Simon Jones (*) | Cadeirydd | Cydlyniant y Bwrdd a goruchwyliaeth<br>Gweithio mewn partneriaeth ar draws y system | Y Bwrdd<br>Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (RATS) (Cadeirydd) | 4/4<br>3/3 | AMHERTHNASOL |
| Robert Hudson (*) | Cadeirydd Dros Dro | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd<br>Pwyllgor RATS (Cadeirydd Dros Dro) | 4/4<br>2/2 | AMHERTHNASOL |
| Ruth Glazzard | Is-gadeirydd | Strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda phwyslais ar brofiad cleifion a dinasyddion<br>Hyrwyddwr gwasanaethau digidol sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl<br>Rhaglen gofal sylfaenol strategol genedlaethol<br>Cyngor ac eiriolaeth i'r agendâu datgarboneiddio ac ansawdd a rheoleiddio | Y Bwrdd<br>Pwyllgor RATS (Is-gadeirydd)<br>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | 8/8<br>5/5<br>3/4 | Iechyd meddwl<br>Plant a Phobl Ifanc<br>Pobl Hŷn |
| Rowan Gardner | Aelod Annibynnol | Strategaeth Ymchwil ac Arloesi<br>Agenda iechyd y boblogaeth a gofal iechyd seiliedig ar werth<br>Seiberddiogelwch | Y Bwrdd<br>Pwyllgor RATS<br>Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (Cadeirydd) | 8/8<br>5/5<br>4/4 | Atal a rheoli heintiau<br>Ymchwil<br>Y lluoedd arfog a chyn-filwyr |
| David Selway | Aelod Annibynnol | Rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol<br>Strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda phwyslais ar brofiad cleifion a dinasyddion<br>Dull cynnyrch Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Y Bwrdd<br>Pwyllgor RATS (Is-gadeirydd)<br>Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd<br>Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (Is-gadeirydd) | 8/8<br>5/5<br>4/4<br>4/4 | Gweithio i Wella |
| Grace Quantock | Aelod Annibynnol | Y gweithlu a datblygiad proffesiynol | Y Bwrdd<br>Pwyllgor RATS<br>Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd (Is-gadeirydd) | 7/8<br>5/5<br>4/4 | Cydraddoldeb |
| Marian Wyn Jones | Aelod Annibynnol | Adolygiad swyddogaeth gyfathrebu Iechyd a Gofal Digidol Cymru<br>Dull cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Y Bwrdd<br>Pwyllgor RATS<br>Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd (Cadeirydd) | 8/8<br>5/5<br>4/4 | Codi pryderon (staff)<br>Y Gymraeg |

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/ diddordeb Rôl | Aelodaeth Bwrdd/Pwyllgor | Presenoldeb mewn cyfarfodydd | Rolau hyrwyddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| Siân Doyle | Aelod Annibynnol | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd<br>Pwyllgor RATS<br>Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (Cadeirydd Blaenorol) | 6/6<br>3/3<br>3/3 | AMHERTHNASOL |
| Helen Thomas | Prif Weithredwr | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 8/8 | AMHERTHNASOL |
| Claire Osmundsen-Little | Dirprwy Brif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Cyllid | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 8/8 | AMHERTHNASOL |
| Rhidian Hurle | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 8/8 | AMHERTHNASOL |
| Chris Darling | Ysgrifennydd y Bwrdd | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 8/8 | AMHERTHNASOL |
| Carwyn Lloyd Jones | Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Busnes Digidol | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 8/8 | AMHERTHNASOL |
| Michelle Sell | Prif Swyddog Gweithredu | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 8/8 | AMHERTHNASOL |
| Rachael Powell** | Cyfarwyddwr Cyswllt Ymchwil, Gwybodaeth ac Arloesedd | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 5/5 | AMHERTHNASOL |
| Ifan Evans *** | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Ddigidol | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 0/0 | AMHERTHNASOL |
| Gareth Davis*** | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (Dros Dro) | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 0/0 | AMHERTHNASOL |
| Sarah-Jane Taylor*** | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | AMHERTHNASOL | Y Bwrdd | 0/0 | AMHERTHNASOL |

(*) Yn dynodi aelod a adawodd neu a ymunodd ran o’r ffordd drwy’r flwyddyn, ac mae presenoldeb yn adlewyrchu nifer y cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau cyn y dyddiad ymadael neu ar ôl y dyddiad cychwyn.

(**) Yn dynodi newid i strwythur y sefydliad wrth i’r Cyfarwyddwr Meddygol ddod yn Swyddog Gweithredol sy’n atebol yn y maes hwn, sy’n esbonio’r diffyg presenoldeb yn y ddau gyfarfod Bwrdd olaf o’r flwyddyn.

(***) Yn dynodi Cyfarwyddwyr a benodwyd o fewn y flwyddyn gyda dyddiadau cychwyn ar ôl 31 Mawrth 2022.

# ATODIAD 2 – SWYDDOGION ARWEINIOL

| Pwyllgor | Swyddog |
|---|---|
| Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | Y Cyfarwyddwr Cyllid |
| Tâl a Thelerau Gwasanaeth | Y Prif Swyddog Gweithredol gyda chymorth Pennaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol | Y Cyfarwyddwr Meddygol |

# ATODIAD 3 - RHESTR O GYFARFODYDD Y BWRDD, Y PWYLLGORAU A'R GRŴP CYNGHORI 21/22

| Bwrdd/ Pwyllgor | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig IGDC | 01/04/2021 | 27/05/2021 | amherthnasol | 29/07/2021 | amherthnasol | 30/09/2021 | 14/10/2021 | 25/11/2021 | amherthnasol | 27/01/2022 | amherthnasol | 31/03/2022 |
| Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | amherthnasol | 11/05/2021 | amherthnasol | 06/07/2021 | amherthnasol | amherthnasol | 05/10/2021 | amherthnasol | amherthnasol | 18/01/2022 | amherthnasol | amherthnasol |
| Tâl a Thelerau Gwasanaeth | 30/04/2021 | amherthnasol | amherthnasol | 01/07/2021 | amherthnasol | amherthnasol | 29/10/2021 | amherthnasol | amherthnasol | 20/01/2022 | amherthnasol | 10/03/2022 |
| Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol | amherthnaso | 12/05/2021 | amherthnasol | amherthnasol | 11/08/2021 | amherthnasol | amherthnasol | 15/11/2021 | amherthnasol | amherthnasol | 18/02/2022 | amherthnasol |
| Fforwm Partneriaeth Lleol | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | 10/08/2021 | amherthnasol | 12/10/2021 | amherthnasol | 07/12/2021 | amherthnasol | 08/02/2022 | amherthnasol |

# ATODIAD 4 – CYFARWYDDIADAU GWEINIDOGOL

| Cyfarwyddiadau Gweinidogol | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu | Camau i ddangos gweithredu/ymateb |
|---|---|---|
| 2021. Rhif 41 - Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) 2021 | Ebrill 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 59 – Y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth 2021 | Gorffennaf 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 65 – Cyfarwyddiadau Gofal Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio COVID-19 Brechlyn PfizerBioNTech) 2021 | Gorffennaf 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 70 – Cyfarwyddiadau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau ar Gontract: Imiwneiddiadau) 2021 | Awst 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 75 – Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif 2) 2021 | Medi 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 77 – Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Mangre Cylchol yn ystod y Pandemig COVID-19) (Cymru) (Dirymu) 2021 | Medi 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 83 – Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2021 | Hydref 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 84 – Y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) 2021 | Hydref 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 85 – Y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) (Rhif 2) 2021 | Hydref 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 88 – Y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) (Rhif 3) 2021 | Hydref 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 89 – Y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) (Rhif 3) 2021 | Hydref 2021 | AMHERTHNASOL |

| Cyfarwyddiadau Gweinidogol | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu | Camau i ddangos gweithredu/ymateb |
|---|---|---|
| 2021. Rhif 90 – Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Imiwneiddio rhag y Ffliw ac Imiwneiddio Niwmococol) (Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2021 | Tachwedd 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 93 – Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif 3) 2021 | Rhagfyr 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2021. Rhif 97 – Cyfarwyddiadau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau ar Gontract: Imiwneiddiadau) (Diwygio) 2021 | Rhagfyr 2021 | AMHERTHNASOL |
| 2022. Rhif 06 – Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022 | Mawrth 2022 | AMHERTHNASOL |
| 2022. Rhif 13 - Cyfarwyddiadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2022 | Mawrth 2022 | AMHERTHNASOL |

## CYLCHLYTHYRAU IECHYD \| LLYW.CYMRU

| Enw | Dyddiad Cyhoeddi | Yn berthnasol/ Ddim yn berthnasol | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu os yw'n berthnasol | Camau i ddangos gweithredu/ymateb |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiadau'r GIG (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) (Diwygio) 2021 a Chyfarwyddeb y GIG (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2021 (WHC/2021/005) | 06/04/2021 | Amherthnasol ar hyn o bryd | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol a'i anfon ymlaen at y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a gadarnhaodd nad oedd yn cyfeirio llawer at gyfrifoldebau presennol Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac nad oedd angen unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |
| Diwygio'r Cerdyn Triniaeth Steroid Cenedlaethol (WHC/2021/008) | 01/05/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol lle y cytunwyd nad oedd unrhyw oblygiadau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chaewyd y mater. |
| Llwybr Sgrinio'r Clyw i Blant Ifanc yn yr Ysgol (WHC/2021/009) | 25/03/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol lle y cytunwyd nad oedd unrhyw oblygiadau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chaewyd y mater. |
| Diwygiadau i Reolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol – GIG Cymru (WHC/2021/010) | 16/09/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol lle y cytunwyd nad oedd unrhyw gamau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru oherwydd bod y rheolau sefydlog enghreifftiol a'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau 21/22 fel sefydliad newydd, ond byddai unrhyw Gylchlythyrau Iechyd Cymru pellach o'r math hwn yn gyfrifoldeb i Ysgrifennydd y Bwrdd. |

| Enw | Dyddiad Cyhoeddi | Yn berthnasol/ Ddim yn berthnasol | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu os yw'n berthnasol | Camau i ddangos gweithredu/ymateb |
|---|---|---|---|---|
| Canllawiau Adroddiad Monitro Ariannol Misol Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau 2021/22 (WHC/2021/011) | 23/04/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol a chadarnhawyd nad oedd angen gweithredu. |
| Gweithredu'r Dull y Cytunwyd Arno ar gyfer Atal Trais ac Ymddygiad Ymosodol tuag at Staff y GIG yng Nghymru (WHC/2021/012) | 22/04/2021 | Perthnasol | I'W GADARNHAU | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol a'i raeadru i'r gweithlu ar gyfer gweithredu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Bwriedir ei roi ar waith yn ystod Ch1 22/23. |
| Rhestr o Gylchlythyrau Iechyd Cymru - WHC/2021/014) | 18/05/2021 | Er gwybodaeth | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL |
| Taliad Bonws y GIG ar gyfer Gofal Sylfaenol (WHC/2021/015) | 28/05/2021 | Perthnasol | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol. Cadarnhaodd trafodaethau pellach gyda'r gweithlu fod y cam gweithredu wedi'i gau. |
| Cyhoeddi'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch (WHC/2021/022) | 17/09/2021 | Perthnasol | Ebrill 2023 | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol. Cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Meddygol yn goruchwylio hyn a dosbarthwyd y ddogfen i'r holl staff ar 04/10/2021. |
| Cyfraniad GIG Cymru tuag at Sector Cyhoeddus sero net erbyn 2030: Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (WHC/2021/024) | 08/09/2021 | Perthnasol | 18/01/2021 | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol. Cytunwyd mai'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am oruchwylio a gweithredu hyn. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yn parhau i weithio ar hyn, a rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 18/01/2022. |
| Llwybr Syndrom Twnnel Carpal (WHC/2021/025) | 15/09/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol a chadarnhawyd nad oedd angen unrhyw gamau ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru. |
| Cymhwysedd Ymwelwyr Tramor i gael gofal sylfaenol am ddim (WHC/2021/026) | 06/10/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol a chytunwyd nad oedd unrhyw oblygiadau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. |
| Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru (WHC/2021/027) | 27/09/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hanfonwyd at y Cyfarwyddwr Meddygol i'w adolygu a gadarnhaodd nad oedd angen unrhyw gamau ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru. |
| Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd a Nodau Gwella Ymwrthedd Gwrthficrobaidd ar gyfer 2021-22 (WHC/2021/028) | 27/09/2021 | Perthnasol | AMHERTHNASOL | Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Meddygol nad oedd unrhyw gamau pellach ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru. |
| Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-2025 (WHC/2021/031) | 09/11/2021 | Perthnasol | 31/03/2022 | Cymeradwywyd a chyflwynwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen. |
| Rôl a Darpariaeth Iechyd Deintyddol y Cyhoedd yng Nghymru (WHC/2021/032) | 16/11/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol a chadarnhawyd nad oedd angen unrhyw gamau ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru. |
| Rôl a Darpariaeth Llawdriniaeth ar y Geg yng Nghymru (WHC/2021/033) | 14/12/2021 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwr Meddygol a chadarnhawyd nad oedd unrhyw oblygiadau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru |




| Enw | Dyddiad Cyhoeddi | Yn berthnasol/ Ddim yn berthnasol | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu os yw'n berthnasol | Camau i ddangos gweithredu/ymateb |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth mewn Iechyd Cymru – Gofynion Data (WHC/2022/005) | 24/03/2022 | Perthnasol | I'W GADARNHAU | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol a'i neilltuo i'r Cyfarwyddwr Meddygol. |
| Cofnodi codau READ Dementia | 15/02/2022 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod wythnosol a chadarnhawyd nad oedd unrhyw oblygiadau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Meddygol y bydd gofynion data yn cael eu cefnogi trwy'r trefniadau llywodraethu priodol. |
| Brechlynnau ad-daladwy a charfanau cymwys | 29/03/2022 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | I'w adolygu gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn eu cyfarfod ar 13/04/2022. Cytunwyd yn y cyfarfod nad oedd unrhyw oblygiadau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru mewn perthynas â'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn. |
| Fframwaith Profi Cleifion – canllawiau wedi'u diweddaru | 24/03/2022 | AMHERTHNASOL | AMHERTHNASOL | Fe'i hadolygwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol a chadarnhawyd nad oedd unrhyw gamau i'w cymryd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. |

# ATODIAD 5 - MAP SYSTEMAU IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU AC ESBONIO ACRONYMAU



# ATODIAD 6 - SGORAU SICRWYDD ARCHWILIO

Rydym yn diffinio'r lefelau sicrwydd canlynol bod llywodraethu, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol yn y maes sy'n cael ei adolygu wedi eu dylunio'n addas a'u bod wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol:

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd sylweddol** |  | Dim ond un neu ddau fater sydd angen sylw ac maent yn gysylltiedig â chydymffurfio neu gynghori o ran eu natur.<br><br>**Effaith isel** ar wireddu risgiau gweddilliol. |
| **Sicrwydd rhesymol** |  | Mae angen i rai materion gael sylw rheolwyr o ran rheoli, dylunio neu gydymffurfio.<br><br>**Effaith isel i gymedrol** ar wireddu risgiau gweddilliol hyd nes y cânt eu datrys. |
| **Sicrwydd cyfyngedig** |  | Mae angen sylw rheolwyr ar faterion mwy arwyddocaol.<br><br>**Effaith gymedrol** ar wireddu risgiau gweddilliol hyd nes y cânt eu datrys. |
| **Dim sicrwydd** |  | Mae angen gweithredu i fynd i'r afael â'r fframwaith rheoli cyfan yn y maes hwn.<br><br>**Effaith uchel** ar wireddu risgiau gweddilliol hyd nes y caiff ei ddatrys. |
| **Sicrwydd ddim yn berthnasol** |  | Fe'i rhoddir i adolygiadau a chymorth a ddarperir i reolwyr sy'n rhan o'r cynllun archwilio mewnol, nad yw'r diffiniadau sicrwydd yn briodol iddynt. Mae'r adolygiadau hyn yn berthnasol o hyd i'r sylfaen dystiolaeth y mae'r farn gyffredinol yn cael ei ffurfio arni. |